Cyngor Abertawe
Swansea Council

# Llyfryn Gwybodaeth i Rieni 2023/2024

# Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| **Rhestr o Dermau** | **4** |
| **Lleoedd Meithrin yn Abertawe** | **5** |
| **Dosbarth Derbyn – disgyblion sy'n dechrau ysgol yn y dosbarh Derbyn yn Medi 2023** | **7** |
| ➢ Gwneud cais am le yn y Derbyn | 7 |
| ➢ Dyddiadau pwysig | 9 |
| ➢ Sut i wneud cais | 10 |
| ➢ Meini prawf gor-alw ar gyfer y Derbyn | 11 |
| **Blwyddyn 7 – disgyblion sy'n dechrau Blwyddyn 7 yn yr Ysgol Uwchradd yn Medi 2023** | **12** |
| ➢ Gwneud cais am le yn Blwyddyn 7 | 12 |
| ➢ Dyddiadau pwysig | 14 |
| ➢ Sut i wneud cais | 15 |
| ➢ Meini prawf gor-alw ar gyfer Blwyddyn 7 | 16 |
| **Ceisiadau Hwyr (Reception and Year 7 September 2023)** | **17** |
| **Gwybodaeth bwysig i'w ystyried cyn gwneud cais (Reception and Year 7 September 2023)** | **18** |
| ➢ Dewis lle ar gyfer Medi 2023 | 18 |
| ➢ Pa gyfeiriad i'w ddefnyddio? | 19 |
| ➢ Os wyf yn byw yn Ninas a Sir Abertawe, a all fy mhlentyn fynd i ysgol y tu allan i Abertawe? | 21 |
| ➢ Os wyf yn byw y tu allan i Ddinas a Sir Abertawe, a all fy mhlentyn fynd i ysgol yn Abertawe? | 21 |
| **Gaiff fy nghais ei fodloni?** | **22** |
| ➢ Sut byddaf yn gwybod a fu fy nghais am le yn llwyddiannus? (Derbyn a Blwyddyn 7) | 23 |
| ➢ Y broses apêl | 24 |
| ➢ Rhestrau aros ar gyfer disgyblion sy'n gwneud cais am le yn y dosbarth Derbyn neu Flwyddyn 7. | 26 |

| | |
|---|---|
| **Gwneud cais am le ysgol yng nghanol y flwyddyn (ysgolion cynradd ac uwchradd)** | **27** |
| **Gwybodaeth am y gwasanaethau addysg yn Abertawe** | **29 - 39** |
| **Manylion ysgolion yn Abertawe** | **40 - 62** |
| **Trefniadau Derbyn** | **63 - 105** |
| ➢ Ysgolion Cymunedol | 63 - 80 |
| ➢ Ysgolion a Gynorthwyir yn Wirfoddol | 81 - 105 |

**Tîm Cefnogi Disgyblion**
**Gyfarwyddiaeth Addysg**
**Cyngor Abertawe**
**Heol Ystumllwynarth**
**Abertawe**
**SA1 3SN**

# Rhestr o Dermau

**Awdurdod Derbyniadau –** yr Awdurdod Lleol (ALI) sy'n gyfrifol am dderbyniadau yr holl ysgolion cymunedol.

**Nifer Derbyn (ND)** - uchafswm nifer y plant ysgol y mae ysgol yn gallu ei dderbyn ym mhob grŵp blwyddyn.

**Ysgolion cymunedol** – yn cael eu hariannu a'u cynal yn llwyr gan yr awdurdod lleol

**ALI** – Awdurdod Lleol

**Plentyn sy'n derbyn gofal (LAC)** – Mae plentyn sy'n derbyn gofal yn golygu plentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru neu Loegr, (fel y'i diffinnir gan Adran 22 o Ddeddf Plant 1989 ac Adran 74 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**Plant a oedd yn arfer derbyn gofal** – plant sy'n peidio â bod felly am eu bod wedi'u mabwysiadu neu wedi dod yn destun gorchymyn preswylio, neu orchymyn gwarcheidiaeth arbennig yn syth ar ôl derbyn gofal.

**Trosglwyddo Canol Blwyddyn** – cais i newid o un ysgol i ysgol arall ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd.

**Rownd Derbyn Arferol i Ysgol Gynradd** – y cyfnod pan fo rhieni'n gallu gwneud cais am le derbyn i'w plentyn ei gymryd yn y mis Medi canlynol (Medi 2023)

**Rownd Derbyn Arferol i Ysgol Uwchradd** – y cyfnod pan fo rhieni'n gallu gwneud cais am le Blwyddyn 7 i'w plentyn ei gymryd yn y mis Medi canlynol (mis Medi 2023)

**Dewis(iadau)** – Ysgol(ion) a ddewiswyd ac a wneir cais amdanynt

**Ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol (VA)** - ysgolion eglwys e.e. Catholig, yr Eglwys yng Nghymru.

# Lleoedd Meithrin yn Abertawe

Yn Abertawe mae pob ysgol gynradd yn darparu addysg feithrin ran-amser. Gall plant gael mynediad i le meithrin rhan amser o ddechrau'r tymor ar ôl iddynt droi'n 3, neu y diwrnod ar ôl eu 3ydd pen-blwydd, ac yn dibynnu ar ddarpariaeth ac argaeledd lleoedd mewn ysgol. Mae darpariaeth meithrin yn anstatudol sy'n golygu y gall rhieni benderfynu a ydyn nhw am gymryd lle meithrin ar gyfer eu plentyn ai peidio. Gallwch gyflwyno cais am le yn eich ysgol ddalgylch neu unrhyw ysgol arall y gallai fod yn well gennych chi. Nid yw bob amser yn bosibl i blant gael eu derbyn i ddosbarth meithrin yn y dalgylch ar gyfer eu cyfeiriad cartref neu'ch hoff ysgol. Os nad oes lle ar gael yn y ddarpariaeth feithrin bydd enw eich plentyn yn cael ei roi ar restr aros. Nid oes hawl i apelio yn erbyn gwrthod cynnig lle meithrin mewn ysgol benodol.

Mae'r ALI, fel yr awdurdod derbyn, yn cynnal rhestrau aros ar gyfer ysgolion y mae gormod o bobl yn gwneud cais am le ynddynt. Gyda phob cais, os gwrthodir cais rhieni/gofalwyr am le i'w plentyn mewn ysgol, caiff y plentyn ei roi ar y rhestr aros yn awtomatig.

**Mae'n bwysig nodi na fydd plant yn nosbarth meithrin ysgol yn cael hawl mynediad awtomatig i addysg amser llawn yn nosbarth derbyn yr un ysgol. Bydd rhaid i rieni wneud cais am le mewn dosbarth derbyn gyda'r ymgeiswyr eraill**

**Nid yw mynychu'r dosbarth meithrin mewn ysgol gynradd yn gwarantu lle i'ch plentyn yn y dosbarth derbyn yn yr ysgol. Os oes gormod o geisiadau am ysgol, mae lleoedd yn cael eu dyrannu yn unol â threfniadau derbyn yr awdurdod lleol a'r meini prawf ar gyfer gor-alw.**

Am fanylion llawn polisi derbyniadau meithrin a meini prawf gor-alw Cyngor Abertawe, trowch at dudalennau 63 - 65. Gellir gweld y polisi derbyn a'r meini prawf gordanysgrifio ar gyfer mynediad i'r Derbyn ar dudalennau 66 – 70.

Efallai yr hoffai rhieni ymweld ag ysgolion cyn iddynt wneud penderfyniad ynghylch pa ysgol y maent yn dymuno ymgeisio amdani a dylid trefnu ymweliadau â'r ysgol yn uniongyrchol â phennaeth yr ysgol berthnasol. Mae enwau, cyfeiriadau a rhifau ffôn pob ysgol ar dudalennau 45 - 62 o'r llyfr hwn. Mae gwefannau ysgolion hefyd yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am ysgolion, fel y mae gwefan Llywodraeth Cymru Fy Ysgol Leol www.mylocalschool.wales.gov.uk a gwefan Cyngor Abertawe www.abertawe.gov.uk

## Sut i wneud cais am le yn y Meithrin

Ar ôl i chi benderfynu pa ysgol yr hoffech wneud cais amdani, **cysylltwch â'r ysgol yn uniongyrchol i ofyn am ffurflen gais**. Wrth lenwi'r ffurflen dylid defnyddio prif gyfeiriad preswyl cyfredol y disgyblion (**nid** cyfeiriad neiniau a theidiau, aelodau eraill o'r teulu neu warchodwyr plant). I gael gwybodaeth fanylach am y cyfeiriad cartref, cyfeiriwch at y tudalennau 19 – 21.

Gellir cael gwybodaeth am gael mynediad i ofal plant yn Abertawe a'r cynnig gofal plant 30 awr a ariennir gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd www.abertawe.gov.uk/fis

*Mae gweinyddu ceisiadau meithrin wedi ei ddirprwyo i'r ysgolion cynradd, fodd bynnag, mae'r awdurdod lleol, fel yr awdurdod derbyniadau, yn cynnal a goruchwylio y trefniadau derbyn ar gyfer meithrin.*

# Derbyn

## Gwneud cais i ddisgyblion ddechrau ysgol mewn dosbarth Derbyn ym mis Medi 2023

Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i bob plentyn ddechrau'r ysgol erbyn diwrnod cyntaf y tymor ar ôl iddynt gael eu pen-blwydd yn bump oed. Yn Ninas a Sir Abertawe gall pob plentyn ddechrau'r ysgol yn amser llawn yn gynnar ar ddechrau'r flwyddyn ysgol pan fyddant yn cael eu pen-blwydd yn bump oed. Fodd bynnag, os dymunwch aros tan i'ch plentyn gyrraedd pump oed, dylech gysylltu â'r Tîm Mynediad o hyd fel y gall enw'ch plentyn gael ei ystyried am le gan ddefnyddio'r un gweithdrefnau â'r rhai ar gyfer y disgyblion hynny sy'n dechrau ym mis Medi. Mae'n bosib cadw lle ar gyfer eich plentyn tan ei fod yn cyrraedd oed ysgol statudol.

I blant a anwyd rhwng 1af Medi 2018 a 31ain Awst 2019 a sydd wedi'u cofrestru mewn dosbarth meithrin mewn ysgol gynradd yn Abertawe, bydd yr awdurdod lleol yn ysgrifennu atoch ddechrau mis Hydref 2022 i'ch gwahodd i wneud cais ar-lein am le mewn dosbarth Derbyn i'ch plentyn mewn ysgol gynradd yn Abertawe. Os nad ydych yn byw yn Abertawe neu os nad yw'ch plentyn yn mynychu ysgol yn Abertawe gallwch wneud cais am le ar-lein.

Gallwch gyflwyno cais mewn unrhyw le lle ceir mynediad at y rhyngrwyd a bydd angen cyfeiriad e-bost dilys arnoch chi. Mae'r system yn addas i'w defnyddio gyda nifer o ddyfeisiau electronig, gan gynnwys ffonau symudol. Os nad oes gennych gyfrifiadur neu unrhyw un o'r dyfeisiau y sonnir amdanynt uchod i'w defnyddio gartref, neu os hoffech gael cefnogaeth ychwanegol wrth gwblhau cais eich plentyn, gallwch gael cymorth yn ysgol gynradd eich plentyn, yn y Ganolfan Gyswllt yn y Ganolfan Ddinesig neu yn eich llyfrgell leol.

Mae'r cais yn caniatáu i chi wneud 3 dewis ysgol (a elwir yn ddewisiadau) y gallwch eu rhestru yn ôl ffafriaeth. Dim ond unwaith y gallwch chi ymgeisio am bob ysgol o'ch dewis. Defnyddiwch y 3 dewis sydd ar gael i chi ac ystyried cynnwys eich ysgol dalgylch. Ni fydd dewis yr un ysgol 3 gwaith yn cynyddu eich siawns o gael cynnig lle. Nid yw gwneud dewisiadau ychwanegol yn effeithio ar eich cyfle o sicrhau eich dewis cyntaf gan fod pob lle yn cael ei ddyrannu yn dilyn y meini prawf gor-alw. Fodd bynnag, os oes gormod o geisiadau am eich dewis cyntaf ac nad ydym yn gallu neilltuo lle i'ch plentyn, byddwn yn ystyried eich ail ac yna eich trydydd dewis.

**Os ydych yn byw y tu allan i awdurdod lleol Dinas a Sir Abertawe, rydym yn eich cynghori'n gryf i wneud cais gyda'ch awdurdod lleol eich hun hefyd (yr awdurdod lleol yr ydych yn talu eich treth gyngor iddo) oherwydd, os na allwn gynnig lle i'ch plentyn mewn ysgol yn Abertawe eich bod wedi dewis ni fyddwn yn cynnig lle i'ch plentyn mewn ysgol arall yn Abertawe.**

Dywedir wrth rieni y dylent gyflwyno un cais derbyn fesul plentyn yn unig, a all gynnwys hyd at dri dewis. Os cyflwynir sawl cais ar gyfer yr un plentyn, ymdrinnir â'r cais olaf fel y cais o ddewis ac anwybyddir pob cais cynharach. Lle'r ydym yn gallu cynnig mwy nag un ysgol i chi, byddwn yn cynnig yr ysgol o ddewis a raddiwyd uchaf gennych ac yn tynnu'r holl gynigion a raddiwyd yn is yn ôl.

Caiff yr holl geisiadau a gwblheir eu hystyried ar yr un pryd, felly nid oes mantais i rieni sy'n cyflwyno cais yn gynnar. Os caiff eich cais ei dderbyn ar ôl y dyddiad cau yn yr amserlen a gyhoeddwyd, bydd eich cais yn hwyr a chaiff ei ystyried ar ôl i'r ceisiadau eraill a anfonwyd mewn pryd dderbyn cynnig. Ni allwch wneud cais hwyr ar-lein. Erbyn i geisiadau hwyr gael eu hystyried, mae'n bosib y bydd yr holl leoedd yn eich ysgol o ddewis wedi cael eu dyrannu, ac efallai gwrthodir lle i chi os yw'r ysgol yn llawn, hyd yn oed os ydych yn byw yn nalgylch yr ysgol ac yn bodloni pob un o'r meini prawf derbyn eraill neu rai ohonynt.

Byddwn yn ceisio bodloni dymuniad rhieni, fodd bynnag, byddwch yn ymwybodol:-

- Nad yw byw yn y dalgylch yn gwarantu lle i ' ch plentyn yn yr ysgol.
- Nid yw cael brawd neu chwaer o oedran ysgol statudol sydd eisoes yn mynychu'r ysgol yn gwarantu lle i'ch plentyn yn yr ysgol.
- Nid yw mynychu'r dosbarth meithrin mewn ysgol gynradd yn rhoi hawl mynediad awtomatig i'ch plentyn i'r dosbarth derbyn ac nid yw'n gwarantu lle i'ch plentyn yn yr ysgol.
- Nid yw mynychu ysgol gynradd bartner yn gwarantu lle i'ch plentyn yn yr ysgol uwchradd gysylltiedig.

**Rhoddwyd newidiadau i ddalgylchoedd ysgolion cyfrwng Cymraeg ar waith ym mis Medi 2021 ac mae'n bosib bod yr ysgol ddalgylch ar gyfer eich cyfeiriad cartref wedi newid. I wirio'r ysgol ddalgylch cyfrwng Cymraeg ddynodedig ar gyfer eich cyfeiriad cartref, e-bostiwch** derbyniadau@abertawe.gov.uk

Os ydych chi'n gwneud cais am le mewn ysgol nad hi yw'r ysgol ddynodedig ar gyfer eich cyfeiriad cartref, chi sydd â'r cyfrifoldeb a'r gost am gael eich plentyn yn ôl ac ymlaen i'r ysgol. Ni fydd yr awdurdod lleol yn darparu cludiant cartref i'r ysgol am ddim pan na fydd disgybl yn mynychu ei ysgol ddynodedig. Mae hyn hefyd yn berthnasol os rhoddir lle i ddisgybl mewn ysgol nad yw'n ysgol ddalgylch ddynodedig o ganlyniad i apêl lwyddiannus.

Eich cyfrifoldeb chi yw cyflwyno cais a gwneud cais ar amser.  Ni allwn gynnig lle i'ch plentyn nes i chi wneud eich cais.  Ni fydd eich plentyn yn cael lle mewn ysgol yn awtomatig.

**Nid yw mynychu dosbarth meithrin mewn ysgol gynradd yn gwarantu lle i'ch plentyn yn y dosbarth derbyn yn yr ysgol.**

Os ydych chi am newid eich dewis ysgol ar ôl y dyddiad cau a gyhoeddir ar gyfer ceisiadau neu ar ôl i le gael ei gynnig ar y diwrnod cynnig statudol, bydd angen cyflwyno cais newydd. Bydd cais newydd a wneir yn gais hwyr a bydd yn disodli unrhyw geisiadau cynharach a dderbyniwyd ac ni fyddai unrhyw gynigion a wnaed yn flaenorol ar gael mwyach.  Ni allwch gyflwyno cais hwyr ar-lein.

## Dyddiadau pwysig i'w cofio ar gyfer Addysg Gynradd

**Mae'r amserlen hon ar gyfer rhieni sy'n gwneud cais am le mewn dosbarth derbyn ar gyfer mis Medi 2023**

**3 Hydref 2022**

Porth ceisiadau ar-lein yn agor.

Gwnewch gais ar-lein yn: www.abertawe.gov.uk/gwneudcaisysgol

**25 Tachwedd 2022**

Dyddiad cau i rieni wneud cais am le.

**17 Ebrill 2023**

Bydd rhieni a wnaeth gais ar amser yn cael eu hysbysu o'r lle yn y Dosbarth Derbyn sydd wedi ei gynnig.

**18 Ebrill - 12 Mai 2023**

Gall rhieni a wnaeth gais prydlon gyflwyno apel yn erbyn cais aflwyddianus

**EICH CYFRIFOLDEB CHI YW GWNEUD CAIS AR AMSER**

## Sut i wneud cais

Y ffordd hawsaf o wneud cais yw ar-lein.

**GWNEWCH GAIS AR-LEIN DRWY DDEFNYDDIO PORTH CEISIADAU'R CYNGOR**
**www.abertawe.gov.uk/gwneudcaisysgol**

**Os byddwch yn aros tan y diwrnod olaf i gyflwyno'ch cais ac yn profi unrhyw anawsterau wrth lenwi'r ffurflen, dylech fod yn ymwybodol na fydd cymorth technegol ar gael ar ôl 4.00pm ar y diwrnod cau (25 Tachwedd 2022).**

**Pethau i'w cofio!**

- Bydd angen cyfeiriad e-bost dilys arnoch i wneud cais ar-lein.
- Gwnewch gais ar amser.
- Darllenwch y meini prawf gor-alw.
- Defnyddiwch eich holl ddewisiadau.
- Ystyriwch gynnwys eich ysgol ddalgylch fel dewis.
- Gwnewch yn siwr eich bod yn pwyso **CYFLWYNO** pan fyddwch wedi cwblhau eich cais ar-lein.
- Gwiriwch eich bod wedi derbyn e-bost yn cadarnhau bod y cais wedi'i gyflwyno – mae'r e-bost hwn yn rhestru'r dewisiadau ysgol a ddewiswyd gennych.
- Ailgyflwynwch eich cais os byddwch yn gwneud unrhyw newidiadau (dim ond tra bod y ffenestr dderbyn ar agor y gellir gwneud newidiadau).
- Ni chewch gynnig lle mewn Ysgol os na fyddwch yn cyflwyno cais.

**Os yw eich cais yn hwyr, gallai hyn leihau'n sylweddol eich siawns o gael y lle rydych ei eisiau**

# Derbyn - Polisïau derbyn a meini prawf gor-alw:

I gael manylion llawn polisiau derbyn Abertawe cyfeiriwch at dudalennau 63 - 80. Mae'r meini prawf gor-alw ar gyfer ysgolion Abertawe hy pob sgol ar wahân i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir fel a ganlyn:

Os cafwyd mwy o geisiadau mewn ysgol na'r lleoedd sydd ar gael, bydd y drefn flaenoriaeth ganlynol yn berthnasol:

1. Plant y mae'r Awdurdod Lleol yn gofalu amdanynt, h.y. Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG), neu a oedd yn arfer derbyn gofal*.
2. Plant sy'n byw yn nalgylch penodol yr ysgol. Ni ellir gwarantu lle yn y dalgylch. Os bydd mwy o geisiadau na lleoedd, caiff y lleoedd eu dyrannu yn ôl pellter, gyda'r rhai sy'n byw agosaf i'r ysgol (y daith gerdded fyrraf) yn cael blaenoriaeth**.
3. Plant y mae eu brawd neu eu chwaer yn mynd i'r ysgol ar adeg eu derbyn.*** Os bydd mwy o geisiadau na lleoedd, caiff y lleoedd eu dyrannu yn ôl pellter, gyda'r rhai sy'n byw agosaf at yr ysgol (y daith gerdded fyrraf) yn cael blaenoriaeth**.
4. Plant eraill y gwnaed cais am le drostynt nad yw meini prawf 1 i 3 uchod yn berthnasol iddynt. Os bydd mwy o geisiadau na lleoedd, caiff y lleoedd eu dyrannu yn ôl pellter, gyda'r rhai sy'n byw agosaf i'r ysgol (y daith gerdded fyrraf) yn cael blaenoriaeth**

* Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG), neu a oedd yn arfer derbyn gofal - mae plentyn sy'n derbyn gofal yn cyfeirio at blentyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yn
Nghymru neu Loegr, (yn ôl diffiniad Adran 22 Deddf Plant 1989 ac Adran 74 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant [Cymru] 2014) ar yr adeg y cyflwynir cais i ysgol ac y mae'r awdurdod lleol wedi cadarnhau y bydd yn parhau i dderbyn gofal pan fydd yn cael mynediad i'r ysgol. Plant a oedd yn arfer derbyn gofal: plant nad ydynt yn derbyn gofal bellach gan eu bod wedi cael eu mabwysiadu, wedi bod yn destun gorchymyn preswyl neu orchymyn gwarcheidwadaeth arbennig yn syth ar ôl derbyn gofal (yn ôl diffiniad Côd Derbyniadau Ysgolion Llywodraeth Cymru, dogfen rhif 005/2013). Bydd angen darparu tystiolaeth ar gyfer holl geisiadau meini prawf PDG.

**Mesurir y pellter o'r tu allan i fynedfa'r eiddo (tŷ neu fflat) i fynedfa swyddogol agosaf yr ysgol. Defnyddir rhaglen gyfrifiadur GIS yr awdurdod lleol i fesur y pellter.

***Diffinnir brawd neu chwaer fel plentyn naturiol neu blentyn sydd wedi'i fabwysiadu'n gyfreithlon gan y naill riant neu'r llall sy'n byw yn yr un cyfeiriad. Mewn unrhyw sefyllfa pan fydd un lle ar gael ac mae'r plant cymwys nesaf ar gyfer y lle hwnnw'n efeilliaid/tripledi, bydd yr ALl yn derbyn y ddau/tri phlentyn. Diffinnir oedran ysgol statudol fel disgyblion sydd rhwng 5 ac 16 oed (h.y. disgyblion mewn unrhyw grŵp blwyddyn rhwng ac yn cynnwys y dosbarth Derbyn a Blwyddyn 11.)

## Ysgolion a Gynorthwyir yn Wirfoddol - Cynradd

**Os ydych yn dymuno gwneud cais am le mewn ysgol a gynorthwyir yn wirfoddol, bydd angen i chi gysylltu'n uniongyrchol â'r ysgol.** Mae manylion am sut mae ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yn derbyn ei disgyblion ar dudalen 81 ymlaen.

# Blwyddyn 7

## Gwneud cais i ddisgyblion ddechrau'r ysgol uwchradd ym mlwyddyn 7 ym Medi 2023

Mae plant yn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd pan fyddant yn 11 oed. Mae plant sy'n 11 oed erbyn 31 Awst yn dechrau yn yr ysgol uwchradd yn y mis Medi canlynol.

I blant sydd wedi'u cofrestru mewn dosbarth Blwyddyn 6 mewn ysgol gynradd yn Abertawe, bydd yr awdurdod lleol yn ysgrifennu atoch ddechrau mis Hydref 2022 i'ch gwahodd i wneud cais ar-lein am le Blwyddyn 7 i'ch plentyn mewn ysgol uwchradd. Os nad ydych yn byw yn Abertawe neu os nad yw'ch plentyn yn mynychu ysgol yn Abertawe gallwch wneud cais am le ar-lein.

Gallwch gyflwyno cais mewn unrhyw le lle ceir mynediad at y rhyngrwyd a bydd angen cyfeiriad e-bost dilys arnoch chi. Mae'r system yn addas i'w defnyddio gyda nifer o ddyfeisiau electronig, gan gynnwys ffonau symudol. Os nad oes gennych gyfrifiadur neu unrhyw un o'r dyfeisiau y sonnir amdanynt uchod i'w defnyddio gartref, neu os hoffech gael cefnogaeth ychwanegol wrth gwblhau cais eich plentyn, gallwch gael cymorth yn ysgol gynradd eich plentyn, yn y Ganolfan Gyswllt yn y Ganolfan Ddinesig neu yn eich llyfrgell leol.

Mae'r cais yn caniatáu i chi wneud 3 dewis ysgol (a elwir yn ddewisiadau) y gallwch eu rhestru yn ôl ffafriaeth. Dim ond unwaith y gallwch chi ymgeisio am bob ysgol o'ch dewis.  Defnyddiwch y 3 dewis sydd ar gael i chi ac ystyried cynnwys eich ysgol dalgylch.  Ni fydd dewis yr un ysgol 3 gwaith yn cynyddu eich siawns o gael cynnig lle.  Nid yw gwneud dewisiadau ychwanegol yn effeithio ar eich cyfle o sicrhau eich dewis cyntaf gan fod pob lle yn cael ei ddyrannu yn dilyn y meini prawf gor-alw. Fodd bynnag, os oes gormod o geisiadau am eich dewis cyntaf ac nad ydym yn gallu neilltuo lle i'ch plentyn, byddwn yn ystyried eich ail ac yna eich trydydd dewis.

**Os ydych yn byw y tu allan i awdurdod lleol Dinas a Sir Abertawe, rydym yn eich cynghori'n gryf i wneud cais gyda'ch awdurdod lleol eich hun hefyd (yr awdurdod lleol yr ydych yn talu eich treth gyngor iddo) oherwydd, os na allwn gynnig lle i'ch plentyn mewn ysgol yn Abertawe eich bod wedi dewis ni fyddwn yn cynnig lle i'ch plentyn mewn ysgol arall yn Abertawe.**

Dywedir wrth rieni y dylent gyflwyno un cais derbyn fesul plentyn yn unig, a all gynnwys hyd at dri dewis.  Os cyflwynir sawl cais ar gyfer yr un plentyn, ymdrinnir â'r cais olaf fel y cais o ddewis ac anwybyddir pob cais cynharach.  Lle'r ydym yn gallu cynnig mwy nag un ysgol i chi, byddwn yn cynnig yr ysgol o ddewis a raddiwyd uchaf gennych ac yn tynnu'r holl gynigion a raddiwyd yn is yn ôl.

Caiff yr holl geisiadau a gwblheir eu hystyried ar yr un pryd, felly nid oes mantais i rieni sy'n cyflwyno cais yn gynnar. Os caiff eich cais ei dderbyn ar ôl y dyddiad cau yn yr amserlen a gyhoeddwyd, bydd eich cais yn hwyr a chaiff ei ystyried ar ôl i'r ceisiadau eraill a anfonwyd mewn pryd dderbyn cynnig. Ni allwch wneud cais hwyr ar-lein. Erbyn i geisiadau hwyr gael eu hystyried, mae'n bosib y bydd yr holl leoedd yn eich ysgol o ddewis wedi cael eu dyrannu, ac efallai gwrthodir lle i chi os yw'r ysgol yn llawn, hyd yn oed os ydych yn byw yn nalgylch yr ysgol ac yn bodloni pob un o'r meini prawf derbyn eraill neu rai ohonynt.

Byddwn yn ceisio bodloni dymuniad rhieni, fodd bynnag, byddwch yn ymwybodol:-

- Nad yw byw yn y dalgylch yn gwarantu lle i'ch plentyn yn yr ysgol.
- Nid yw cael brawd neu chwaer o oedran ysgol statudol sydd eisoes yn mynychu'r ysgol yn gwarantu lle i'ch plentyn yn yr ysgol.
- Nid yw mynychu ysgol gynradd bartner yn gwarantu lle i'ch plentyn yn yr ysgol uwchradd gysylltiedig.

**Rhoddwyd newidiadau i ddalgylchoedd ysgolion cyfrwng Cymraeg ar waith ym mis Medi 2021 ac mae'n bosib bod yr ysgol ddalgylch ar gyfer eich cyfeiriad cartref wedi newid. I wirio'r ysgol ddalgylch cyfrwng Cymraeg ddynodedig ar gyfer eich cyfeiriad cartref, e-bostiwch** derbyniadau@abertawe.gov.uk

Os ydych chi'n gwneud cais am le mewn ysgol nad hi yw'r ysgol ddynodedig ar gyfer eich cyfeiriad cartref, chi sydd â'r cyfrifoldeb a'r gost am gael eich plentyn yn ôl ac ymlaen i'r ysgol. Ni fydd yr awdurdod lleol yn darparu cludiant cartref i'r ysgol am ddim pan na fydd disgybl yn mynychu ei ysgol ddynodedig. Mae hyn hefyd yn berthnasol os rhoddir lle i ddisgybl mewn ysgol nad yw'n ysgol ddalgylch ddynodedig o ganlyniad i apêl lwyddiannus.

Eich cyfrifoldeb chi yw cyflwyno cais a gwneud cais ar amser.  Ni allwn gynnig lle i'ch plentyn nes i chi wneud eich cais.  Ni fydd eich plentyn yn cael lle mewn ysgol yn awtomatig.

**Nid mynychu ysgol gynradd bartner yn gwarantu lle i'ch plentyn yn yr ysgol uwchradd gysylltiedig**

Os ydych chi am newid eich dewis ysgol ar ôl y dyddiad cau a gyhoeddir ar gyfer ceisiadau neu ar ôl i le gael ei gynnig ar y diwrnod cynnig statudol, bydd angen cyflwyno cais newydd. Bydd cais newydd a wneir yn gais hwyr a bydd yn disodli unrhyw geisiadau cynharach a dderbyniwyd ac ni fyddai unrhyw gynigion a wnaed yn flaenorol ar gael mwyach.  Ni allwch gyflwyno cais hwyr ar-lein.

## Dyddiadau pwysig i'w cofio ar gyfer Addysg Uwchradd

**Mae'r amserlen hon ar gyfer rhieni sy'n gwneud cais am le ym Mlwyddyn 7 ym mis Medi 2023**

**3 Hydref 2022**

Porth ceisiadau ar-lein yn agor.

Gwnewch gais ar-lein yn www.abertawe.gov.uk/gwneudcaisysgol

**25 Tachwedd 2022**

Dyddiad cau i rieni gyflwyno eu cais.

**1 Mawrth 2023**

Bydd rhieni a wnaeth gais ar amser yn cael eu hysbysu o'r lle Blwyddyn 7 sydd wedi ei gynnig

**2 Mawrth - 24 Mawrth 2023**

Gall rhieni a wnaeth gais prydlon gyflwyno apel yn erbyn cais aflwyddianus

**EICH CYFRIFOLDEB CHI YW GWNEUD CAIS AR AMSER**

## Sut i wneud cais

Y ffordd hawsaf o wneud cais yw ar-lein.

**GWNEWCH GAIS AR-LEIN DRWY DDEFNYDDIO PORTH CEISIADAU'R CYNGOR**
**www.abertawe.gov.uk/gwneudcaisysgol**

**Os byddwch yn aros tan y diwrnod olaf i gyflwyno'ch cais ac yn profi unrhyw anawsterau wrth lenwi'r ffurflen, dylech fod yn ymwybodol na fydd cymorth technegol ar gael ar ôl 4.00pm ar y diwrnod cau (25 Tachwedd 2022).**

**Pethau i'w cofio!**

- Bydd angen cyfeiriad e-bost dilys arnoch i wneud cais ar-lein.
- Gwnewch gais ar amser.
- Darllenwch y meini prawf gor-alw.
- Defnyddiwch eich holl ddewisiadau.
- Ystyriwch gynnwys eich ysgol ddalgylch fel dewis.
- Gwnewch yn siwr eich bod yn pwyso **CYFLWYNO** pan fyddwch wedi cwblhau eich cais ar-lein.
- Gwiriwch eich bod wedi derbyn e-bost yn cadarnhau bod y cais wedi'i gyflwyno – mae'r e-bost hwn yn rhestru'r dewisiadau ysgol a ddewiswyd gennych.
- Ailgyflwynwch eich cais os byddwch yn gwneud unrhyw newidiadau (dim ond tra bod y ffenestr dderbyn ar agor y gellir gwneud newidiadau).
- Ni chewch gynnig lle mewn Ysgol os na fyddwch yn cyflwyno cais.

**Os yw eich cais yn hwyr, gallai hyn leihau'n sylweddol eich siawns o gael y lle rydych ei eisiau**

## Blwyddyn 7 - Polisïau derbyn a meini prawf gorymgeisio:

I gael manylion llawn am bolisïau derbyn Abertawe cyfeiriwch at dudalennau 67 - 71. Mae'r meini prawf gordanysgrifio ar gyfer ysgolion Abertawe hy pob ysgol ar wahân i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir fel a ganlyn:

Os cafwyd mwy o geisiadau mewn ysgol na'r lleoedd sydd ar gael, bydd y drefn flaenoriaeth ganlynol yn berthnasol:

1. Plant y mae'r Awdurdod Lleol yn gofalu amdanynt, h.y. Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG), neu a oedd yn arfer derbyn gofal*.
2. Plant sy'n byw yn nalgylch penodol yr ysgol. Ni ellir gwarantu lle yn y dalgylch. Os bydd mwy o geisiadau na lleoedd, caiff lleoedd eu dyrannu yn ôl pellter, gyda'r rhai sy'n byw agosaf at yr ysgol (y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael) yn cael blaenoriaeth**.
3. Plant y mae ganddynt frawd neu chwaer o oedran ysgol statudol sy'n mynd i'r ysgol ar adeg eu derbyn***. Os bydd mwy o geisiadau na lleoedd, caiff lleoedd eu dyrannu yn ôl pellter, gyda'r rhai sy'n byw agosaf at yr ysgol (y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael) yn cael blaenoriaeth**.
4. Plant sy'n mynd i ysgol gynradd bartner ddynodedig ond sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol honno. Nid yw mynychu ysgol gynradd bartner yn gwarantu lle yn yr ysgol uwchradd gysylltiedig. Os bydd mwy o geisiadau na lleoedd, caiff lleoedd eu dyrannu yn ôl pellter, gyda'r rhai sy'n byw agosaf at yr ysgol (y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael) yn cael blaenoriaeth**.
5. Plant eraill nad yw meini prawf 1 i 4 yn berthnasol iddynt. Os bydd mwy o geisiadau na lleoedd, caiff lleoedd eu dyrannu yn ôl pellter, gyda'r rhai sy'n byw agosaf at yr ysgol (y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael) yn cael blaenoriaeth**.

* Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG), neu a oedd yn arfer derbyn gofal - mae plentyn sy'n derbyn gofal yn cyfeirio at blentyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yn Nghymru neu Loegr, (yn ôl diffiniad Adran 22 Deddf Plant 1989 ac Adran 74 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant [Cymru] 2014) ar yr adeg y cyflwynir cais i ysgol ac y mae'r awdurdod lleol wedi cadarnhau y bydd yn parhau i dderbyn gofal pan fydd yn cael mynediad i'r ysgol. Plant a oedd yn arfer derbyn gofal: plant nad ydynt yn derbyn gofal bellach gan eu bod wedi cael eu mabwysiadu, wedi bod yn destun gorchymyn preswyl neu orchymyn gwarcheidwadaeth arbennig yn syth ar ôl derbyn gofal (yn ôl diffiniad Côd Derbyniadau Ysgolion Llywodraeth Cymru, dogfen rhif 005/2013). Bydd angen darparu tystiolaeth ar gyfer holl geisiadau meini prawf PDG.

**Mesurir y pellter o'r tu allan i fynedfa'r eiddo (tŷ neu fflat) i fynedfa swyddogol agosaf yr ysgol. Defnyddir rhaglen gyfrifiadur GIS yr awdurdod lleol i fesur y pellter.

***Diffinnir brawd neu chwaer fel plentyn naturiol neu blentyn sydd wedi'i fabwysiadu'n gyfreithlon gan y naill riant neu'r llall sy'n byw yn yr un cyfeiriad. Mewn unrhyw sefyllfa pan fydd un lle ar gael ac mae'r plant cymwys nesaf ar gyfer y lle hwnnw'n efeilliaid/tripledi, bydd yr ALl yn derbyn y ddau/tri phlentyn. Diffinnir oedran ysgol statudol fel disgyblion sydd rhwng 5 ac 16 oed (h.y. disgyblion mewn unrhyw grŵp blwyddyn rhwng ac yn cynnwys y dosbarth Derbyn a Blwyddyn 11.)

## Ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol - uwchradd

Os dymunwch i'r plentyn fynychu Ysgol Gyfun Babyddol yr Esgob Vaughan, dyrennir lleoedd gan ddefnyddio meini prawf y mae corff llywodraethu'r ysgol wedi cytuno arnynt. Ceir y meini prawf hyn ar Dudalen 101 ymlaen. Dylech wneud cais ar-lein o hyd gan ddefnyddio'r amserlen uchod, ac argymhellir eich bod hefyd yn gwneud ail a thrydydd dewis rhag ofn na fydd Ysgol Gyfun Babyddol yr Esgob Vaughan yn gallu cynnig lle i'ch plentyn.

## Ceisiadau hwyr (Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 7 Medi 2023)

**Ceisiadau a ddaeth i law ar ôl y dyddiad cau, sef 25 Tachwedd 2022**

Ni fydd ceisiadau a gyflwynir ar ôl y dyddiad cau cyhoeddedig yn cael eu hystyried tan ar ôl i'r holl geisiadau a dderbynnir ar amser gael eu dyrannu a chynnig eu lleoedd ar y diwrnod cynnig statudol. Lle mae mwy o geisiadau hwyr am ysgol nag y mae lleoedd ar gael, bydd y ceisiadau'n cael eu hystyried yn unol â'r meini prawf gordanysgrifio. Dim ond os oes lleoedd ar gael o hyd y bydd yr Awdurdod Lleol yn gallu dyrannu lle yn yr ysgol o'ch dewis. Mae hyn yn golygu efallai na roddir lle i chi yn yr ysgol o'ch dewis hyd yn oed os ydych chi'n byw yn nalgylch yr ysgol neu'n symud i'r dalgylch ar ôl 25 Tachwedd 2022.

Os ydych chi am newid eich dewis ysgol ar ôl y dyddiad cau a gyhoeddir ar gyfer ceisiadau neu ar ôl i le gael ei gynnig ar y diwrnod cynnig statudol, bydd angen cyflwyno cais newydd. Bydd cais newydd a wneir yn gais hwyr a bydd yn disodli unrhyw geisiadau cynharach a dderbyniwyd ac ni fyddai unrhyw gynigion a wnaed yn flaenorol ar gael mwyach.

**Cysylltwch â'r Tîm Derbyn am ffurflen hwyr:** Derbyniadau@abertawe.gov.uk

# Gwybodaeth bwysig i'w hystyried cyn gwneud cais

## Dewis lle ysgol ar gyfer mis Medi 2023 (Derbyn a Blwyddyn 7)

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mynychu eu hysgol ddalgylch (yr ysgol hon fel arfer, ond nid bob amser, yw'r ysgol agosaf at eich cartref). Gallwch, os dymunwch, wneud cais i ysgol arall o'ch dewis.

Peidiwch â thybio eich bod mewn dalgylch oherwydd eich bod yn byw yn agos at ysgol. E-bostiwch Derbyniadau@abertawe.gov.uk i wirio'ch ysgol ddalgylch.

**Rhoddwyd newidiadau i ddalgylchoedd ysgolion cyfrwng Cymraeg ar waith ym mis Medi 2021 ac mae'n bosib bod yr ysgol ddalgylch ar gyfer eich cyfeiriad cartref wedi newid. I wirio'r ysgol ddalgylch cyfrwng Cymraeg ddynodedig ar gyfer eich cyfeiriad cartref, e-bostiwch** Admissions@abertawe.gov.uk

Os ydych yn gwneud cais am le mewn ysgol nad yw'r ysgol ddynodedig ar gyfer eich cyfeiriad cartref, chi fel rhiant/gofalwr sy'n gyfrifol am gost cludo'ch plentyn i'r ysgol ac oddi yno. Ni fydd yr awdurdod lleol yn darparu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol pan nad yw disgybl yn mynd i'w ysgol ddynodedig. Mae hyn hefyd yn berthnasol os caiff plentyn le mewn ysgol nad yw'n ysgol y dalgylch o ganlyniad i apêl lwyddiannus.

Mae 62 o ysgolion cynradd Saesneg ac 11 ysgol uwchradd Saesneg yn Abertawe. Mae 10 ysgol gynradd Gymraeg a 2 ysgol uwchradd Gymraeg yn Abertawe. Mae 5 ysgol gynradd (eglwys) a gynorthwyir yn wirfoddol yn Abertawe. Mae un ohonynt yn ysgol yr Eglwys yng Nghymru a'r pedair arall yn ysgolion Catholig. Mae un ysgol gyfun Gatholig hefyd. Corff Llywodraethu'r ysgol sy'n gyfrifol am dderbyniadau i ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol. Ceir manylion ynghylch sut mae ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol yn derbyn eu disgyblion yn tudalennau 81 – 105.

Tudalennau 37 - 40 yn dangos yr ysgolion cynradd partner sy'n gysylltiedig â phob ysgol uwchradd , er nad ydynt yn mynychu ysgol gynradd bartner yn sicrhau lle yn yr ysgol uwchradd cysylltiedig.  Mae gwybodaeth fanwl am bob ysgol ar gael gan yr ysgol unigol. Mae'n bosib yr hoffech ymweld ag ysgolion gwahanol cyn penderfynu ar ba ysgol i anfon eich plentyn iddi. I wneud hyn, gwnewch apwyntiad gyda'r pennaeth yn gyntaf. Gallwch hefyd gael copi o brosbectws yr ysgol am ddim gan yr ysgol a bydd hwn yn rhoi amrywiaeth o wybodaeth i chi ynghylch yr ysgol, er enghraifft lles disgyblion, gwisg ysgol a chlybiau ar ôl ysgol. Mae gwefannau ysgolion hefyd yn ffynonellau gwybodaeth defnyddiol ac mae gwefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol www.fyysgolleol.cymru.gov.uk  yn cyhoeddi data ac adroddiadau am yr holl ysgolion yng Nghymru.

Mae enwau, cyfeiriadau a rhifau ffôn yr holl ysgolion yn tudalennau 45 – 62.

Byddwn yn ceisio bodloni dymuniad rhieni, fodd bynnag, byddwch yn ymwybodol:-

- Nad yw byw yn y dalgylch yn gwarantu lle i'ch plentyn yn yr ysgol.
- Nid yw cael brawd neu chwaer o oedran ysgol statudol sydd eisoes yn mynychu'r ysgol yn gwarantu lle i'ch plentyn yn yr ysgol.
- Nid yw mynychu'r dosbarth meithrin mewn ysgol gynradd yn rhoi hawl mynediad awtomatig i'ch plentyn i'r dosbarth derbyn ac nid yw'n gwarantu lle i'ch plentyn yn yr ysgol.
- Nid yw mynychu ysgol gynradd bartner yn gwarantu lle i'ch plentyn yn yr ysgol uwchradd gysylltiedig.

## Beth dylwn ei wneud os wyf am i'm plentyn gael ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg?

Mae deng ysgol gynradd Gymraeg a dwy ysgol Gymraeg uwchradd yn Abertawe. Mae gan bob un o'r ysgolion cynradd Cymraeg ddarpariaeth feithrin. Dylech wneud cais am le yn yr ysgol gynradd neu uwchradd Gymraeg drwy ddefnyddio'r prosesau a nodir yn y llyfryn hwn. Addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgolion hyn. Cyflwynir Saesneg ym Mlwyddyn 3. Addysgir y Gymraeg fel rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol i bob disgybl yn yr ysgolion cynradd Saesneg yn Abertawe. Mae'r Gyfarwyddiaeth Addysg yn darparu canolfan iaith ddwys i blant oedran cynradd y mae eu rhieni wedi symud i Abertawe ac y maent am iddynt gael addysg Gymraeg. Am ragor o wybodaeth, e-bostiwch addysg@abertawe.gov.uk neu ewch i'n gwefan yn www.abertawe.gov.uk/addysgGymraegynAbertawe

**Rhoddwyd newidiadau i ddalgylchoedd ysgolion cyfrwng Cymraeg ar waith ym mis Medi 2021 ac mae'n bosib bod yr ysgol ddalgylch ar gyfer eich cyfeiriad cartref wedi newid. I wirio'r ysgol ddalgylch cyfrwng Cymraeg ddynodedig ar gyfer eich cyfeiriad cartref, e-bostiwch** derbyniadau@abertawe.gov.uk

Os ydych yn gwneud cais am le mewn ysgol nad yw'r ysgol ddynodedig ar gyfer eich cyfeiriad cartref, chi fel rhiant/gofalwr sy'n gyfrifol am gost cludo'ch plentyn i'r ysgol ac oddi yno. Ni fydd yr awdurdod lleol yn darparu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol pan nad yw disgybl yn mynd i'w ysgol ddynodedig. Mae hyn hefyd yn berthnasol os caiff plentyn le mewn ysgol nad yw'n ysgol y dalgylch o ganlyniad i apêl lwyddiannus.

## Pa gyfeiriad y dylwn ei ddefnyddio?

Rhaid mai cyfeiriad parhaol y plentyn yw'r cyfeiriad ar y ffurflen gais. Ym mhob achos, bydd rhaid darparu tystiolaeth o gyfeiriad preswyl parhaol y plentyn ar adeg gwneud y cais os gofynnir amdani. Efallai bydd yr awdurdod lleol yn gofyn am gadarnhad o gyfeiriad eich cartref, yn enwedig yn achos ysgol lle mae gormod o bobl wedi gwneud cais am le yn y grŵp blwyddyn. Mae cyfeiriad y cartref yn bwysig iawn gan fod lleoedd ysgol yn cael eu dyrannu ar sail cyfeiriad cartref pob plentyn. Ystyrir mai cyfeiriad y plentyn yw'r cyfeiriad lle mae'r plentyn yn treulio'r rhan fwyaf o'i amser gyda'i rieni neu ei ofalwyr.

Caiff unrhyw le a gymeradwywyd ar sail preswylfa **ei ddiddymu** os nad yw'r disgybl bellach yn byw'n barhaol yn y cyfeiriad ar ddechrau'r tymor ysgol y mae'r cais yn cyfeirio ato. Ystyrir mai cyfeiriad y cartref yw prif breswylfa'r plentyn a'r rhiant, a'u cartref gwirioneddol h.y. lle maent yn byw fel arfer ac yn rheolaidd. Os yw plentyn yn byw gyda ffrindiau neu berthnasau (am resymau eraill ar wahân i warcheidwadaeth), ni chaiff cyfeiriad y ffrindiau na'r perthnasau ei ystyried at ddibenion dyrannu lle. I blant teuluoedd sy'n byw mewn dau gyfeiriad am fod y rhieni'n byw ar wahân yn barhaol, ystyrir mai'r cyfeiriad lle mae'r plentyn yn treulio'r rhan fwyaf o'r wythnos ysgol yw prif gyfeiriad y plentyn wrth ystyried cais am le mewn ysgol. Efallai gofynnir am dystiolaeth o drefniadau. Y prif gyfeiriad preswylio'n unig a ddefnyddir i ddyrannu lleoedd. Ni ellir defnyddio cyfeiriadau sy'n cyfyngu ar deiliadaeth, megis cabanau gwyliau a charafannau mewn parciau gwyliau â chyfyngiadau tymhorol, fel cyfeiriad parhaol. Mae'r ffurflen ar-lein yn gofyn i chi gynnwys eich cyfeirnod Treth y Cyngor. Os methir gwneud hyn, bydd angen i'r awdurdod lleol wirio'r wybodaeth hon. Bydd cyflenwi rhifau cyfeirnod y dreth gyngor neu ddefnyddio cyfeiriadau teidiau a neiniau, perthnasau eraill, ffrindiau teuluol neu fusnesau yn cael ei weld fel gwybodaeth dwyllodrus, gamarweiniol neu anghywir a gallai arwain at y lle yn eich dewis ysgol yn cael ei dynnu yn ôl. Os na allwch ddarparu gwybodaeth Treth y Cyngor, gallai fod angen prawf arall o breswyliaeth.

Ni chaiff cyfeiriad dros dro ei ddefnyddio at ddibenion dyrannu lle ond nid yw'n eich atal rhag cyflwyno cais i ysgol. Os nad oes gennych gyfeiriad parhaol, dylech gysylltu â'r Tîm Ysgolion a Llywodraethwyr am gyngor ychwanegol ar gwblhau'r ffurflen.
Ceir manylion dogfennau derbyniol isod.

**Prawf Preswylio - Dogfennau Derbyniol *(rhaid i ddogfennau fod yn ddiweddar – o fewn y 3 mis diwethaf)*:**

- Trwydded Gyrru / Polisi Yswiriant Car
- Dogfen talu morgais / cytundeb tenantiaeth
- Bil nwy / trydan neu gyfleustod arall a dalwyd yn ddiweddar
- Bil cerdyn credyd / cerdyn siop a dalwyd yn ddiweddar

**Yr Awdurdod Lleol yw'r awdurdod derbyn, ac mae'n rhaid ei hysbysu ynghylch unrhyw newid cyfeiriad yn ystod y weithdrefn dderbyn.**

Ni ellir dyrannu lleoedd ar sail cyfeiriad a fwriedir yn y dyfodol, oni ellir cadarnhau symud tŷ trwy brawf ffurfiol bod contractau wedi cael eu cyfnewid neu fod cytundeb tenantiaeth chwe mis ar y lleiaf wedi cael ei lofnodi. Ni chaiff newid cyfeiriad oherwydd symud i fyw gydag aelodau'r teulu neu ffrindiau ei ystyried nes bod y symud wedi digwydd a bod prawf preswylio priodol wedi cael ei dderbyn. Hefyd efallai bydd prawf i ddangos eich bod wedi symud o'r cyfeiriad blaenorol yn ofynnol e.e. prawf bod contractau wedi cael eu cyfnewid, cytundeb tenantiaeth sy'n dangos y dyddiad pan ddaw'r denantiaeth i ben, rhybudd o fwriad i adael gan y landlord neu hysbysiad adfeddiannu. Derbynnir cyfeiriad personél lluoedd arfog y DU os caiff llythyr swyddogol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn sy'n cadarnhau dyddiad dychwelyd pendant ac sy'n rhoi cyfeiriad newydd, ei anfon gyda'r ffurflen gais. Mae'r Awdurdod Lleol yn cadw'r hawl i geisio tystiolaeth ddogfennol ychwanegol i gefnogi hawl preswylio a allai gynnwys cysylltu â'r gwerthwr tai, y cyfreithiwr, y landlord neu'r gweithiwr proffesiynol perthnasol.

**Mae'r Awdurdod Lleol yn cadw'r hawl i gysylltu ag adrannau Awdurdodau Lleol eraill neu sefydliadau neu unigolion eraill i ddilysu'r manylion a gyflwynwyd ar ffurflenni cais derbyniadau.**

## Os wyf yn byw yn Ninas a Sir Abertawe, a all fy mhlentyn fynd i ysgol y tu allan i Abertawe?

Os ydych yn dymuno anfon eich plentyn i ysgol y tu allan i Ddinas a Sir Abertawe, dylech gysylltu ag adran addysg yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am dderbyniadau i'r ysgol. Ni fydd Cyngor Abertawe fel arfer yn darparu cludiant nac yn gwneud unrhyw gyfraniad tuag at gostau cludiant disgyblion sy’n mynd i ysgol y tu allan i Ddinas a Sir Abertawe. Ni fydd yr Adran Addysg yn cyfrannu tuag at gostau cludiant i ddisgyblion fynychu ysgolion arbenigol e.e. Ysgolion Drama a Dawns.

## Os wyf yn byw y tu allan i Ddinas a Sir Abertawe a all fy mhlentyn fynd i ysgol yn Abertawe?

Gall plant sy'n byw y tu allan i ddinas a Sir Abertawe wneud cais am le mewn ysgol yn Abertawe. Os ydych yn gwneud cais am le yn y Derbyn neu Blwyddyn 7 ar gyfer Medi 2023, cyfeiriwch at y meini prawf derbyn a nodir ar dudalennau 11 a 16.

Rydym yn eich cynghori'n gryf i wneud cais hefyd gyda'ch awdurdod lleol eich hun (yr awdurdod lleol yr ydych yn talu eich Treth Cyngor) gan os nad ydym yn gallu cynnig lle i'ch plentyn mewn ysgol (ion) yn Abertawe yr ydych wedi gwneud cais amdanynt ni fyddwn yn gallu cynnig lle i'ch plentyn mewn ysgol arall yn Abertawe. Bydd plant rhieni sy’n byw y tu allan i Ddinas a Sir Abertawe yn gallu cael addysg amser llawn yn ysgolion Dinas a Sir Abertawe os oes lleoedd ar gael. Os nad oes lleoedd ar gael, mae gan rieni'r hawl i apelio yn yr un modd â phlant rhieni sy'n byw yn Abertawe. Dylech ddilyn y prosesau cais perthnasol a nodir yn y ddogfen hon.

**Plant Personél Gwasanaeth y DU a Gweision y Goron**
Gellir gwneud ceisiadau ysgol heb gyfeiriad wedi'i gadarnhau yn Abertawe. Os gwneir cais cyn y flwyddyn ysgol sy'n agosáu, dylai gael llythyr swyddogol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn neu'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn datgan dyddiad dychwelyd. Bydd ceisiadau yn cael eu hystyried yn unol â threfniadau derbyn yr ALl.

**Ceisiadau gan blant o dramor**
Yn y rhan fwyaf o achosion, mae gan blant sy'n cyrraedd o dramor yr hawl i fynychu ysgolion yng Nghymru a ariennir gan y wladwriaeth. Fodd bynnag, nid oes gan y plant canlynol hawl i gael addysg wladol:

- plant o wledydd nad ydynt yn Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) sydd yma fel ymwelwyr tymor byr - y rhain yw plant sy'n byw dramor ond sydd wedi cael eu derbyn i'r DU am ymweliad byr (er enghraifft fel twristiaid neu i ymweld â pherthnasau), ac i beidio ag astudio
- plant o wledydd nad ydynt yn yr AEE sydd â chaniatâd i astudio yn y DU - caniateir i'r plant hyn astudio yn Lloegr ar y sail eu bod yn mynychu ysgol annibynnol, sy'n talu ffioedd

Ni wrthodir ceisiadau dim ond oherwydd amheuon am statws mewnfudo plentyn. Fodd bynnag, gellir gofyn am gyngor gan y Swyddfa Gartref i wirio hawl plentyn i addysg a ariennir gan y wladwriaeth.

# A gaiff fy nghais ei dderbyn?

**Lleoedd Derbyn a Blwyddyn 7 ym mis Medi 2023**

Caiff ceisiadau am le mewn grwpiau trosglwyddo i ddosbarth Derbyn a Blwyddyn 7 a dderbynnir erbyn y dyddiadau cau cyhoeddedig ei ystyried ar yr un pryd ag y bodlonir yr holl geisiadau eraill am y grŵp blwyddyn perthnasol, a bodlonir dewisiadau rhieni (eich dewis ysgol ar gyfer eich plentyn) ar yr amod bod digon o leoedd ar gael.

Un cynnig am le yn unig y dylid ei gwblhau, gall y cynnig gynnwys hyd at dri dewis. Os gwneir mwy nag un cynnig yr un mwyaf diweddar fydd yn cael ei ddefnyddio a bydd y rhai eraill yn cael eu hanwybyddu. Lle rennir cyfrifoldeb rhiant, dylai'r holl rieni fod yn gytûn ynghylch y dewisiadau a restrwyd yn y cais. Y rhieni sy'n gyfrifol am ddod i'r cytundeb hwn.  Os byddwn yn derbyn mwy nag un cais ar gyfer yr un disgybl lle nodir dewis gwahanol ym mhob cais, bydd y ffurflenni'n cael eu dychwelyd heb eu prosesu er mwyn i'r rhai hynny sydd a chyfrifoldeb fel rhieni i ddod i gytundeb.

Mae gan bob ysgol Nifer Derbyn sy'n nodi sawl disgybl y gall eu derbyn ym mhob grŵp blwyddyn. Fel arfer, ni all yr Awdurdod Lleol (ALI) dderbyn mwy na nifer derbyn yr ysgol. Yn ogystal, mewn dosbarthiadau Derbyn, mae uchafswm cyfreithiol o 30 disgybl.

Os yw nifer y ceisiadau am ysgol yn gyfartal â neu'n llai na nifer y lleoedd sydd ar gael, (y nifer derbyn), caiff yr holl ddisgyblion sy'n gwneud cais eu derbyn i'r ysgol. Lle bydd mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael mewn ysgol, yna caiff y lleoedd eu dyrannu yn unol â'r meini prawf gorymgeisio a fanylir.  Mae'n bwysig cofio nad yw mynychu dosbarth meithrin mewn ysgol yn golygu y gwarentir lle i'ch plentyn yn y dosbarth derbyn nac ychwaith fynychu ysgol gynradd bartner ysgol uwchradd. Ni ellir gwarantu lle dalgylch i ddisgyblion sy'n dechrau mewn dosbarth Derbyn neu'n dechrau mewn ysgol uwchradd.  Gallwch wneud ail a thrydydd dewis (ystyriwch gynnwys eich ysgol dalgylch) rhag ofn y bydd eich dewis cyntaf yn orlawn. Nid yw gwneud mwy nag un dewis yn effeithio ar eich cyfle i sicrhau eich dewis cyntaf gan fod yr holl leoedd yn cael eu dyrannu gan ddilyn y meini prawf derbyn. Fodd bynnag, os yw eich dewis cyntaf yn orlawn ac nid oes modd dyrannu lle i'ch plentyn, byddwn yn ystyried eich ail ddewis ac yna eich trydydd dewis. Os nad ydych wedi gwneud mwy nag un dewis ac ni allwn gynnig lle i chi yn yr ysgol o'ch dewis, byddwn yn cynnig lle amgen i chi

**Ble gellir cynnig mwy nag un ysgol, byddwn yn cynnig yr ysgol sydd uchaf ar eich dewis ac yn tynnu y cynigion eraill yn eu hol.**

Caiff yr holl geisiadau a gwblheir eu hystyried ar yr un pryd, felly nid oes mantais i rieni sy'n cyflwyno cais yn gynnar. Os caiff eich cais ei dderbyn ar ôl y dyddiad cau yn yr amserlen a gyhoeddwyd, bydd eich cais yn hwyr a chaiff ei ystyried ar ôl y ceisiadau eraill a anfonwyd mewn pryd. Erbyn i geisiadau hwyr gael eu hystyried, mae'n bosib y bydd yr holl leoedd yn eich ysgol o ddewis wedi cael eu dyrannu, ac efallai gwrthodir lle i chi os yw'r ysgol yn llawn, hyd yn oed os ydych yn byw yn nalgylch yr ysgol ac yn bodloni pob un o'r meini prawf derbyn eraill neu rai ohonynt. Ceir gwybodaeth am niferoedd derbyn ar dudalennau 45 – 62.

**Ni chynhelir profion dethol na chyfweliadau gan yr ysgolion.**

## Sut byddaf yn gwybod a fu fy nghais am le yn llwyddiannus? (Derbyn a Blwyddyn 7)

Byddwch yn derbyn llythyr i ddweud wrthych a neilltuwyd lle i'ch plentyn yn eich dewis ysgol. Gofynnir i chi hefyd dderbyn y lle gan ddefnyddio'r system ar-lein. Os gwrthodwyd eich cais oherwydd bod yr ysgol wedi dyrannu hyd at y Nifer Derbyn, mae gennych hawl i apelio. Bydd manylion am sut i wneud hyn yn cael eu hanfon gyda'r llythyr . Dylech ddefnyddio'r graddfeydd amser a nodir yn y llythyr a'r ddogfen hon. Mae'n bosib na chaiff apeliadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwnnw eu hystyried tan ar ôl ymdrin â'r apeliadau a dderbyniwyd erbyn y dyddiad cau.

### Tynnu lle yn ôl

Gellir tynnu lle yn ôl gan yr Awdurdod Lleol os derbynnir gwybodaeth sy'n awgrymu nad yw'r cais bellach yn bodloni'r meini prawf gorymgeisio yr aseswyd ef yn wreiddiol yn eu herbyn. Caiff unrhyw le a gymeradwywyd ar sail preswylfa ei dynnu'n ôl os nad yw'r disgybl bellach yn byw'n barhaol yn y cyfeiriad ar ddechrau'r tymor ysgol y mae'r cais yn ymwneud ag ef.

## Y broses apêl

Gwrandewir ar yr apêl gan banel apelio annibynnol sydd fel arfer yn cynnwys 5 aelod. Mae'r aelodau'n wirfoddolwyr sydd wedi'u hyfforddi i gyflawni'r rôl ac fel arfer maent yn llywodraethwyr ysgol, penaethiaid a lleygwyr. Ni fyddant yn gysylltiedig â'r ysgol lle rydych yn apelio am le neu'r ysgol lle rydych wedi cael cynnig lle. Mae'r clerc i'r panel yn gynrychiolydd o Adran Gyfreithiol yr awdurdod lleol ond nid yw'n cymryd unrhyw ran yn y broses o wneud penderfyniadau. Rhoddir cyfle i chi gyflwyno'ch achos a bydd cynrychiolydd o'r Adran Addysg yn nodi'r rhesymau pam y gwrthodwyd y lle i chi. Ar ôl gwrando ar yr apêl, bydd y panel yn gwneud ei benderfyniad a bydd y penderfyniad hwn yn derfynol. Nid oes hawl ychwanegol i apelio yn erbyn y penderfyniad hwn.

Ar gyfer y Derbyn a Blwyddyn 7, gellir gwrando ar apeliadau lluosog ar gyfer yr un ysgol fel apeliadau wedi'u grwpio. Gellir cynnal apeliadau yn erbyn ceisiadau hwyr ar ôl cynnal yr apeliadau ar gyfer ceisiadau a dderbyniwyd yn brydlon.

Os bydd eich apêl yn aflwyddiannus, ni fyddwch yn gallu apelio am le yn yr un ysgol yn ystod yr un flwyddyn academaidd oni bai bod newid sylweddol yn yr amgylchiadau. Byddai angen trafod yr amgylchiadau hyn gyda'r Tim Ysgolion a LLywodraethwyr. Fodd bynnag, mae hawl i rieni apelio o'r newydd ynglŷn â blwyddyn ysgol wahanol e.e. os yw apêl am le yn y dosbarth Derbyn yn aflwyddiannus, gall rhieni apelio'r flwyddyn nesaf os gwrthodir lle i'w plentyn ym Mlwyddyn 1. Yn yr un modd, os collir apêl am le ym Mlwyddyn 7, gall rhieni apelio yn y flwyddyn ganlynol os gwrthodir lle i’w plentyn ym Mlwyddyn 8. Prin iawn yw'r amgylchiadau lle gall panel annibynnol dderbyn disgybl i ddosbarth babanod os oes 30 ynddo eisoes. Ni ellir cefnogi'r apêl oni bai bod y panel apeliadau'n fodlon nad oedd y penderfyniad yn un y byddai awdurdod derbyn rhesymol yn ei wneud o dan amgylchiadau’r achos neu y byddai’r plentyn wedi cael cynnig lle petai’r trefniadau derbyn wedi cael eu dilyn yn gywir. Mae hyn oherwydd y cyfyngiad maint dosbarth statudol o 30 mewn dosbarthiadau babanod.

Gall rhieni sy'n dymuno apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod lle dderbyn lle o hyd yn yr ysgol arall a gynigir. Ni fydd hyn yn effeithio ar yr apêl mewn unrhyw ffordd a bydd yn sicrhau bod lle wedi'i gadarnhau i'w plentyn rhag ofn bydd yr apêl yn aflwyddiannus. Os gwrthodir y lle a gynigiwyd, gellir ei gynnig i ddisgybl arall ar restr aros yr ysgol honno.

Mae gwybodaeth sy'n darparu nifer yr apeliadau a gynhaliwyd a nifer yr apeliadau a lwyddodd ar gyfer y Derbyn a Blwyddyn 7 Medi 2022 i'w gweld isod:

**Dosbarth derbyn a blwyddyn 7 (cylchoedd derbyn Medi 2022)**

| Ysgol o Ddewis | Nifer yr Apeliadau | Nifer yr Apeliadau Llwyddiannus |
|---|---|---|
| Ysgol Gyfun Cefn Hengoed | 1 | 1 |
| Ysgol Gyfun Dylan Thomas | 5 | 5 |
| Ysgol Gyfun Tregwyr | 9 | 8 |
| Ysgol Gyfun Pentrehafod | 21 | 4 |
| Ysgol Gyfun Pontarddulais | 7 | 4 |
| Ysgol Gynradd Llangyfelach | 1 | 0 |
| Ysgol Gynradd Penllergaer | 7 | 7 |
| Ysgol Gynradd Pontlliw | 5 | 2 |
| Ysgol Gynradd Sea View | 1 | 0 |
| **Totals** | **57** | **31** |

Mae gwybodaeth sy'n darparu nifer yr apeliadau a gynhaliwyd a nifer yr apeliadau a oedd yn llwyddiannus ar gyfer y flwyddyn academaidd 2021/2022 i'w gweld isod:

**Apelau ar gyfer lleoedd canol blwyddyn**

| Ysgol o Ddewis | Nifer yr Apeliadau | Nifer yr Apeliadau Llwyddiannus |
|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Birchgrove | 1 | 1 |
| Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt | 3 | 3 |
| Ysgol Gynradd Llandeilo Ferwallt | 1 | 0 |
| Ysgol Gyfun Cefn Hengoed | 4 | 1 |
| Ysgol Gynradd Cwmrhydyceirw | 4 | 2 |
| Ysgol Gynradd Glais | 2 | 2 |
| Ysgol Gyfun Tregwyr | 1 | 1 |
| Ysgol Gynradd Tregwyr | 1 | 0 |
| Ysgol Gynradd Hafod | 1 | 1 |
| Ysgol Gynradd Llangyfelach | 2 | 0 |
| Ysgol Gynradd Mayals | 1 | 0 |
| Ysgol Gynradd Newton | 1 | 0 |
| Ysgol Gynradd Oystermouth | 2 | 1 |
| Ysgol Gynradd Parkland | 15 | 9 |

| | | |
|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Pen y Fro | 1 | 0 |
| Ysgol Gynradd Pengelli | 1 | 0 |
| Ysgol Gynradd Penllergaer | 1 | 1 |
| Ysgol Gyfun Pentrehafod | 2 | 2 |
| Ysgol Gyfun Pontarddulais | 5 | 4 |
| Ysgol Gynradd Pontarddulais | 1 | 0 |
| Ysgol Gynradd Pontlliw | 2 | 1 |
| Ysgol Gynradd Sgeti | 3 | 0 |
| Ysgol Gynradd St Helen’s | 6 | 1 |
| Ysgol Gynradd Townhill | 3 | 3 |
| Ysgol Gynradd Tre Uchaf | 1 | 1 |
| YGG Llwynderw | 1 | 0 |
| YGG Pontybrenin | 1 | 0 |
| **Totals** | **67** | **34** |

## Rhestrau aros ar gyfer disgyblion sy'n gwneud cais am le yn y dosbarth Derbyn neu Flwyddyn 7.

Caiff rhestri aros ar gyfer pob ysgol (ac eithrio Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir) eu gweinyddu gan yr awdurdod lleol. Os nad ydych yn llwyddo i gael lle yn y dosbarth Derbyn ar gyfer mis Medi 2023 neu Flwyddyn 7 ym mis Medi 2023 yn yr ysgol(ion) o'ch dewis fel a nodir ar y ffurflenni cais yn y rownd dderbyn arferol, caiff enw'ch plentyn ei roi'n awtomatig ar y rhestr aros ar gyfer yr ysgol honno (ysgolion hynny). Ni fydd derbyn lle mewn ysgol arall yn effeithio ar eich safle ar y rhestr aros. Os daw lle ar gael yn yr ysgol(ion) o'ch dewis, caiff ei ddyrannu gan yr awdurdod lleol yn unol â'r meini prawf derbyn, ac nid yn nhrefn y dyddiad y rhoddwyd enwau'r disgyblion ar y rhestr. Nid oes gan ddisgyblion y mae eu rhieni'n cyflwyno apêl flaenoriaeth dros ddisgyblion eraill ar y rhestr aros. Cedwir enwau'r plant ar y rhestr aros am y flwyddyn academaidd gyfan a chânt eu dileu dim ond os ceir apêl lwyddiannus neu os yw rhiant yn cadarnhau'n ysgrifenedig nad yw'n dymuno i enw ei blentyn fod ar y rhestr aros bellach. Bydd angen i rieni sydd am i'w ceisiadau gael eu hystyried ar ôl y dyddiad hwn gyflwyno cais newydd.

Os yw eich plentyn ar y rhestr aros, cofiwch y gall ei sefyllfa newid oherwydd gall ceisiadau sydd â mwy o flaenoriaeth dan y meini prawf gorymgeisio gael eu cyflwyno ar unrhyw adeg.

# Gwneud cais am le ysgol yng nghanol y flwyddyn (ysgolion cynradd ac uwchradd)

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y gall symud o un ysgol i ysgol arall yn nghanol tymor neu yn ystod blwyddyn ysgol fod yn arbennig o anodd i rai disgyblion a'u teuluoedd. Efallai bydd amrywiaeth o resymau gennych dros deimlo mai symud yng nghanol y flwyddyn i ysgol newydd fyddai'r opsiwn gorau i'ch plentyn.

Cyn i chi benderfynu gwneud cais am drosglwyddo'ch plentyn i ysgol arall, am resymau ac eithrio symud tŷ, dylech ystyried eich opsiynau'n ofalus iawn a thrafod ein rhesymau ac unrhyw faterion gyda phennaeth ysgol bresennol eich plentyn. Nid yw newid ysgol bob amser yn datrys problem, ac mewn rhai amgylchiadau, gall symud beri anawsterau, yn enwedig lle bydd disgybl hanner ffordd drwy astudiaethau arholiadau h.y. yn ystod Blwyddyn 10 ac 11.

Gellir datrys llawer o faterion yn llwyddiannus heb orfod newid ysgol. Rydym yn argymell eich bod yn ystyried y canlynol cyn i chi benderfynu a'i symud ysgol yw'r opsiwn gorau i'ch plentyn:-

- Ydych chi dweud wrth yr ysgol am unrhyw broblem arwyddocaol sydd gan eich plentyn? Bydd hyn yn caniatáu iddi archwilio'r mater a cheisio datrys yr anawsterau.
- Ydych chi wedi gwneud digon o ymchwil eich hun ac a ydych yn hyderus y gall yr ysgol newydd ddiwallu anghenion penodol eich plentyn?
- A yw'r ysgol newydd yn gallu cynnig y dewis o bynciau a chyrsiau y mae eich plentyn wedi bod yn eu hastudio? Mae hyn yn arbennig o berthnasol i ddisgyblion ym mlwyddyn 9 sy'n dewis eu hopsiynau o ran pynciau TGAU ac yn fwy felly i'r rheini sydd am symud ym mlynyddoedd 10 ac 11. Wedi i'r cyrsiau TGAU ddechrau nid yw bob amser yn bosib parhau i astudio'r un ystod o bynciau mewn ysgol arall. Gallai hyn effeithio ar nifer yr arholiadau TGAU y llwyddir ynddynt y bydd modd eu cyflawni ar ôl symud ysgol. Mae posibilrwydd hefyd, hyd yn oed os yw’r ysgol newydd yn cynnig y cyrsiau gofynnol, efallai na fydd mewn sefyllfa i gynnig lle i'ch plentyn os yw'r cyrsiau'n llawn. Gallai hyn fod yn arbennig o broblemus mewn pynciau ymarferol megis arlwyo, adeiladu neu gyfrifiadura sy'n dibynnu ar nifer arbennig o orsafoedd gwaith fesul disgybl.
- Ydych chi wedi ystyried sut bydd eich plentyn yn teithio yn ôl ac ymlaen i'r ysgol newydd bob dydd?
- A yw'r amser y mae ei angen ar eich plentyn i addasu i amgylchedd newydd, gwneud ffrindiau newydd a chyfarwyddo ag arferion newydd at ei gilydd yn werth yr holl dryblith sy'n gysylltiedig â symud ysgol?

Os, ar ôl ystyried y pwyntiau uchod, ydych chi'n dymuno bwrw ymlaen i symud eich plentyn i ysgol arall, bydd angen i chi lenwi ffurflen gais. Fe'ch gwahoddir i restru hyd at 3 ysgol mewn trefn blaenoriaeth, a chwblhau pob rhan yn llawn gyda manylion perthnasol. Os yw eich dewis cyntaf wedi'i ordanysgrifio ac nad ydym yn gallu neilltuo lle i'ch plentyn byddwn yn ystyried eich ail ac yna eich trydydd dewis.

Bydd meini prawf derbyn arferol yn berthnasol gyda phol cais.

Os ydych yn symud i ardal yn ystod y flwyddyn ysgol neu am drosglwyddo'ch plentyn i ysgol arall, efallai y byddwch am drefnu ymweld â'r ysgol arfaethedig i drafod y symud a'r opsiynau sydd ar gael. Os ydych yn penderfynu bwrw ymlaen â'r trosglwyddo, bydd angen i chi gwblhau ffurflen gais a'i dychwelyd i'r Tîm Derbyniadau yn y Ganolfan Ddinesig.

**Rydym yn eich cynghori'n gryf i wneud cais hefyd gyda'ch awdurdod lleol eich hun (yr awdurdod lleol yr ydych yn talu eich Treth Cyngor) gan os nad ydym yn gallu cynnig lle i'ch plentyn mewn ysgol (ion) yn Abertawe yr ydych wedi gwneud cais amdanynt ni fyddwn yn gallu cynnig lle i'ch plentyn mewn ysgol arall yn Abertawe.**

Gellir cael gafael ar ffurflen gais yn y ffyrdd canlynol:

- Lawrlwytho ffurflen o'n gwefan - dyma'r opsiwn cyflymaf.
- Gofyn i'r ysgol yr hoffech i'ch plentyn ei mynychu am ffurflen
- Ymweld â'r Ganolfan Gyswllt yn y Ganolfan Ddinesig, Abertawe
- E-bostio derbyniadau@abertawe.gov.uk i ofyn am ffurflen
- Ffonio'r Tîm Derbyniadau yn y Ganolfan Ddinesig. i ofyn am ffurflen drwy'r post

**Os oes gennych fwy nag un plentyn sydd angen lle mewn ysgol, llenwch gais ar wahân ar gyfer pob plentyn**

Mae ffurflenni cais yn cael eu prosesu yn nhrefn dyddiad cyn pen 15 diwrnod ysgol neu 28 diwrnod calendr (pa un bynnag sydd gyntaf) ar ôl i'r Awdurdod Lleol dderbyn y cais. Os oes lle yn y grŵp blwyddyn priodol, rhoddir lle i'ch plentyn. Os yw'r grŵp blwyddyn yn llawn, h.y. maent wedi derbyn hyd at eu rhif derbyn (AN) yna cysylltir â chi yn ysgrifenedig a dywedir wrthych nad yw'r Awdurdod Lleol yn gallu rhoi lle i'ch plentyn. Byddwch yn cael yr opsiwn i apelio yn erbyn y penderfyniad i beidio â dyfarnu lle yn yr ysgol a ddewiswyd. Anfonir manylion ar sut i apelio gyda'r llythyr. Os na chynigir lle i chi oherwydd bod yr ysgol rydych chi'n gwneud cais amdani yn llawn yna bydd enw'ch plentyn yn cael ei roi ar y rhestr aros a'i gadw ar y rhestr am weddill y flwyddyn academaidd. Os daw unrhyw leoedd ar gael tra bydd enw eich plentyn ar y rhestr aros yna cynigir y lle i blant gan ddefnyddio'r meini prawf gordanysgrifio. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r broses dderbyn, cysylltwch â'r Tîm Derbyniadau yn y Ganolfan Ddinesig: derbyniadau@abertawe.gov.uk

Os yw eich plentyn ar y rhestr aros, cofiwch y gall ei sefyllfa newid oherwydd gall ceisiadau sydd â mwy o flaenoriaeth dan y meini prawf gorymgeisio gael eu cyflwyno ar unrhyw adeg.

# Gwybodaeth am y gwasanaethau addysg yn Abertawe

## Beth os oes gan fy mhlentyn Anghenion Addysgol Arbennig?

Os ydych yn meddwl bod gan eich plentyn anghenion dysgu ychwanegol (ADY), dylech siarad â phennaeth eich plentyn neu'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) yn yr ysgol. Os nad yw'ch plentyn yn yr ysgol eto, ffoniwch 01792 636162. Efallai eich bod eisoes wedi derbyn cyngor gan eich Ymwelydd Iechyd neu Baediatregydd Cymunedol. Lle bynnag y bo'n bosib, addysgir disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn eu hysgol dalgylch brif ffrwd leol. Mae arian ychwanegol yng nghyllideb pob ysgol i helpu i ddiwallu anghenion plant ag anghenion addysgol arbennig. Mae gan bob ysgol Gydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol i ddarparu cymorth a chyngor ychwanegol. Mae seicolegwyr addysg ac athrawon arbenigol (sy'n gweithio mewn sawl ysgol) hefyd ar gael i helpu'r ysgol. Os oes gan eich plentyn anghenion dysgu ychwanegol sydd y tu hwnt i'r hyn y gellir ei gefnogi drwy ddarpariaeth gynhwysol, efallai y bydd angen Cynllun Datblygu Unigol (CDU) a gynhelir gan yr ysgol arno. Ar adegau prin lle nad yw'r ysgol yn gallu penderfynu ar yr anghenion neu'r ddarpariaeth sy'n ofynnol i gefnogi eich plentyn, gall ei atgyfeirio at yr Awdurdod Lleol (ALl) i'w hystyried. Gall yr ALl atgyfeirio'n ôl at yr ysgol, lle teimlir bod digon o arbenigedd yn yr ysgol i benderfynu ar anghenion a darpariaeth. Gall hefyd gefnogi'r ysgol i bennu ADY a'r Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) angenrheidiol sydd ei hangen i gefnogi eich plentyn drwy ddatblygu CDU i'r ysgol fod yn gyfrifol amdano wedi hynny. Fel arall, os yw'r ALl yn cytuno bod anghenion eich plentyn yn fwy cymhleth efallai y bydd yn derbyn yr atgyfeiriad ac yn datblygu CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, mae hyn yn anghyffredin iawn gan y caiff anghenion y rhan fwyaf o blant ag anghenion ychwanegol cymedrol eu diwallu yn eu hysgol leol drwy adnoddau'r ysgol. Os oes datganiad o anghenion addysgol arbennig/CDU a gynhelir gan awdurdod lleol gan eich plentyn, bydd yr awdurdod lleol yn ceisio sicrhau y caiff ei anghenion eu diwallu yn ei ysgol leol. Mae ysgolion yn derbyn hyfforddiant er mwyn cefnogi dysgwyr ag anghenion ychwanegol i sicrhau eu bod yn gallu cefnogi ystod eang o anghenion. Mae gan rai plant anghenion cymhleth, hirdymor y mae'n well eu diwallu mewn ysgol arbennig lle mae addysgu, arbenigedd ac offer arbenigol ychwanegol ar gael. Mae dwy ysgol arbennig yn Abertawe, sef Ysgol Crug Glas ac Ysgol Pen-y-bryn. Dim ond os cânt eu hanfon yno gan yr awdurdod lleol y gall disgyblion fynychu'r Cyfleusterau Addysgu Arbennig (CAA) hyn ac ysgolion arbennig.

Os oes gan eich plentyn Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig, bydd ei adolygiad blynyddol ym Mlwyddyn 5 yn trafod ei leoliad uwchradd a chaiff argymhellion yr adolygiad hwn eu hystyried gan yr awdurdod lleol yn nhymor cyntaf Blwyddyn 6. Nid yw'r cynllun lleoliad o ddewis yn berthnasol i ddisgyblion y mae ganddynt Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig. Anogir rhieni i fynegi eu dewisiadau yn yr adolygiad sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a gallant geisio cefnogaeth wrth wneud hyn drwy gysylltu â'r gweithiwr achos ADY sy'n gysylltiedig â'u hysgol neu drwy e-bostio caseworker@abertawe.gov.uk Mae’r Adran Addysg yn cadw’r hawl i enwi ysgol nad yw’n ysgol y dalgylch. Os oes gan eich plentyn ddatganiad/CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol ac rydych yn dymuno newid ysgol eich plentyn am ryw reswm, rhaid i chi gyflwyno'r cais hwn yn ysgrifenedig i'r Tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad yn y Ganolfan Ddinesig, gan ofyn iddynt newid enw'r ysgol ar ddatganiad eich plentyn. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am ddarpariaeth, polisi neu weithdrefnau i blant ag Anghenion Addysgol Arbennig/Anghenion Dysgu Ychwanegol, mae rhagor o wybodaeth ar gael gan yr Uned Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y Ganolfan Ddinesig: ALNU@abertawe.gov.uk

## A oes cefnogaeth arbenigol ar gael ar gyfer anawsterau ymddygiadol?

Yn gyffredinol, cefnogir a darperir ar gyfer pobl ifanc ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yn yr ysgol gan athrawon prif ffrwd. Mewn nifer bach o achosion, mae angen mewnbwn arbenigol. Gall ysgolion wedyn alw ar gefnogaeth y Seicolegydd Addysg neu'r Athro Cefnogi Ymddygiad a fydd yn gweithio gyda staff yn yr ysgol i roi cymorth iddynt ddatrys unrhyw anawsterau. Os yw'r person ifanc yn parhau i ymddwyn mewn modd arbennig o heriol, er gwaetha'r gefnogaeth ychwanegol, gall yr ysgol wneud cais am le ym Maes Derw, yr Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD). Cyn cael eu lleoli yn yr UCD, bydd disgyblion fel arfer wedi derbyn cefnogaeth gan y Seicolegydd Addysg a/neu'r Athro Cefnogi Ymddygiad yn yr ysgol. Nid oes gan bob disgybl ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol anghenion dysgu ychwanegol. Penderfynir ar anghenion dysgu ychwanegol pan fydd gan ddysgwr anawsterau dysgu hirfaith sylweddol sy'n gofyn am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. Disgwylir i ddisgyblion yr UCD ddychwelyd i'w hysgolion prif ffrwd, a bydd hyd eu cyfnod yn yr UCD yn amrywio. Gwneir atgyfeiriadau ar gyfer yr UCD gan yr ysgol i'r Panel Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS) neu i'r Panel Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) os yw'r person ifanc dan sylw wedi derbyn datganiad Anghenion Addysgol Arbennig/Anghenion Dysgu Ychwanegol.

## A oes cymorth ychwanegol ar gael ar gyfer fy mhlentyn sy'n dod o gartref lle na siaredir Cymraeg na Saesneg?

Oes, mae gan y rhan fwyaf o ysgolion gyllid i ddatblygu eu darpariaeth eu hunain ar gyfer plant nad Cymraeg na Saesneg yw eu hiaith gartref. Os ydych chi'n meddwl y gallai fod angen help ar eich plentyn i ddysgu Cymraeg/Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY/WAL), mae angen i chi siarad ag ysgol eich plentyn. Os oes angen cyngor neu arweiniad ar yr ysgol ar sut i gefnogi eich plentyn gall yr ysgol gysylltu gyda EAL@abertawe.gov.uk.

## Sut bydd fy mhlentyn yn cyrraedd yr ysgol?

Mae'r cyngor yn darparu cludiant o'r cartref i'r ysgol ar sail ei Bolisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol cyhoeddedig. Mae hyn yn unol â gofyniadau Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 Llywodraeth Cymru.

Darperir cludiant am ddim i ddisgyblion sy'n byw dwy filltir neu fwy o ysgol gynradd eu dalgylch neu dair milltir neu fwy o ysgol uwchradd eu dalgylch. Mesurir y pellter hwn yn ôl y llwybr cerdded byrraf yn unol â Pholisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol y cyngor, Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a Ddarpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr Llywodraeth Cymru (Mehefin 2014). Darperir cludiant am ddim o ddechrau'r flwyddyn ysgol y mae'r plant yn cael eu pen-blwydd yn bump oed ynddi. Ni ddarperir cludiant am ddim i blant iau/meithrin).

Os ydych yn gwneud cais am le mewn ysgol nad yw'r ysgol ddynodedig ar gyfer eich cyfeiriad cartref, chi fel rhiant/gofalwr sy'n gyfrifol am gost cludo'ch plentyn i'r ysgol ac oddi yno. Ni fydd yr awdurdod lleol yn darparu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol pan nad yw disgybl yn mynd i'w ysgol ddynodedig. Mae hyn hefyd yn berthnasol os caiff plentyn le mewn ysgol nad yw'n ysgol y dalgylch o ganlyniad i apêl lwyddiannus. Gellir cadarnhau eich ysgol ddynodedig trwy ebostio derbyniadua@abertawe.gov.uk

Bydd disgyblion sy'n gymwys i dderbyn cludiant am ddim yn derbyn ffurflen gais yn ystod mis Mai/Mehefin ar gyfer y flwyddyn academaidd sy'n dechrau ym mis Medi.

Mae'r cyngor yn gweithredu Cynllun Gwerthu Seddi Sbâr dewisol ar gyfer disgyblion nad ydynt yn gymwys ar gyfer Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol am ddim.  Gallwch gael rhagor o wybodaeth drwy ffonio Uned Cludiant Integredig y cyngor ar 01792 636347 neu ar-lein o wedudalennau Cludiant Ysgol y cyngor. www.abertawe.gov.uk/seddwag

I blant â datganiad o anghenion ychwanegol, mae'r polisi cludiant cyffredinol a ddisgrifir uchod yn berthnasol. Bydd y cyngor yn darparu cludiant am ddim i blant ag anghenion ychwanegol, pan gânt eu lleoli gan yr Adran Addysg mewn ysgol brif ffrwd yn hytrach nag yn ysgol eu dalgylch lleol, mewn Cyfleuster Addysgu Arbenigol yn hytrach na'u hysgol leol, neu mewn ysgol arbennig, ar yr amod eu bod yn byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol yn achos disgyblion cynradd a 3 milltir neu fwy yn achos disgyblion uwchradd. Gall y cyngor ddarparu cludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim yn ôl ei ddisgresiwn gan ddibynnu ar natur anghenion ychwanegol y plentyn. Os yw'r Adran Addysg yn credu y gellir diwallu anghenion plentyn yn ei ysgol brif ffrwd leol ond bod ei rieni'n dewis ysgol brif ffrwd wahanol, y rhiant fydd yn gyfrifol am unrhyw drefniadau a chostau cludiant.

Gallwch gael mwy o wybodaeth am gludiant ysgol trwy ffonio Uned Cludiant Integredig y Cyngor ar 01792 636347 neu ar-lein ar we-dudalennau Cludiant i'r Ysgol y Cyngor www.abertawe.gov.uk/cludiantirysgol

Mae'r awdurdod lleol yn adolygu ei drefniadau cludiant i'r ysgol ar hyn o bryd. Pe byddai unrhyw newidiadau yn cael eu cynnig, cynhelir ymgynghoriad priodol a chaiff y llyfryn hwn ei ddiweddaru yn unol â hynny.

## Beth yw'r Gwasanaeth Lles Addysg?

Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg (GLIA) yn cefnogi'r Awdurdod Addysg Lleol (AALI) gyda dyletswyddau statudol i sicrhau bod gan bob plentyn a pherson ifanc yn Abertawe fynediad at ddarpariaeth addysg addas a pherthnasol sy'n eu galluogi i ddysgu. Mae presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol yn bwysig iawn i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn derbyn yr addysg orau bosib. Mae gan bob ysgol Swyddog Lles Addysg a enwir (SLIA). Mae hefyd SLIA a enwir sy'n cydweithio gyda'r Unedau Cyfeirio Disgyblion. Mae'r GLIA yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc y mae prydlondeb, presenoldeb afreolaidd, absenoldeb o'r ysgol a materion lles yn effeithio ar eu haddysg. Asesu problemau ac edrych ar atebion trwy weithio'n agos gydag ysgolion, disgyblion, eu rhieni a gofalwyr. Mae SLIA yn gefnogol iawn ac yn gweithio o safbwynt ataliol fel y gellir gwneud pob ymdrech i osgoi cosbau cyfreithiol. Mae SLIA yn gweithio'n galed i gynnwys plant, pobl ifanc a'u teuluoedd er mwyn adeiladu perthnasoedd gwaith cadarnhaol i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon a gweithio gyda nhw i ddatrys problemau yn hytrach na chymryd camau gweithredu cyfreithiol. Fodd bynnag, mae gan SLIA gyfrifoldeb i sicrhau presenoldeb ysgol rheolaidd a gallant ddefnyddio Hysbysiad o Gosb Benodol a/neu brosesau erlyn yn y llys i gefnogi hyn. Mae'r gwasanaeth wedi dynodi swyddogion er mwyn mynd i'r afael â dyletswyddau penodol ar gyfer Cyflogaeth Plant (CP), addysg ddewisol yn y cartref a Phlant sy'n Colli Addysg.

## Pobl ifanc oedran ysgol sy'n gweithio

Os yw eich plentyn am gael unrhyw waith rhan-amser pan fydd yn dal i fod yn yr ysgol, mae nifer o reolau sy'n berthnasol. Mae’r gofynion cyfreithiol hyn yn sicrhau bod y bobl ifanc yn cael eu cofrestru a’u trwyddedu gan Swyddog Cyflogaeth Plant yr awdurdod lleol, ac nad ydynt yn ymgymryd â gwaith a allai niweidio eu hiechyd, eu rhoi mewn perygl corfforol neu gael effaith andwyol ar eu haddysg. Y dyddiad swyddogol ar gyfer gadael yr ysgol yw dydd Gwener olaf mis Mehefin yn y flwyddyn ysgol mae'r disgybl yn 16 oed.

Cyn y dyddiad hwn, gall pobl ifanc dros 13 oed wneud cais am drwydded waith ar gyfer gwaith rhan-amser. Rhaid cwblhau ffurflen gais wedi'i llofnodi gan y rhieni a'r cyflogwr. Os yw'r math o waith yn addas a'r oriau gwaith o fewn y terfynau penodol, bydd trwydded waith yn cael ei chyflwyno. I gael rhagor o wybodaeth, e-bostiwch Child.Employment@abertawe.gov.uk

Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan y Rhwydwaith Cenedlaethol Cyflogaeth ac Adloniant Plant (NNCEE) yn www.nncee.org.uk

**Cysylltiadau defnyddiol:**

Gwasanaeth Lles Addysg: Rhif ffôn: 01792 637648

Gwasanaeth Lles Addysg: EducationWelfareService@abertawe.gov.uk

Gwybodaeth am gyflogaeth plant: Child.Employment@abertawe.gov.uk

Addysg Ddewisol yn y Cartref: ElectiveHomeEducation@swansea.gov.uk

## Beth os yw fy mhlentyn am fod yn rhan o gynhyrchiad adloniant?

Bydd rhai plant yn cael y cyfle i gymryd rhan ym myd adloniant, megis ar lwyfan neu mewn ffilm a theledu. Mae angen trwydded ar gyfer hyn, ac fel gyda chyflogaeth ran-amser, mae amodau i'w dilyn. Y person sy'n trefnu'r cynhyrchiad sy'n gyfrifol am wneud cais am drwydded berfformio, ac mae angen i hyn gael ei wneud o leiaf 21 diwrnod cyn diwrnod cyntaf y perfformiad. Mae adran o'r ffurflen gais i'r rhieni ei chwblhau, ac os yw eich plentyn yn rhan o gynhyrchiad adloniant, bydd angen i chi sicrhau bod trwydded wedi'i rhoi.
Mae ffurflenni cais am drwyddedau ar gael gan yr Tîm Cefnogi Ysgolion a Llywodraethwyr. Cyswllt schoolandgovernorunit@abertawe.gov.uk

## Diogelu

Mae Adran Addysg yr Awdurdod Lleol yn cyflogi Swyddog Amddiffyn a Diogelu Plant Addysg amser llawn. Mae'r swyddog yn rhoi cyngor, arweiniad a chefnogaeth ar faterion amddiffyn a diogelu plant ar gyfer staff ysgolion, rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill ac mae hefyd yn darparu hyfforddiant i staff ysgolion, staff addysg a llywodraethwyr. Mae'r swyddog hefyd yn gweithio'n agos gydag asiantaethau eraill sy'n gyfrifol am ddiogelu gan gynnwys y gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu ac iechyd fel rhan o Hwb Ddiogelu Integredig.Mae pob ysgol wedi penodi person dynodedig - fel arfer y pennaeth mewn ysgolion cynradd, sy'n gyfrifol am amddiffyn a diogelu plant. Mae corff llywodraethu pob ysgol wedi pennu Llywodraethwr sy'n gyfrifol am amddiffyn a diogelu plant.

Bydd gan bob ysgol ei Pholisi Amddiffyn a Diogelu Plant ei hun sy'n pennu ei dyletswyddau ar gyfer diogelu disgyblion yn ei hysgolion.
Yn ogystal â'r ddyletswydd i ddilyn Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019 Gofal Cymdeithasol Cymru (https://diogelu.cymru) mae'n ofynnol iddynt weithio gyda'r heddlu ac asiantaethau eraill o dan y ddeddfwriaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn ogystal â chanllawiau'r Swyddfa Gartref o dan Ddeddf Cam-drin Domestig 2021 lle dylid ystyried plant sy'n byw gyda cham-drin domestig yn ddioddefwyr. Rydym yn cydnabod y gall disgyblion sy'n byw mewn sefyllfaoedd sy'n sarhaus yn y cartref fod yn debygol o fod yn dioddef trawma, yn teimlo'n ofnus neu'n nerfus ac yn llai tebygol o gyflawni yn yr un modd â disgyblion nad ydynt yn byw mewn amgylchiadau o'r fath. Mae ein hysgolion wedi ymrwymo i ymateb i ddisgyblion o'r fath gyda pholisïau amddiffyn a diogelu plant.

Mae ein hysgolion yn gweithio'n agos gyda swyddogion Heddlu De Cymru i ymateb i ddisgyblion a all fod wedi profi cam-drin domestig gartref dan brosesau Ymgyrch Encompass. Os yw swyddogion heddlu'n mynd i eiddo lle nodir cam-drin domestig ac mae plant yn bresennol neu'n cael eu cofnodi fel rhai sy'n byw yn y cyfeiriad, byddant yn cyflwyno adroddiad cynhwysfawr i ysgol y plentyn y bore canlynol. Mae'r adroddiad yn cynnwys manylion y cyflawnwr honedig a'r dioddefwr honedig ochr yn ochr â chrynodeb byr o'r rheswm dros gysylltu â'r heddlu. Diben yr adroddiad hwn yw caniatáu i ysgolion ddeall pam y gall disgyblion fod yn teimlo'n bryderus ac/neu'n isel a darparu cymorth lles priodol ar yr adeg pan fo'i angen fwyaf. I gael rhagor o wybodaeth am Ymgyrch Encompass cliciwch: https://www.operationencompass.org

**Cosb Gorfforol:**
Daeth Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 i rym ar 21 Mawrth 2022. Nid yw'n creu trosedd newydd, ond mae'n diddymu amddiffyniad o "gosb resymol" yn y troseddau presennol o ymosod ar blentyn neu guro plentyn. Mae cosbi corfforol yn cynnwys taro, bwrw, slapio, ysgwyd neu gosbi plentyn fel arall gan ddefnyddio grym corfforol. Mae'r newid yn golygu y bydd unrhyw ffurf ar gosbi plant yn gorfforol yn anghyfreithlon yng Nghymru, gan gynnwys gan rieni, gofalwyr ac unrhyw un sy'n gweithredu in loco parentis mewn unrhyw leoliad yng Nghymru.

Mae'n ofynnol i bob un o'n hysgolion weithio o fewn y gyfraith drwy adrodd am unrhyw achosion a welwyd o gosb gorfforol a gweithio gyda gwasanaethau statudol a'r heddlu lle bo hynny'n briodol i gefnogi teuluoedd pan dderbynnir datgeliad yn ymwneud â chosb gorfforol neu fathau eraill o niwed.

Rhif ffôn y Swyddog Amddiffyn a Diogelu Plant Addysg yw 01792 637148 / 07827 822700.

## A fydd fy mhlentyn yn cael prydau ysgol?

Mae'r cinio ysgol gynradd yn cynnwys pryd dau gwrs wedi'i baratoi'n ffres gyda diod a darperir hwn ym mhob ysgol. Mae'r prydau hyn yn bodloni'r canllawiau maeth fel sy'n ofynnol gan "Reoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Safonau a Gofynion Maeth) (Cymru) 2013" a'n nod yw gwneud y rhain yn ddeniadol ac yn flasus i blant.

Mae bwydlen tair wythnos ar gael ar wefan Cyngor Abertawe www.abertawe.gov.uk/prydauysgolgynradd am bris o £2.40 y dydd. Mae ymchwil ddiweddar yn awgrymu y gall bwyta'n iach yn rheolaidd drwy gyfuno brecwast yn y bore gyda chinio ysgol am hanner dydd helpu plant i ddysgu'n well. Gellir darparu ar gyfer gofynion dietegol arbennig ar gais. Mae pob ysgol gynradd yn cynnig system heb arian drwy dalu ar-lein neu bwynt taliadau yn eich siop leol.

Mae gan ysgolion uwchradd gaffiterias sydd yn darparu prydau bwyd sydd ar gael am £2.40. Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion system fiometrig a gefnogir gan system heb arian drwy dalu ar-lein.

## A yw fy mhlentyn yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim?

Mae disgyblion y mae eu rhieni'n derbyn Credyd Cynhwysol a chanddynt enillion net blynyddol o £7,400 neu lai ac yn derbyn Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm, Credyd Treth Plant (gydag incwm trethadwy o hyd at £16,190 y flwyddyn ac, ar yr amod nad ydynt yn derbyn Credyd Treth Gwaith), elfen warantedig Credyd Pensiwn neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail incwm yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyflwyno amddiffyniad ar gyfer y rheini sy'n Derbyn Prydau Ysgol am ddim tan Ragfyr 2023 ('amddiffyniad wrth bontio')

Gellir cael rhagor o wybodaeth am brydau ysgol am ddim a'r meini prawf amddiffyn gan ddefnyddio'r manylion isod:

Gwefan: www.abertawe.gov.uk/prydauysgol

E-bost: prydauysgolamddim@abertawe.gov.uk

Ffôn: 01792 635353

O fis Medi 2023, cyflwynir prydau ysgol am ddim i ddisgyblion ysgolion cynradd. Does dim angen cyflwyno cais am y prydau hyn, ond rydym yn annog disgyblion i hawlio'r prydau ysgol am ddim oherwydd gallant hefyd elwa o'r grant gwisg ysgol am ddim a chostau is eraill, fel ar gyfer teithiau ysgol.

## Clybiau Brecwast

Mae gan fwyafrif yr ysgolion cynradd yn Abertawe glybiau brecwast am ddim sydd fel arfer yn rhedeg am tua hanner awr cyn dechrau'r diwrnod ysgol. Mae llawer o ysgolion hefyd yn cynnwys rhywfaint o ddarpariaeth ar gyfer gofal plant cyn y clwb brecwast ac yn codi tâl bach am y gwasanaeth hwn. Dylech gysylltu ag ysgol eich plentyn i gael manylion am amseroedd agor, taliadau a sut i gofrestru.

## Ymweliadau Ysgol

Codir tâl am lety a bwyd i blant sy’n cymryd rhan mewn gweithgareddau lle y maent yn aros dros nos. Mae ysgolion hefyd yn aml yn gofyn am gyfraniadau gwirfoddol ar gyfer gweithgareddau a gwibdeithiau dydd.

Ni chodir tâl am unrhyw gwrs preswyl neu wersyll y cytunwyd arno (sy'n rhan o'r cwricwlwm) os yw rhieni'r disgyblion yn derbyn Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm, Credyd Treth Plant (gydag incwm trethadwy o hyd at £16,190 y flwyddyn, ac ar

yr amod nad ydych yn derbyn Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio), elfen warantedig y Credyd Pensiwn Gwladol neu lwfans cyflogaeth a chefnogaeth ar sail incwm.

Os yw disgybl yn teithio o'i gartref i weithgaredd a anogir ond nas darperir gan y Gyfarwyddiaeth Addysg neu'r ysgol (er enghraifft, profiad gwaith), gofynnir i chi dalu am y tocynnau bws.  Gallwch gael gwybodaeth am yr hyn a ddarperir am ddim a phryd y disgwylir i chi dalu trwy gael manylion am y polisïau hyn oddi wrth yr ysgol neu'r Gyfarwyddiaeth Addysg.

## Gwisg Ysgol

Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig Grant Gwisg Ysgol blynyddol i ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (nid y rheini sydd ag amddiffyniad wrth bontio). Ym mis Medi 2022, roedd y grant hwn ar gael i blant sy'n dechrau dosbarth Derbyn  hyd at flwyddyn 11 yn ogystal â phlant sy'n derbyn gofal. Os yw'r grant ar gael yn y dyfodol, bydd y cyngor yn cysylltu â rhieni cymwys yn uniongyrchol o gwmpas mis Mehefin/Gorffennaf i roi gwybod iddynt sut i gyflwyno cais.

Ceir rhagor o wybodaeth yn:  www.abertawe.gov.uk/grantGwisgYsgol

E-bost:  GrantGwisgYsgol@abertawe.gov.uk

Ffôn: 01792 636611

## Pa arholiadau y bydd fy mhlentyn yn eu sefyll?

Bydd pob ysgol uwchradd yn rhoi manylion i chi am ganlyniadau eu harholiadau cyhoeddus os gofynnwch amdanynt. Mae gan bob myfyriwr yr hawl i sefyll arholiadau, ar y lefel briodol, yn y pynciau maent yn eu hastudio. Bydd yr ysgol yn talu'r ffi arholiad pan fydd y disgybl yn sefyll yr arholiad am y tro cyntaf. Os bydd disgybl yn colli arholiad heb reswm meddygol dilys, gofynnir i rieni'r disgybl hwnnw dalu'r ffi.   Os paratowyd y disgybl ar gyfer yr arholiad yn rhywle arall neu os yw'n dewis sefyll arholiad nad yw'r ysgol wedi ei gynnig na'i argymell, gofynnir i rieni'r disgybl hwnnw dalu'r ffi. Gallwch gael mwy o wybodaeth am y polisi arholiadau gan yr ysgol.

## Llywodraethwyr Ysgol

Mae gan bob ysgol gorff llywodraethu sy'n chwarae rhan bwysig ym mywyd yr ysgol. Mae gan lywodraethwyr gyfrifoldeb dros wella ysgolion, polisïau ysgol a rheolaeth yr ysgol. Maent yn gofalu am faterion pwysig megis cyllid yr ysgol a phenodi staff. Mae cyrff llywodraethu'n cynnwys pobl leol sy'n fodlon rhoi o'u hamser yn wirfoddol oherwydd eu diddordeb yn yr ysgol. Ymhlith y bobl hyn bydd rhieni, pobl a benodir gan yr awdurdod lleol, athrawon, y pennaeth, aelodau staff nad ydynt yn addysgu, pobl fusnes ac aelodau eraill o'r gymuned leol.

Mae'n rhaid i bob llywodraethwr newydd ei benodi fynd ar gwrs sefydlu dwy awr ar ddata perfformiad ysgol. Yn ogystal â hyn, mae rhaglen hyfforddiant i lywodraethwyr ar amrywiaeth o destunau i'w helpu i gyflawni eu rôl yn effeithiol. Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu'r hyfforddiant hwn ar gyfer llywodraethwyr am ddim. Mae'n rhaid i bob corff llywodraethu lunio adroddiad blynyddol i rieni sy'n disgrifio gweithgareddau'r llywodraethwyr. Mae'r llywodraethwyr yn trefnu cyfarfod gyda'r rhieni lle y gall rhieni drafod yr adroddiad a gofyn cwestiynau am weithrediad yr ysgol. Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn llywodraethwr ysgol, cysylltwch â'r Tîm Cefnogi Ysgolion a Llywodraethwyr yn y Ganolfan Ddinesig schoolandgovernorunit@abertawe.gov.uk

## Gwybodaeth ac Arweiniad ar Yrfaoedd

Wrth i ddisgyblion ddechrau ar y blynyddoedd hollbwysig o ran penderfyniadau am yrfaoedd - sef blynyddoedd 9, 11 a 12 - bydd Gyrfa Cymru wrth law i helpu rhieni yn ogystal â disgyblion. Gallant hefyd drefnu i rieni ddod i gyfweliad gyrfaoedd, naill ai gyda'ch plentyn neu ar wahân. Mae ymgynghorwyr gyrfaoedd hefyd yn dod i nosweithiau rhieni a digwyddiadau gyrfaoedd mewn ysgolion neu golegau, ac mae croeso i rieni ymweld â nhw yn un o'u canolfannau gyrfaoedd. Pan fydd disgyblion yn yr ysgol neu goleg, byddant yn cynnig trafodaethau grŵp i ddisgyblion/myfyrwyr ar bynciau gyrfaoedd perthnasol a chyfweliadau unigol i drafod eu dewisiadau a'u syniadau am yrfaoedd.

Mae mwy o wybodaeth a chyngor ar gael o Ganolfan Gyrfaoedd Abertawe, Grove House, Grove Place, Abertawe SA1 5DF
Ffôn: 0800 028 4844 neu www.gyrfacymru.gov.uk

## Pa addysg fydd ar gael pan fydd fy mhlentyn dros 16 oed?

Mae amrywiaeth eang o gyrsiau ar gael i ddisgyblion sydd am aros mewn addysg amser llawn ar ôl eu pen-blwydd yn 16 oed. Gall myfyrwyr ddewis i barhau â'u hastudiaethau mewn ysgol uwchradd lle mae chweched dosbarth neu mewn coleg addysg bellach (AB). Yr ysgolion yn Abertawe sydd â chweched dosbarth yw Ysgol Gyfun Esgob Gore, Ysgol Gatholig Esgob Vaughan, Ysgol Gyfun Tregŵyr, Ysgol Gyfun Treforys ac Ysgol Gyfun yr Olchfa.

Mae Ysgol Gyfun Gymreag Bryn Tawe ac Ysgol Gyfun Gŵyr yn cynnig darpariaeth chweched dosbarth trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r coleg AB, Coleg Gŵyr Abertawe, yn annibynnol o'r Awdurdod Lleol.

## Oes modd i'm plentyn gael cymorth ariannol os bydd yn mynd ymlaen i addysg bellach neu uwch?

**Lwfans Cynhaliaeth Addysg -** Mae Lwfans Cynhaliaeth Addysg a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar gael i fyfyrwyr ar gyrsiau ôl-16 amser llawn mewn chweched dosbarthiadau neu yng Ngholeg Gŵyr Abertawe. Gall teuluoedd ar incwm isel gyflwyno cais am y grant a bydd uchafswm o £30 yr wythnos, sy’n daladwy bob pythefnos, yn cael ei dalu i fyfyrwyr cymwys. Dylai gwybodaeth gyffredinol am y cynllun a'r pecynnau cais angenrheidiol fod ar gael yn yr ysgol neu'r coleg. Neu gallwch gysylltu â Chanolfan Gyswllt Cyllid Myfyrwyr Cymru dîm gwasanaeth cwsmeriaid LCA Cymru:-

Gwefan: www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk

E-bost: emawales@slc.co.uk

Ffôn: 0300 200 4050

**Cyllid Myfyrwyr Cymru -** Gallai myfyrwyr o aelwydydd incwm isel sy’n 19 oed neu’n hŷn fod yn gymwys ar gyfer Grant Addysg Bellach Llywodraeth Cymru (GABLIC) (a elwir gynt yn Grant Addysg Bellach y Cynulliad) ar gyfer cyrsiau amser llawn neu ran-amser mewn colegau chweched dosbarth a thrydyddol. Gallwch gael yr holl wybodaeth y mae ei hangen arnoch yn uniongyrchol o’ch coleg neu drwy gysylltu â chanolfan gyswllt Cyllid Myfyrwyr Cymru Gwasanaethau Cwsmeriaid AB Cyllid Myfyrwyr Cymrudrwy:-

Gwefan: www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk

E-bost: WGLGFE@slc.co.uk

Ffôn: 0300 200 4050

## Beth gallaf ei wneud os bydd cwyn gennyf neu os wyf yn anfodlon ar addysg fy mhlentyn?

Gwneir pob ymgais gan ysgolion i drafod a datrys problemau a chwynion a wneir gan rieni. Yn gyntaf, dylech wneud apwyntiad i siarad â phennaeth eich plentyn am y broblem. Gall y rhan fwyaf o gwynion gael eu datrys trwy wneud hyn. Ond os nad yw'ch cwyn yn cael ei datrys, gallwch holi yn ysgol eich plentyn am gopi o bolisi cwynion yr ysgol. Mae gan bob ysgol bolisi cwynion ysgrifenedig a fydd yn esbonio sut i fwrw ymlaen â chwyn sydd heb ei datrys. Os oes gennych unrhyw ymholiad am y weithdrefn i'w dilyn, ffoniwch y Tîm Cefnogi Ysgolion a Llwodraethwyr schoolandgovernorunit@abertawe.gov.uk

## Beth allaf wneud os nad yw'r wybodaeth rwyf ei eisiau yn y llyfryn hwn?

Os hoffech gael mwy o wybodaeth neu gyngor, siaradwch â phennaeth yr ysgol neu cysylltwch â'r Gyfarwyddiaeth Addysg yn y Ganolfan Ddinesig ar 01792 636000.

## Ysgolion cyfun a'u hysgolion cynradd partner

| | |
|---|---|
| **Ysgol Gyfun Gellifedw** | Ysgol Gynradd Gellifedw, Ysgol Gynradd Clydach, Ysgol Gynradd Craigfelen, Ysgol Gynradd y Glais |
| **Ysgol Gyfun yr Esgob Gore** | Ysgol Gynradd Blaenymaes, Ysgol Gynradd Brynmill, Ysgol Gynradd Cadle, Ysgol Gynradd Grange, Ysgol Gynradd Ystumllwynarth, Ysgol Gynradd Parkland **, Ysgol Gynradd Portmead, Ysgol Gynradd Sgeti **, Ysgol Gynradd Whitestone (**Yn ôl cyfeiriad - yr Esgob Gore neu'r Olchfa) |
| **Ysgol Gyfun Llandeilo ferwallt** | Ysgol Gynradd Llandeilo Ferwallt, Ysgol Gynradd Crwys, Ysgol Gynradd Knelston, Ysgol Gynradd Mayals, Ysgol Gynradd Newton, Ysgol Gynradd Pennard. |
| **Ysgol Gyfun Cefn Hengoed** | Ysgol Gynradd Cwm Glas, Ysgol Gynradd Dan-y-graig, Ysgol Gynradd Pentrechwyth, Ysgol Gynradd St, Thomas, Ysgol Gynradd Talycopa, Ysgol Gynradd Trallwn |
| **Ysgol Gyfun Dylan Thomas** | Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Christchurch, Ysgol Gynradd Seaview, Ysgol Gynradd San Helen, Ysgol Gynradd Heol Teras, Ysgol Gynradd Gendros, Ysgol Gynradd y Gors, Ysgol Gynradd Townhill |
| **Ysgol Gyfun Tregŵyr** | Ysgol Gynradd Llanrhidian, Ysgol Gynradd Penclawdd, Ysgol Gynradd Pen-y-fro, Ysgol Gynradd Tregŵyr, Ysgol Gynradd Waunarlwydd |
| **Ysgol Gyfun Treforys** | Ysgol Gynradd y Clâs, Ysgol Gynradd Cwmrhydyceirw, Ysgol Gynradd Glyncollen, Ysgol Gynradd Pentre'r Graig, Ysgol Gynradd Treforys, Ysgol Gynradd Ynystawe |
| **Ysgol Gyfun yr Olchfa** | Ysgol Gynradd Cilâ, Ysgol Gynradd Dyfnant, Ysgol Gynradd Hendrefoelan, Ysgol Gynradd Parkland **, Ysgol Gynradd Sgeti ** (** Yn ôl cyfeiriad - yr Esgob Gore neu'r Olchfa) |
| **Ysgol Gyfun Pentrehafod** | Ysgol Gynradd Brynhyfryd, Ysgol Gynradd Burlais, Ysgol Gynradd Clwyd, Ysgol Gynradd Gwyrosydd, Ysgol Gynradd yr Hafod, Ysgol Gynradd Plasmarl, Ysgol Gynradd Waun Wen |
| **Ysgol Gyfun Penyrheol** | Ysgol Gynradd Casllwchwr, Ysgol Gynradd Gorseinon, Ysgol Gynradd Penyrheol, Ysgol Gynradd Pontybrenin, Ysgol Gynradd Tre Uchaf |
| **Ysgol Gyfun Pontarddulais** | Ysgol Gynradd Llangyfelach, Ysgol Gynradd Pengelli, Ysgol Gynradd Penllergaer, Ysgol Gynradd Pontarddulais, Ysgol Gynradd Pontlliw |

** **Gan ddibynnu ar y cyfeiriad. Cysylltwch gyda** derbyniadau@abertawe.gov.uk **i gadarnhau.**

## Ysgol Gyfun Gatholig a'u hysgolion cynradd partner

| | |
|---|---|
| **Ysgol Gyfun Gatholig yr Esgob Vaughan** | Ysgol Gynradd Gatholig Dewi Sant, Ysgol Gynradd Gatholig Illtyd Sant, Ysgol Gynradd Gadeiriol San Joseff (Abertawe), Ysgol Gynradd Gatholig San Joseff, (Clydach) |

## Dalgylchoedd yr Ysgolion Cymraeg

**Rhoddwyd newidiadau i ddalgylchoedd ysgolion cyfrwng Cymraeg ar waith ym mis Medi 2021 ac mae'n bosib bod yr ysgol ddalgylch ar gyfer eich cyfeiriad cartref wedi newid. I wirio'r ysgol ddalgylch cyfrwng Cymraeg ddynodedig ar gyfer eich cyfeiriad cartref, e-bostiwch** derbyniadau@abertawe.gov.uk

Os ydych yn gwneud cais am le mewn ysgol nad yw'r ysgol ddynodedig ar gyfer eich cyfeiriad cartref, chi fel rhiant/gofalwr sy'n gyfrifol am gost cludo'ch plentyn i'r ysgol ac oddi yno. Ni fydd yr awdurdod lleol yn darparu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol pan nad yw disgybl yn mynd i'w ysgol ddynodedig. Mae hyn hefyd yn berthnasol os caiff plentyn le mewn ysgol nad yw'n ysgol y dalgylch o ganlyniad i apêl lwyddiannus.

## Ysgol gyfun cyfrwng Cymraeg a'u hysgolion cynradd partner

| | |
|---|---|
| **Ysgol Gyfun Gŵyr** | YGG Bryniago, YGG Bryn-y-môr, YGG Pontybrenin, YGG y Login Fach, YGG Llwynderw |
| **Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe** | YG y Cwm, YGG Gellionnen, YGG Lôn-las, YGG Tan-y-Lan, YGG Tirdeunaw |

**Mae dalgylchoedd ysgolion Cymraeg yn cynnwys nifer o ddalgylchoedd ysgolion cyfrwng Saesneg.**

| Ysgolion Cymraeg | Dalgylchoedd Ysgolion Cynradd Cymraeg Dynodedig |
|---|---|
| *YGG BRYNIAGO* | Ysgol Gynradd Pontarddulais, Ysgol Gynradd Pontlliw |
| ****YGG BRYN-Y-MÔR* | Ysgol Gynradd Brynmill, Ysgol Gynradd yr Hafod, Ysgol Gynradd Hendrefoelan, Ysgol Gynradd Parkland **, Ysgol Gynradd Sgeti **, Ysgol Gynradd Seaview, Ysgol Gynradd San Helen, Ysgol Gynradd Heol Teras, Ysgol Gynradd Townhill, Ysgol Gynradd Waun Wen **(**Yn ôl cyfeiriad)** |
| *YGG GELLIONNEN* | Ysgol Gynradd Clydach, Ysgol Gynradd Craigfelen, Ysgol Gynradd Glais, Ysgol Gynradd Glyncollen, Ysgol Gynradd Ynystawe |
| *YGG LLWYNDERW* | Ysgol Gynradd Llandeilo Ferwallt, Ysgol Gynradd Grange, Ysgol Gynradd Knelston, Ysgol Gynradd Mayals, Ysgol Gynradd Newton, Ysgol Gynradd Ystumllwynarth, Ysgol Gynradd Parkland **, Ysgol Gynradd Pennard, Ysgol Gynradd Whitestone **(**Yn ôl cyfeiriad)** |
| *YGG LÔN-LAS* | Ysgol Gynradd Gellifedw, Ysgol Gynradd Talycopa, Ysgol Gynradd Trallwn. |
| ****YGG PONTYBRENIN* | Ysgol Gynradd Casllwchwr, Ysgol Gynradd Gorseinon, Ysgol Gynradd Llanrhidian, Ysgol Gynradd Penclawdd, Ysgol Gynradd Pengelli, Ysgol Gynradd Penllergaer, Ysgol Gynradd Penyrheol, Ysgol Gynradd Pontybrenin, Ysgol Gynradd Tre Uchaf. |
| ****YGG TAN-Y-LAN* | Ysgol Gynradd y Clâs, Ysgol Gynradd Cwmrhydyceirw, Ysgol Gynradd Llangyfelach, Ysgol Gynradd Treforys, Ysgol Gynradd Pentre'r Graig |
| ****YGG TIRDEUNAW* | Ysgol Gynradd Blaenymaes, Ysgol Gynradd Brynhyfryd, Ysgol Gynradd Burlais, Ysgol Gynradd Cadle, Ysgol Gynradd Clwyd, Ysgol Gynradd Gendros, Ysgol Gynradd Gwyrosydd, Ysgol Gynradd Plasmarl, Ysgol Gynradd Portmead, |
| *YG Y CWM* | Ysgol Gynradd Cwmglas, Ysgol Gynradd Dan-y-graig, Ysgol Gynradd Pentrechwyth, Ysgol Gynradd St Thomas |
| ****YGG Y LOGIN FACH* | Ysgol Gynradd Cilâ, Ysgol Gynradd Crwys, Ysgol Gynradd Dyfnant, Ysgol Gynradd y Gors, Ysgol Gynradd Tregwyr, Ysgol Gynradd Pen-y-fro, Ysgol Gynradd Waunarlwydd |

** **Gan ddibynnu ar y cyfeiriad. Cysylltwch gyda** derbyniadau@abertawe.gov.uk i gadarnhau**.**

## Newidiadau i Dalgylchoedd cyfrwng-Cymraeg a weithredwyd ym mis Medi 2021

Gweithredwyd y newidiadau canlynol ym mis Medi 2021:

| **Ysgol ddalgylch cyfrwng Saesneg** | **Ysgol ddalgylch Cyfrwng Cymraeg newydd** | Ysgol ddalgylch cyfrwng Cymraeg cyn Medi 2021 | **Ysgol ddalgylch cyfrwng Cymraeg uwchradd newydd** | Ysgol ddalgylch cyfrwng Cymraeg uwchradd cyn Medi 2021 |
|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Gynradd Blaenymaes** | **YGG Tirdeunaw** | YGG Pontybrenin | **YG Bryn Tawe** | YGG Gwyr |
| **Ysgol Gynradd Brynhyfryd** | **YGG Tirdeunaw** | YGG Bryn y Mor | **YG Bryn Tawe** | YGG Gwyr |
| **Ysgol Gynradd Clase** | **YGG Tan y Lan** | YGG Tirdeunaw | **YG Bryn Tawe** | YG Bryn Tawe |
| **Ysgol Gynradd Burlais** | **YGG Tirdeunaw** | YGG Bryn y Mor | **YG Bryn Tawe** | YGG Gwyr |
| **Ysgol Gynradd Cadle** | **YGG Tirdeunaw** | YGG Pontybrenin | **YG Bryn Tawe** | YGG Gwyr |
| **Ysgol Gynradd Clwyd** | **YGG Tirdeunaw** | YGG Pontybrenin | **YG Bryn Tawe** | YGG Gwyr |
| **Ysgol Gynradd Gendros** | **YGG Tirdeunaw** | YGG Pontybrenin | **YG Bryn Tawe** | YGG Gwyr |
| **Ysgol Gynradd Portmead** | **YGG Tirdeunaw** | YGG Pontybrenin | **YG Bryn Tawe** | YGG Gwyr |
| **Ysgol Gynradd Seaview** | **YGG Bryn y Mor** | YGG Y Login Fach | **YGG Gwyr** | YGG Gwyr |
| **Ysgol Gynradd Townhill** | **YGG Bryn y Mor** | YGG Y Login Fach | **YGG Gwyr** | YGG Gwyr |

**I wirio'r ysgol ddalgylch cyfrwng-Cymraeg ddynodedig ar gyfer eich cyfeiriad cartref, cysylltwch gyda** derbyniadau@abertawe.gov.uk

# Manylion yr ysgolion:

**Mae'r tabl canlynol yn darparu amrywiaeth o wybodaeth ddefnyddiol am ysgolion yn Ninas a Sir Abertawe.**

**Byrfoddau**

| | |
|---|---|
| **CS** | **Cyfrwng Saesneg** |
| **CC** | **Cyfrwng Cymraeg** |
| **ND** | **Rhif mynediad** |

**Nifer ar y gofrestr - cyfrif o ddisgyblion amser llawn a rhan-amser yn unol â Chyfrifiad Ysgolion Blynyddol lefel Disgyblion Llywodraeth Cymru (CYBLD) Gwener 2022**

**Ceisiadau a dderbynnir yn ystod y rownd dderbyn - nifer y ceisiadau am y Derbyn a Blwyddyn 7 a gyflwynwyd o fewn y dyddiadau cau cyhoeddedig (dewisiadau 1af, 2il a 3ydd) ar gyfer yr ysgol.**

**GWYBODAETH BWYSIG:**

**Mae'n bwysig eich bod yn ymwybodol mai syniad yn unig o nifer y lleoedd sydd ar gael yw'r ffigur a roddir ar gyfer dosbarth meithrin. Nid oes nifer derbyn penodol ar gyfer dosbarthiadau meithrin. Bydd nifer y lleoedd sydd ar gael bob blwyddyn yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau ac fe'u pennir ar ôl ystyried yr holl faterion perthnasol.**

**Mae cyfanswm rhif y lleoedd yn rhoi syniad o nifer y lleoedd sydd ar gael ar draws y flwyddyn gyfan. Ar gyfer mynediad i grŵp blwyddyn penodol, y rhif derbyn yw'r ffactor pwysig, a dyma'r rhif y dylid ei ystyried pan ddyrennir lleoedd.**

**Mae'r holl ysgolion yn Abertawe yn ysgolion dydd. Nid oes ysgolion preswyl.**

| Enw, cyfeiriad a rhif ffon y sefydliad | Ystod oedran | Math | Ar y gofrestr ym mis Gwener 2022 C.A.Ll. | ND Medi 2023 | Medi 2022 dderbynfa ceisiadau a dderbyniwyd yn ystod cylch derbyn | Cyfanswm Cynhwysedd | Enw'r Pennaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| YSGOLION CYNRADD CYMUNEDOL | | | | | | | |
| **Gellifedw** Heol Nant Bran**,** Gellifedw, Abertawe, SA7 9LS. (01792) 814814 E-bost: BirchgrovePrimarySchool@birchgrove-pri.swansea.sch.uk Web: swansea-edunet.gov.uk/en/schools/birchgroveprimary | 3-11 | EM | 404 | 60 | 60 | 420 | Mr M O'Brien |
| **Llandeilo Ferwallt** Heol Llandeilo Ferwallt, Llandeilo Ferwallt, Abertwae, SA3 3EN. (01792) 232754 E-bost: BishopstonPrimarySchool@bishopston-pri.swansea.sch.uk Web: swansea-edunet.gov.uk/en/schools/bishopstonprimary | 3-11 | EM | 267 | 38 | 34 | 271 | Mr J Owen |
| **Blaenymaes** Rhodfa Broughton, Blaenymaes, Abertawe, SA5 5LW. (01792) 583366 E-bost: BlaenymaesPrimarySchool@blaenymaes.swansea.sch.uk Web: swansea-edunet.gov.uk/en/schools/blaenymaes | 3-11 | EM | 239 | 37 | 21 | 259 | Mrs K Lecrass (Dros dro) |
| **Brynhyfryd**, Heol Llangyfelach, Brynhyfryd, Abertawe SA5 9LN. (01792) 483870 E-bost: BrynhyfrydPrimarySchool@brynhyfrydpri.swansea.sch.uk Web: Swansea-edunet.gov.uk/schools/brynhyfryd primary | 3-11 | EM | 413 | 60 | 67 | 420 | Mr J Knight |
| **Brynmill** Trafalgar Place, Brynmill, Abertawe, SA2 0BU. (01792) 463019 E-bost: BrynmillPrimarySchool@brynmill.swansea.sch.uk Web: swansea-edunet.gov.uk/en/schools/brynmill | 3-11 | EM | 280 | 45 | 51 | 315 | Miss J Simons |

| Enw, cyfeiriad a rhif ffon y sefydliad | Ystod oedran | Math | Ar y gofrestr ym mis Gwener 2022 C.A.Ll. | ND Medi 2023 | Medi 2022 dderbynfa ceisiadau a dderbyniwyd yn ystod cylch derbyn | Cyfanswm Cynhwysedd | Enw'r Pennaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| YSGOLION CYNRADD CYMUNEDOL parhad | | | | | | | |
| **Burlais** Gerddi Alexander, Cwmbwrla, Abertawe, SA5 8BN. (01792) 652350<br>E-bost: BurlaisPrimarySchool@burlaisprimary.swansea.sch.uk<br>Web: swansea-edunet.gov.uk/en/schools/burlais | 3-11 | EM | 466 | 75 | 63 | 528 | Mr M Thompson |
| **Cadle** Heol Ganol, Fforestfach, Abertawe, SA5 5DU. (01792) 584498<br>E-bost: CadlePrimarySchool@cadle.swansea.sch.uk<br>Web: swansea-edunet.gov.uk/en/schools/cadle | 3-11 | EM | 312 | 51 | 34 | 363 | Mr J Richards |
| **Casllwchwr** Stryd y Castell, Casllwchwr, Abertawe, SA4 6TU. (01792) 892420 E-bost: CasllwchwrPrimarySchool@casllwchwr.swansea.sch.uk<br>Web: www.casllwchwrprimary.com | 3-11 | EM | 202 | 30 | 30 | 210 | Mr O Thomas |
| **Cila** 577 Heol Gwyr, Cila Uchaf, Abertawe SA2 7DR. (01792) 202775<br>E-bost: CilaPrimarySchool@cila.swansea.sch.uk<br>Web: swansea-edunet.gov.uk/en/schools/cila | 3-11 | EM | 118 | 16 | 19 | 117 | Mr R Squires |
| **Y Clas** Rhodfa Rheidiol, Y Clas, Abertawe, SA6 7JX. (01792) 781747<br>E-bost: ClasePrimarySchool@clase.swansea.sch.uk<br>Web: swansea-edunet.gov.uk/en/schools/clase | 3-11 | EM | 314 | 45 | 35 | 316 | Mrs S Hope |
| **Clwyd** Heol Eppynt , Penlan, Abertawe, SA5 7AZ (01792) 588673<br>E-bost: ClwydPrimarySchool@clwyd.swansea.sch.uk<br>Web: swansea-edunet.gov.uk/en/schools/clwyd | 3-11 | EM | 355 | 45 | 48 | 320 | Mr S Brown |

| Enw, cyfeiriad a rhif ffon y sefydliad | Ystod oedran | Math | Ar y gofrestr ym mis Gwener 2022 C.A.Ll. | ND Medi 2023 | Medi 2022 dderbynfa ceisiadau a dderbyniwyd yn ystod cylch derbyn | Cyfanswm Cynhwysedd | Enw'r Pennaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| YSGOLION CYNRADD CYMUNEDOL parhad | | | | | | | |
| **Clydach** Heol Twyn-y-Bedw, Clydach, Abertawe, SA6 5ET. (01792) 843384 E- bost: 6702244_ClydachPrimarySchool@Hwbcymru.net Web: www.clydachprimaryschool.co.uk | 3-11 | EM | 196 | 37 | 21 | 259 | Mrs E Peters |
| **Craigfelen** Cilgant Woodside, Clydach, Abertawe, SA6 5DP. (01792) 843278 E-bost: CraigfelenPrimarySchool@craigfelen.swansea.sch.uk Web: swansea-edunet.gov.uk/en/schools/craigfelen | 3-11 | EM | 180 | 25 | 14 | 176 | Mrs A Williams |
| **Crwys** Heol y Capel, Y Crwys, Abertawe, SA4 3PU. (01792) 872473 E-bost: CrwysPrimarySchool@crwys.swansea.sch.uk Web: swansea-edunet.gov.uk/en/schools/Crwys | 3-11 | EM | 120 | 24 | 15 | 172 | Mr D Saer |
| **Cwm Glas** Rhodfa Colwyn, Winch Wen, Abertawe, SA1 7EN. (01792) 771693 E-bost: CwmGlasPrimarySchool@cwmglas.swansea.sch.uk Web: www.cwmglasprimary.ik.org | 3-11 | EM | 264 | 40 | 33 | 282 | Mr N Craven-Lashley |
| **Cwmrhydyceirw** Maesygwernen Road, Treforys, Abertawe, SA6 6LL. (01792) 771524 E-bost: CwmrhydyceirwPrimarySchool@cwmrhydyceirw.swansea.sch.uk Web: swansea-edunet.gov.uk/en/schools/Cwmrhydyceirw | 3-11 | EM | 501 | 65 | 90 | 460 | Mr D Casker |
***Diffinnir brawd neu chwaer fel plentyn naturiol neu blentyn sydd wedi'i fabwysiadu'n gyfreithlon gan y naill riant neu'r llall sy'n byw yn yr un cyfeiriad. Mewn unrhyw sefyllfa pan fydd un lle ar gael ac mae'r plant cymwys nesaf ar gyfer y lle hwnnw'n efeilliaid/tripledi, bydd yr ALl yn derbyn y ddau/tri phlentyn. Diffinnir oedran ysgol statudol fel disgyblion sydd rhwng 5 ac 16 oed (h.y. disgyblion mewn unrhyw grŵp blwyddyn rhwng ac yn cynnwys y dosbarth Derbyn a Blwyddyn 11.)

**Ni fydd** yr ALl yn darparu cludiant nac yn cyfrannu at gostau cludiant ar gyfer y plant sy'n cael eu derbyn o'r tu allan i ddalgylch penodol yr ysgol. Fodd bynnag, os yw grŵp blwyddyn y dalgylch yn llawn, darperir cludiant i'r ysgol agosaf sydd â lle, os yw'r ysgol honno'n fwy na phellter cerdded o 3 milltir o'r cartref. Mae Polisi Cludiant i'r Ysgol yr ALl a gwybodaeth am gludiant i'r ysgol ar gael ar wefan y cyngor www.abertawe.gov.uk/cludiantysgol

**Plant a chanddynt Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Nid yw'r meini prawf gorymgeisio'n berthnasol i ddisgyblion y mae gan yr ALl Gynllun Datblygu Unigol (CDU) ar eu cyfer, lle mae'r ALl wedi enwi ysgol yn adran 2D.1 o'r CDU, neu Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig, ond amddiffynnir hawliau'r rhieni i fod yn rhan o leoli eu plant gan y gyfraith. Bydd yr ALl, mewn ymgynghoriad â rhieni/gofalwyr ac ysgolion, yn penderfynu ym mha ysgol y bydd yr addysg yn cael ei darparu. Mae’r ALl yn cadw’r hawl i enwi ysgol nad yw'n ysgol y dalgylch.

Mae gan ysgolion ddyletswydd i dderbyn plant â Chynllun Datblygu Unigol (CDU) lle mae'r ALl wedi enwi ysgol yn adran 2D.1 y CDU, neu Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig sydd wedi'u gosod mewn ysgol gan yr ALl ac mae'r disgyblion hyn yn cyfrif tuag at y nifer a dderbynnir hyd at y nifer derbyn, oni bai eu bod yn cael eu rhoi mewn Cyfleuster Addysgu Arbenigol â lleoedd cynlluniedig.

Roedd yr wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn yn gywir pan gafodd ei gyhoeddi, ond gellir ei diweddaru yn seiliedig ar gyngor/deddfwriaeth newydd yn cael ei gyhoeddi nad oedd ar gael pan gyhoeddwyd y ddogfen.

**Ysgolion a Gynorthwyir yn Wirfoddol**

Yn Abertawe mae gennym ysgolion eglwysig a Gynorthwyir yn Wirfoddol (sef ysgolion Catholig, ac ysgolion Yr Eglwys yng Nghymru). Penderfynir ar geisiadau i ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol drwy gyfeirio at y meini prawf derbyn a osodwyd gan y Corff Llywodraethu. Cyrff llywodraethu ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol sy'n gyfrifol am bennu eu trefniadau derbyn eu hunain.

**(c) Gweithdrefnau Derbyn – Ysgolion Cymunedol**

Gofynnir i rieni/ofalwyr wneud cais ar-lein am le i'w plentyn yn ysgol y dalgylch neu fynegi dewis ar gyfer lle mewn ysgol arall gan ddefnyddio'r ffurflen cais am dderbyn.

Caniateir ceisiadau am le os oes lleoedd ar gael yn ôl y nifer derbyn cyhoeddedig. Lle mae'r ceisiadau derbyn yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, dyrennir y lleoedd yn ôl meini prawf gorymgeisio'r ALl.

Dylid defnyddio'r prif gyfeiriad preswyl wrth gyflwyno cais. Ni ellir defnyddio cyfeiriadau sydd â chyfyngiadau ar ddeiliadaeth megis cabanau gwyliau a charafannau mewn parciau gwyliau sydd â chyfyngiadau tymhorol ar ddeiliadaeth fel cyfeiriad parhaol.

Nid yw mynychu ysgol gynradd bartner yn gwarantu lle yn yr ysgol uwchradd gysylltiedig.

Bydd ceisiadau am fynediad i'r grŵp oedran perthnasol (h.y. grŵp oedran y caniateir mynediad i'r ysgol i'r plant fel arfer) a gyflwynir ar y dyddiad cau, sef **25 Tachwedd 2022**, neu cyn hynny, yn cael eu prosesu gyda'i gilydd. Yn hyn o beth, nid oes unrhyw fantais i gyflwyno'r cais am dderbyn yn gynnar. Caiff ceisiadau a gyflwynir ar ôl y dyddiad cau eu trin fel ceisiadau hwyr.

Os ydych chi am newid eich dewis ysgol ar ôl y dyddiad cau a gyhoeddir ar gyfer ceisiadau neu ar ôl i le gael ei gynnig ar y diwrnod cynnig statudol, bydd angen cyflwyno cais newydd. Bydd cais newydd a wneir yn gais hwyr a bydd yn disodli unrhyw geisiadau cynharach a dderbyniwyd ac ni fyddai unrhyw gynigion a wnaed yn flaenorol ar gael mwyach.

Ni phennir derbyniadau ar sail meini prawf dethol sy'n cynnwys sefyll profion, gweld adroddiadau ysgol neu gyfweld â disgyblion, gyda rhieni neu hebddynt, at ddiben asesu gallu neu ddawn.

Ni fydd rhaid i'r ALl gydymffurfio ag unrhyw ddewis a fynegwyd fel arall ond yn unol â'i drefniadau'n unig. Bydd rhieni sydd wedi cyflwyno cais erbyn **25 Tachwedd 2022** yn cael gwybod a ddyrannwyd lle i'w plant erbyn **1 Mawrth 2023**.

Dylai rhieni/gofalwyr sy'n byw y tu hwn i Awdurdod Lleol Dinas a Sir Abertawe gyflwyno cais i'w hawdurdod lleol eu hunain (yr awdurdod lleol y maent yn talu treth y cyngor iddo) oherwydd, os bydd yr ysgol/ysgolion y cyflwynwyd cais amdanynt yn Abertawe'n derbyn gormod o geisiadau, ni fydd rhaid i'r ALl gynnig lle ar gyfer ysgol arall yn Abertawe.

**Ceisiadau Hwyr**
Ni fydd ceisiadau a gyflwynir ar ôl y dyddiad cau a gyhoeddir yn cael eu hystyried tan ar ôl i'r holl geisiadau a dderbynnir ar amser gael eu dyrannu a chael cynnig eu lleoedd ar y diwrnod cynnig statudol. Ymdrinnir â cheisiadau hwyr yn y drefn y'u derbyniwyd. Os oes mwy o geisiadau hwyr ar gyfer ysgol na nifer y lleoedd sydd ar gael, caiff y ceisiadau eu hystyried yn unol â'r meini prawf gorymgeisio. Gellir cynnal apeliadau yn erbyn ceisiadau hwyr ar ôl cynnal yr apeliadau ar gyfer ceisiadau a dderbyniwyd yn brydlon.

**Tynnu lle yn ôl**
Gellir tynnu lle yn ôl gan yr Awdurdod Lleol os derbynnir gwybodaeth sy'n awgrymu nad yw'r cais bellach yn bodloni'r meini prawf gorymgeisio yr aseswyd ef yn wreiddiol yn eu herbyn. Caiff unrhyw le a gymeradwywyd ar sail preswylfa ei dynnu'n ôl os nad yw'r disgybl bellach yn byw'n barhaol yn y cyfeiriad ar ddechrau'r tymor ysgol y mae'r cais yn ymwneud ag ef.

**Hawl i Apelio**
Caiff rhieni/gofalwyr eu hysbysu, yn ysgrifenedig, a fu eu cais yn llwyddiannus. Os gwrthodwyd eu cais, hysbysir rhieni/gofalwyr yn ysgrifenedig bod ganddynt hawl i apelio i banel apêl annibynnol. Os byddant yn dewis defnyddio'r hawl honno, rhaid cyflwyno'r apêl i'r Uned Cefnogi Ysgolion yn y Ganolfan Ddinesig erbyn **24 Mawrth 2023** (ar gyfer ceisiadau a dderbyniwyd yn brydlon). Caiff yr apêl ei hystyried gan banel apêl annibynnol sy'n cynnwys 3 i 5 person, sef pobl leyg a phobl â phrofiad o faes addysg.

**Rhestrau Aros**
Mae'r ALl, fel yr awdurdod derbyn, yn cynnal rhestrau aros ar gyfer ysgolion sydd wedi'u gordanysgrifio. Yn achos pob cais, os yw rhieni/gofalwyr yn methu cael lle i'w plentyn/plant, cânt eu rhoi'n awtomatig ar y rhestr aros a chynigir cyfle iddynt fynd o flaen Panel Apeliadau Annibynnol. Cedwir enwau'r plant ar y rhestr aros am y flwyddyn academaidd gyfan a chânt eu dileu dim ond os ceir apêl lwyddiannus neu os yw rhiant yn cadarnhau'n ysgrifenedig nad yw'n dymuno i enw ei blentyn fod ar y rhestr aros bellach. Os daw lle ar gael, caiff ei ddyrannu gan yr ALl yn unol â'r meini prawf gordanysgrifio.

Ni fydd rhaid i'r ALl gydymffurfio ag unrhyw ddewis a fynegwyd fel arall ond yn unol â'i drefniadau'n unig.

**TREFNIADAU DERBYN 2023-2024 (Trosglwyddo yn ystod y Flwyddyn Ysgol)**

Yr Awdurdod Lleol, yr ALl, yw'r awdurdod derbyn ar gyfer holl ysgolion cymunedol (ysgolion a ariennir ac a gynhelir yn llwyr gan yr ALl) yr ardal.

**Derbyn i Ysgolion Cymunedol - (Cynradd ac Uwchradd)**

Bydd gofyn i rieni/ofalwyr sydd am gael lle mewn ysgol gyflwyno cais am le. Gall rhieni/gofalwyr naill ai wneud cais am le yn ysgol y dalgylch neu fynegi dewis am le mewn ysgol arall. Gellir darparu cefnogaeth i rieni y mae angen cymorth arnynt lle y bo angen. Caniateir ceisiadau os na fydd gwneud hynny'n:

- peryglu darparu addysg effeithlon neu'r defnydd effeithlon o adnoddau, ac
- ar gyfer ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol, bod yn anghydnaws â'r trefniadau derbyn y cytunwyd arnynt rhwng y Corff Llywodraethu a'r ALl.

**(a) Cyfyngiadau Derbyn – Ysgolion Cymunedol**

Penderfynir ar argaeledd lleoedd trwy gyfeirio at nifer derbyn yr ysgol. Gwrthodir lle i blentyn ar ôl cyrraedd y nifer derbyn. Os gwrthodir lle yn yr ysgol, mae'n rhaid rhoi hawl apelio i'r rhieni/gofalwyr hynny **(nid oes hawl i apelio ar gyfer y meithrin).**

Mae'r nifer derbyn yn berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Mae'r trefniadau hyn yn berthnasol i ddisgyblion sy'n trosglwyddo o'r dosbarth derbyn hyd at flwyddyn 11.

**(b) Meini Prawf Gorymgeisio - Ysgolion Cymunedol**

Os cafwyd mwy o geisiadau mewn ysgol na'r lleoedd sydd ar gael, bydd y drefn flaenoriaeth ganlynol yn berthnasol:

1. Plant y mae'r Awdurdod Lleol yn gofalu amdanynt, h.y. Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG), neu a oedd yn arfer derbyn gofal*.
2. Plant sy'n byw yn nalgylch penodol yr ysgol. Ni ellir gwarantu lle yn y dalgylch. Os bydd mwy o geisiadau na lleoedd, caiff y lleoedd eu dyrannu yn ôl pellter, gyda'r rhai sy'n byw agosaf i'r ysgol (y daith gerdded fyrraf) yn cael blaenoriaeth**.
3. Plant y mae eu brawd neu eu chwaer yn mynd i'r ysgol ar adeg eu derbyn.*** Os bydd mwy o geisiadau na lleoedd, caiff y lleoedd eu dyrannu yn ôl pellter, gyda'r rhai sy'n byw agosaf at yr ysgol (y daith gerdded fyrraf) yn cael blaenoriaeth**.
4. Plant sy’n mynd i ysgol gynradd bartner ddynodedig ond sy’n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol honno. Nid yw mynychu ysgol gynradd bartner yn gwarantu lle yn yr ysgol uwchradd gysylltiedig.
   Os bydd mwy o geisiadau na lleoedd, caiff lleoedd eu dyrannu yn ôl pellter, gyda'r rhai sy'n byw agosaf at yr ysgol (y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael) yn cael blaenoriaeth**.
5. Plant eraill y gwnaed cais am le drostynt nad yw meini prawf 1 i 4 uchod yn berthnasol iddynt. Os bydd mwy o geisiadau na lleoedd, caiff y lleoedd eu dyrannu yn ôl pellter, gyda'r rhai sy'n byw agosaf i'r ysgol (y daith gerdded fyrraf) yn cael blaenoriaeth**

* Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG), neu a oedd yn arfer derbyn gofal - mae plentyn sy'n derbyn gofal yn cyfeirio at blentyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yng Nghymru neu Loegr, (yn ôl diffiniad Adran 22 Deddf Plant 1989 ac Adran 74 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant [Cymru] 2014) ar yr adeg y cyflwynir cais i ysgol ac y mae'r awdurdod lleol wedi cadarnhau y bydd yn parhau i dderbyn gofal pan fydd yn cael mynediad i'r ysgol. Plant a oedd yn arfer derbyn gofal: plant nad ydynt yn derbyn gofal bellach gan eu bod wedi cael eu mabwysiadu, wedi bod yn destun gorchymyn preswyl neu orchymyn gwarcheidwadaeth arbennig yn syth ar ôl derbyn gofal (yn ôl diffiniad Côd Derbyniadau Ysgolion Llywodraeth Cymru, dogfen rhif 005/2013). Bydd angen darparu tystiolaeth ar gyfer holl geisiadau meini prawf PDG.

**Mesurir y pellter o'r tu allan i fynedfa'r eiddo (tŷ neu fflat) i fynedfa swyddogol agosaf yr ysgol. Defnyddir rhaglen gyfrifiadur GIS yr awdurdod lleol i fesur y pellter.

***Diffinnir brawd neu chwaer fel plentyn naturiol neu blentyn sydd wedi'i fabwysiadu'n gyfreithlon gan y naill riant neu'r llall sy'n byw yn yr un cyfeiriad. Mewn unrhyw sefyllfa pan fydd un lle ar gael ac mae'r plant cymwys nesaf ar gyfer y lle hwnnw'n efeilliaid/tripledi, bydd yr ALl yn

derbyn y ddau/tri phlentyn. Diffinnir oedran ysgol statudol fel disgyblion sydd rhwng 5 ac 16 oed (h.y. disgyblion mewn unrhyw grŵp blwyddyn rhwng ac yn cynnwys y dosbarth Derbyn a Blwyddyn 11.)

**Ni fydd** yr ALl yn darparu cludiant nac yn cyfrannu at gostau cludiant ar gyfer y plant sy'n cael eu derbyn o'r tu allan i ddalgylch penodol yr ysgol. Fodd bynnag, os yw grŵp blwyddyn ysgol y dalgylch yn llawn, darperir cludiant i'r ysgol agosaf â lle, os yw'r ysgol honno'nn fwy na 2 filltir o'r cartref ar gyfer ysgol gynradd neu 3 milltir ar gyfer ysgol uwchradd. Mae Polisi Cludiant i'r Ysgol yr ALl a gwybodaeth am gludiant i'r ysgol ar gael ar wefan y cyngor [www.abertawe.gov.uk/cludiantysgol](http://www.abertawe.gov.uk/cludiantysgol)

**Plant a chanddynt Anghenion Dysgu Ychwanegol**
Nid yw'r meini prawf gorymgeisio'n berthnasol i ddisgyblion y mae gan yr ALl Gynllun Datblygu Unigol (CDU) ar eu cyfer, lle mae'r ALl wedi enwi ysgol yn adran 2D.1 o'r CDU, neu Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig, ond amddiffynnir hawliau'r rhieni i fod yn rhan o leoli eu plant gan y gyfraith. Bydd yr ALl, mewn ymgynghoriad â rhieni/gofalwyr ac ysgolion, yn penderfynu ym mha ysgol y bydd yr addysg yn cael ei darparu. Mae'r ALl yn cadw'r hawl i enwi ysgol nad yw'n ysgol y dalgylch.

Mae gan ysgolion ddyletswydd i dderbyn plant â Chynllun Datblygu Unigol (CDU) lle mae'r ALl wedi enwi ysgol yn adran 2D.1 y CDU, neu Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig sydd wedi'u gosod mewn ysgol gan yr ALl ac mae'r disgyblion hyn yn cyfrif tuag at y nifer a dderbynnir hyd at y nifer derbyn, oni bai eu bod yn cael eu rhoi mewn Cyfleuster Addysgu Arbenigol â lleoedd cynlluniedig.

Roedd yr wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn yn gywir pan gafodd ei gyhoeddi, ond gellir ei diweddaru yn seiliedig ar gyngor/deddfwriaeth newydd yn cael ei gyhoeddi nad oedd ar gael pan gyhoeddwyd y ddogfen.

**Ysgolion a Gynorthwyir yn Wirfoddol**
Yn Abertawe mae gennym ysgolion eglwysig a Gynorthwyir yn Wirfoddol (sef ysgolion Catholig, ac ysgolion Yr Eglwys yng Nghymru). Penderfynir ar geisiadau i ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol drwy gyfeirio at y meini prawf derbyn a osodwyd gan y Corff Llywodraethu. Cyrff llywodraethu ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol sy'n gyfrifol am bennu eu trefniadau derbyn eu hunain.

**(c) Gweithdrefnau Derbyn - Ysgolion Cymunedol**

Gofynnir i rieni/ofalwyr wneud cais ar-lein am le i'w plentyn yn ysgol y dalgylch neu fynegi dewis ar gyfer lle mewn ysgol arall gan ddefnyddio ffurflen cais am dderbyn.

Caniateir ceisiadau am le os oes lleoedd ar gael yn ôl y nifer derbyn cyhoeddedig. Lle mae'r ceisiadau derbyn yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, dyrennir y lleoedd yn ôl meini prawf gorymgeisio'r ALl.

Dylid defnyddio'r prif gyfeiriad preswyl wrth gyflwyno cais. Ni ellir defnyddio cyfeiriadau sydd â chyfyngiadau ar ddeiliadaeth megis cabanau gwyliau a charafannau mewn parciau gwyliau sydd â chyfyngiadau tymhorol ar ddeiliadaeth fel cyfeiriad parhaol.

Ni fydd hawl awtomatig gan blant sy’n mynd i ddosbarth meithrin mewn ysgol i dderbyn addysg amser llawn yn yr un ysgol. Bydd angen i rieni/ofalwyr wneud cais
am le mewn dosbarth derbyn gyda'r ymgeiswyr eraill ar yr adeg briodol.

Nid yw mynd i'r meithrin mewn unrhyw ysgol yn gwarantu y bydd lle ar gael yn y dosbarth Derbyn.

Nid yw mynychu ysgol gynradd bartner yn gwarantu lle yn yr ysgol uwchradd gysylltiedig.
Nid oes sicrwydd y bydd lle ar gael mewn ysgol hyd yn oes os ydych yn symud i ddalgylch ysgol.

Ni phennir derbyniadau ar sail meini prawf dethol sy'n cynnwys sefyll profion, gweld adroddiadau ysgol neu gyfweld â disgyblion, gyda rhieni neu hebddynt, at ddiben asesu gallu neu ddawn.

Dylai rhieni/gofalwyr sy'n byw y tu hwn i Awdurdod Lleol Dinas a Sir Abertawe gyflwyno cais i'w hawdurdod lleol eu hunain (yr awdurdod lleol y maent yn talu treth y cyngor iddo) oherwydd, os bydd yr ysgol/ysgolion y cyflwynwyd cais amdanynt yn Abertawe’n derbyn gormod o geisiadau, ni fydd rhaid i'r ALl gynnig lle ar gyfer ysgol arall yn Abertawe.

**Hawl i Apelio**
Caiff rhieni/gofalwyr eu hysbysu'n ysgrifenedig a fu eu cais yn llwyddiannus. Os gwrthodwyd eu cais, hysbysir rhieni/gofalwyr drwy lythyr bod ganddynt hawl i apelio i Banel Apêl Annibynnol **(nid oes hawl i apelio ar gyfer y meithrin)**. Os byddant yn dewis arfer yr hawl honno, rhaid cyflwyno'r apêl i'r Uned Cefnogi Ysgolion yn y Ganolfan Ddinesig. Caiff yr apêl ei ystyried gan Banel Apêl Annibynnol sy'n cynnwys 3 i 5 person, sef pobl leyg a phobl â phrofiad o faes addysg.

**Sylwer:** Oherwydd uchafswm statudol maint dosbarthiadau, sef 30, prin iawn yw'r amgylchiadau lle gall apêl am le mewn dosbarth babanod (Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2) lwyddo. Amlinellir yr amgylchiadau cyfyngedig yn Atodiad C – pwynt C.4 o God Apelau Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru – Dogfen Rhif: 007/2013.

**Rhestrau Aros**
Mae'r ALl, fel yr awdurdod derbyn, yn cynnal rhestrau aros ar gyfer ysgolion sydd wedi'u gordanysgrifio.  Yn achos pob cais, os yw rhieni/gofalwyr yn methu cael lle i'w plentyn/plant, cânt eu rhoi'n awtomatig ar y rhestr aros a chynigir cyfle iddynt fynd o flaen Panel Apeliadau Annibynnol. Cedwir enwau'r plant ar y rhestr aros am y flwyddyn academaidd gyfan a chânt eu dileu dim ond os ceir apêl lwyddiannus neu os yw rhiant yn cadarnhau'n ysgrifenedig nad yw'n dymuno i enw ei blentyn fod ar y rhestr aros bellach. Os daw lle ar gael, caiff ei ddyrannu gan yr ALl yn unol â’r meini prawf gordanysgrifio.

Ni fydd rhaid i'r ALl gydymffurfio ag unrhyw ddewis a fynegwyd fel arall ond yn unol â'i drefniadau'n unig.

## Derbyniadau i'r chweched dosbarth - meini prawf ar gyfer mynediad

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau**
Gall disgyblion wneud cais am le mewn chweched dosbarth yn un o ysgolion Abertawe yn nhymor y gwanwyn ar gyfer y mis Medi canlynol. Pennir dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau gan ysgolion unigol.

**Cynnig Amodol**
Cynigir lle amodol i ddisgyblion yr ysgol. Bydd y lle dros dro hwn yn amodol ar gyflawni cymwysterau mynediad penodol fel a gyhoeddir gan bob ysgol unigol. Am ragor o wybodaeth am gymwysterau mynediad penodol, cysylltwch yn uniongyrchol â'r ysgol.

**Canlyniadau TGAU/cyfwerth**
Pan cyhoeddir canlyniadau TGAU, h.y. y trydydd dydd Iau ym mis Awst fel arfer, bydd angen i ddisgyblion unigol gysylltu â'r ysgol o'u dewis i gadarnhau eu canlyniadau TGAU neu gyfwerth.

**Dewis Pynciau**
Mae'n bosib y bydd myfyrwyr sydd wedi cyflawni graddau boddhaol mewn arholiadau TGAU neu gyfwerth yn derbyn cynnig cadarnhaol o le yn yr ysgol o'u dewis os bydd lleoedd ar gael. Fodd bynnag, dylid nodi efallai na fydd yn bosib astudio pob un o'r pynciau a ddewiswyd yn yr ysgol a ddewiswyd. Efallai y bydd angen i ddisgyblion wneud cysylltiad â chweched dosbarth mewn ysgol arall er mwyn astudio rhai pynciau.

Mae'n bosib y bydd myfyrwyr sydd wedi cyflawni graddau boddhaol mewn arholiadau TGAU neu gyfwerth ond nid ydynt yn gallu astudio'r holl bynciau o'u dewis yn yr ysgol o'u dewis yn cael cynnig dewis arall o'r pynciau sy'n cael eu haddysgu yn y lleoliad hwnnw. Fel arall, gall y disgyblion hynny chwilio am le mewn lleoliad arall, h.y. chweched dosbarth mewn ysgol arall yn Abertawe neu yng Ngholeg Gŵyr.

**Ni fydd gofyn i ddisgyblion gael cyfweliad mynediad.**

**Terfynau Mynediad - Chweched Dosbarth**
Gall pob ysgol â chweched dosbarth dderbyn hyd at ei uchafswm derbyn, yn amodol ar fyfyrwyr yn cyflawni'r gofynion mynediad penodol a nodwyd gan yr ysgol (ceir manylion gan ysgolion unigol). Mae'n rhaid rhoi hawl apelio i rieni a disgyblion y mae eu cais am le yn chweched dosbarth yr ysgol yn cael ei wrthod.

**Trefniadau Derbyn**
Rhoddir y cyfrifoldeb am y trefniadau ar gyfer blynyddoedd 12 a 13 mewn ysgolion cymunedol a gynhelir i'r sefydliadau'n uniongyrchol. Gellir gofyn am fanylion trefniadau derbyn ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol yn uniongyrchol gan y sefydliadau perthnasol a bydd y rhain yn rhan o'u polisïau derbyn.

**Rhestr Aros**
Os bydd gorysgrifio am leoedd mewn chweched dosbarth ac ni all yr ysgol fodloni'r galw am gyrsiau, caiff rhestr aros ei chynnal. Bydd ymgeiswyr sydd wedi bodloni'r meini prawf mynediad (gweler uchod) ond y mae eu cais am le wedi cael ei wrthod oherwydd prinder lle yn cael cyfle i roi eu henwau ar restr aros. Os daw lle/lleoedd ar gael, bydd disgyblion y mae eu henwau ar y rhestr aros yn cael cynnig lle yn unol â'r meini prawf gorymgeisio (gweler isod).

**Meini Prawf Gorymgeisio**
I ddisgyblion sy'n cyflawni'r cymwysterau mynediad penodol pan fo mwy o geisiadau wedi cael eu derbyn ar gyfer unrhyw chweched dosbarth na'r lleoedd sydd ar gael, caiff y drefn flaenoriaeth ganlynol ei dilyn:

1. Disgyblion y mae'r Awdurdod Lleol yn gofalu amdanynt (PDG) neu a oedd yn arfer derbyn gofal*.
2. Disgyblion sy'n byw o fewn dalgylch diffiniedig yr ysgol. Ni ellir gwarantu lle yn y dalgylch. Os bydd mwy o geisiadau na lleoedd, caiff y lleoedd eu dyrannu yn ôl pellter, gyda'r rhai sy'n byw agosaf i'r ysgol (y daith gerdded fyrraf) yn cael blaenoriaeth.**
3. Disgyblion y mae ganddynt frawd neu chwaer o oedran ysgol statudol** sy'n mynd i'r ysgol adeg eu derbyn ***. Os bydd mwy o geisiadau na lleoedd, caiff y lleoedd eu dyrannu yn ôl pellter, gyda'r rhai sy'n byw agosaf i'r ysgol (y daith gerdded fyrraf) yn cael blaenoriaeth **
4. Disgyblion a aeth i'r ysgol ym Mlwyddyn 11 ond sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol honno. Os bydd mwy o geisiadau na lleoedd, caiff y lleoedd eu dyrannu yn ôl pellter, gyda'r rhai sy'n byw agosaf i'r ysgol (y daith gerdded fyrraf) yn cael blaenoriaeth.**
5. Plant eraill y gwnaed cais am le drostynt nad yw meini prawf 1 i 4 uchod yn berthnasol iddynt. Os bydd mwy o geisiadau na lleoedd, caiff y lleoedd eu dyrannu yn ôl pellter, gyda'r rhai sy'n byw agosaf i'r ysgol (y daith gerdded fyrraf) yn cael blaenoriaeth.**

* Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG), neu a oedd yn arfer derbyn gofal - mae plentyn sy'n derbyn gofal yn cyfeirio at blentyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yn Nghymru neu Loegr, (yn ôl diffiniad Adran 22 Deddf Plant 1989 ac Adran 74 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant [Cymru] 2014) ar yr adeg y cyflwynir cais i ysgol ac y mae'r awdurdod lleol wedi cadarnhau y bydd yn parhau i dderbyn gofal pan fydd yn cael mynediad i'r ysgol. Plant a oedd yn arfer derbyn gofal: plant nad ydynt yn derbyn gofal bellach gan eu bod wedi cael eu mabwysiadu, wedi bod yn destun gorchymyn preswyl neu orchymyn gwarcheidwadaeth arbennig yn syth ar ôl derbyn gofal (yn ôl diffiniad Côd Derbyniadau Ysgolion Llywodraeth Cymru, dogfen rhif 005/2013). Bydd angen darparu tystiolaeth ar gyfer holl geisiadau meini prawf PDG.

**Mesurir pob llwybr gan gyfrifiadur gan ystyried y pellter o'r cartref i'r ysgol ar hyd y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael. Cymerir y mesuriadau o'r tu allan i fynedfa'r eiddo (tŷ neu fflat) i fynedfa swyddogol agosaf yr ysgol.

***Diffinnir brawd neu chwaer fel plentyn naturiol neu blentyn sydd wedi'i fabwysiadu'n gyfreithlon gan y naill riant neu'r llall sy'n byw yn yr un cyfeiriad. Mewn unrhyw sefyllfa pan fydd un lle ar gael ac mae'r disgyblion cymwys nesaf ar gyfer y lle hwnnw'n efeilliaid/tripledi, bydd yr ALI yn derbyn y ddau/tri phlentyn. Diffinnir oedran ysgol statudol fel disgyblion sydd rhwng 5 ac 16 oed (h.y. disgyblion mewn unrhyw grŵp blwyddyn rhwng ac yn cynnwys y dosbarth Derbyn a Blwyddyn 11.)

**SYLWER:** Efallai y bydd disgyblion a chanddynt Gynlluniau Datblygu Unigol (CDU) lle mae'r ALl wedi enwi ysgol yn adran 2D.1 y CDU neu Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig yn trosglwyddo i ddosbarthiadau'r chweched yn ysgolion Abertawe. Gwneir y penderfyniad ar drosglwyddo gan yr awdurdod lleol mewn ymgynghoriad â'r ysgol berthnasol. Roedd yr wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn yn gywir pan gafodd ei chyhoeddi, ond gellir ei newid, yn seiliedig ar gyngor/ddeddfwriaeth newydd yn cael ei gyhoeddi nad oedd ar gael pan gyhoeddwyd y ddogfen.

## Trefniadau Derbyn Ysgol Christchurch yr Eglwys yng Nghymru 2023-2024

Mae Ysgol a Gynorthwyir yn Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru Christchurch yn derbyn disgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Fel un o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru a gynorthwyir, mae corff llywodraethu'r ysgol yn gyfrifol am dderbyn disgyblion. Gellir casglu ffurflenni cais o'r ysgol. Dilynir amserlen dderbyn yr Awdurdod Lleol (ALl) ar gyfer dosbarthu, ystyried a dychwelyd y ffurflenni hyn.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu dderbyn disgyblion hyd at nifer derbyn yr ysgol, sef 16.

Bydd yr ysgol yn ystyried ceisiadau hwyr mewn achosion lle rhoddir rheswm derbyniol. Mae'r rhain yn cynnwys pan fo rhiant sengl wedi bod yn dost ers cryn amser, neu pan fo teulu newydd symud i'r ardal neu ddychwelyd o dramor, ar yr amod bod ceisiadau'n cael eu derbyn cyn cynnig lleoedd.

**Bydd rhieni'n derbyn hysbysiad ysgrifenedig o bob cais am le.**

Caiff disgyblion eu derbyn i'r Meithrin, sy'n rhan o'n dosbarth Blynyddoedd Cynnar, y diwrnod ar ôl eu trydydd pen-blwydd. Mae'r dosbarth Meithrin yn ddarpariaeth statudol; fodd bynnag, nid yw'n addysg orfodol. Nid yw derbyn plentyn i'r Meithrin yn sicrhau y caiff ei dderbyn i'r dosbarth Derbyn; os oes gan blentyn le yn ein dosbarth Meithrin, bydd rhaid cyflwyno'r ffurflen gais briodol am le yn y dosbarth Derbyn o fewn amserlen benodol y rownd dderbyn flynyddol.

Derbynnir disgyblion i'r dosbarth Derbyn ym mlwyddyn academaidd eu pumed pen-blwydd, h.y. gellir derbyn unrhyw blentyn sy'n cyrraedd 4 oed erbyn 31 Awst ym mis Medi.

Caiff “Plant sy'n Derbyn Gofal” eu blaenoriaethu. Yn achos prinder lle, bydd y llywodraethwyr yn derbyn disgyblion sy'n bodloni'r gofynion cyfreithiol a'r ddeddfwriaeth gyfredol orau.

Bydd plant o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr neu grwpiau teithiol yn cael eu trin yn unol â Chylchlythyr Rhif 003/2008 Llywodraeth Cynulliad Cymru, ‘Symud Ymlaen - Addysg i Sipsiwn-Teithwyr'

Ni fydd yr ysgol yn gwahaniaethu rhwng bechgyn a merched, neu yn erbyn ymgeiswyr ar sail hil, lliw croen, cenedligrwydd na tharddiad cenedlaethol neu ethnig.

Nifer derbyn yr ysgol yw: 16

**Meini Prawf Gorymgeisio**

Mae'r llywodraethwyr wedi cytuno ar ddefnyddio'r meini prawf canlynol yn y drefn isod pan fo nifer y ceisiadau'n fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, er mwyn penderfynu ar ba ddisgyblion i'w derbyn.

1) Plant sy'n derbyn gofal sy'n aelodau wedi bedyddio o'r Eglwys yng Nghymru
2) Plant eraill sy'n derbyn gofal
3) Plant y mae eu rhiant/rhieni yn aelodau o'r eglwys Anglicanaidd mewn gair a gweithred
    a. Yn derbyn bywoliaeth gan y Santes Fair, Abertawe.
    b. eglwysi/plwyfi yn Archddiaconiaeth Gŵyr.
4) Plant sydd â brawd neu chwaer sy'n ddisgybl wedi'i gofrestru yn yr ysgol ar y dyddiad pan fydd y plentyn sy'n destun y cais yn dechrau'r ysgol. (Gweler y troednodyn am ddiffiniad o 'frawd neu chwaer'.)
5) Plant y mae eu rhieni'n mynychu eglwys o enwad Cristnogol arall
6) Plant rhieni sy'n byw yn y plwyf (map ar gael)
7) Plant y mae eu rhieni'n dymuno iddynt fynd i'r ysgol hon.

Sylwer: derbynnir unrhyw blentyn y mae'r ysgol wedi'i enwi yn ei Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig cyn dilyn meini prawf gorymgeisio.

Ar gyfer **meini prawf 3 a 5**, bydd y llywodraethwyr yn gofyn am wybodaeth am ba mor aml mae'r rhieni'n mynd i wasanaethau eglwys a'u cyfraniad at waith yr eglwys a byddant yn ceisio cadarnhad o'r manylion hyn gan yr offeiriad neu'r gweinidog lleol ar ffurflen ategol sydd ynghlwm wrth y ffurflen hon.

O fewn pob categori rhoddir y flaenoriaeth uchaf i'r rhai sy'n byw agosaf at yr ysgol. Caiff y pellter i'r ysgol ei fesur mewn llinell syth o brif fynedfa'r cartref teuluol i brif gât yr ysgol.
Os yw'r pellterau'n gyfartal, er enghraifft fflat mewn bloc o anheddau sy'n rhannu'r un fynedfa flaen, gwahaniaethir yn ôl lefel y llawr.

**Diffiniadau**

**Diffiniad o Rieni**

Mae 'rhieni' yn cynnwys yr holl bobl sydd â chyfrifoldeb magu plant am blentyn fel a nodir yn Neddf Plant 1989. Lle y 'rhennir' cyfrifoldeb am blentyn, ystyrir mai'r person sy'n derbyn Budd-dal Plant yw'r person sy'n gyfrifol am gwblhau ffurflenni cais ac y caiff ei gyfeiriad ei ddefnyddio at ddibenion gweinyddol.

**Diffiniad o frawd neu chwaer**

Ar gyfer ceisiadau a wneir yn y rownd dderbyn arferol, brawd neu chwaer perthnasol yw plentyn y mae ganddo frawd, chwaer, llysfrawd neu lyschwaer neu sy'n blentyn maeth yn byw yn yr un uned deuluol yn yr un aelwyd a chyfeiriad teuluol sy'n mynd i'r ysgol o ddewis mewn unrhyw grŵp blwyddyn ac eithrio'r flwyddyn olaf. Hefyd bydd brodyr a chwiorydd biolegol sy'n mynd i'r ysgol o ddewis mewn unrhyw grŵp blwyddyn ac eithrio'r flwyddyn olaf yn cael eu trin fel brodyr a chwiorydd, ble bynnag yw eu preswylfa.
Ni fydd plant sy'n byw yn yr un aelwyd fel rhan o deulu estynedig, megis cefndryd, yn cael eu trin fel brodyr a chwiorydd.

**'Byw yn' a 'Chyfeiriad Cartref'**

Cyfeiriad y cartref fydd y cyfeiriad a ddefnyddir ar gyfer gohebiaeth sy'n gysylltiedig â lle caiff "Budd-dal Plant" ei dalu. Mewn achosion lle mae amheuaeth ynglŷn â chyfeiriad y cartref neu pan fo plentyn yn byw rhwng dau gartref (teuluoedd hollt) neu amgylchiadau perthnasol eraill, mae'n rhaid darparu prawf o Gyfeiriad y Cartref i'r ysgol er mwyn cadarnhau'r cyfeiriad a ddefnyddir ar y ffurflen gais. Cyfeiriad y cartref fydd y cyfeiriad sy'n cydymffurfio â'r uchod ar ddyddiad cau ceisiadau a bennir gan yr Awdurdod Lleol. Dylai teuluoedd sy'n bwriadu symud tŷ ddarparu:

i) llythyr cyfreithiwr sy'n cadarnhau bod contractau wedi'u cyfnewid ynglŷn â phrynu eiddo; neu
ii) copi o'r Cytundeb Rhentu cyfredol, wedi'i lofnodi gan y tenantiaid a'r landlord, gan ddangos cyfeiriad yr eiddo; neu
iii) yn achos personél cyfredol Lluoedd EM, llythyr swyddogol yn cadarnhau dyddiad eu lleoli gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, Y Swyddfa Dramor a Chymanwlad neu Bencadlys Cyfathrebu Llywodraeth y DU.

**Gefeilliaid, Tripledi, Genedigaethau Lluosog**

Pan fo'r corff llywodraethu'n ystyried gefeilliaid, tripledi neu enedigaethau lluosog eraill ar gyfer un lle sy'n weddill, caiff y lle ei gynnig i'r teulu a gallant benderfynu (a) a fyddant yn ei dderbyn ar gyfer un o'r plant, p'un bynnag y byddant yn ei ddewis, neu (b) a fyddant yn ei wrthod a chaiff ei gynnig i'r person nesaf yn y dyraniad ar ôl y gefeilliaid/tripledi/genedigaethau lluosog. Sylwer na fyddai blaenoriaeth yn cael ei rhoi i frawd/chwaer lluosog yn y broses dderbyn heblaw am ei (h)ystyried fel cyswllt brawd/chwaer ar ôl i'r teulu dderbyn y lle(oedd) a gynigir ar gyfer un o'r gefeilliaid/tripledi/genedigaethau lluosog.

**Rhestr Aros**

Cynhelir rhestr aros ar gyfer yr ysgol yn achos gorymgeisio. Ar ôl dyrannu lleoedd yn ystod y rownd dderbyn arferol, bydd plant yn aros ar y rhestr aros tan 31 Awst yn y flwyddyn academaidd y gwnaeth gais ynddi. Os daw lleoedd ychwanegol ar gael pan fo'r rhestr aros ar waith, cânt eu dyrannu i blant ar y rhestr aros yn ôl y meini prawf gorymgeisio uchod.

**Sut y profir ymlyniad crefyddol**

**Cyfeiriadau at "yn aelodau" ac "aelodau gweithredol" yn ôl meini prawf gorymgeisio**

Os ydych yn gwneud cais yn unol â meini prawf 3 a 5 uchod, gellir casglu **Ffurflen Gwybodaeth Ategol** yn uniongyrchol o'r ysgol. Dylid dychwelyd y ffurflen hon i'r ysgol. Nid yw'r Ffurflen Gwybodaeth Ategol yn gais ar ei phen ei hun; mae'n rhaid i rieni gwblhau'r Ffurflen Gais Gyffredin hefyd. Diffinnir 'aelod' fel aelod o'r Eglwys yng Nghymru trwy gofrestru ar gofrestr etholiadol y plwyf.

**Apeliadau Derbyn**

Mae addysg feithrin yn ddarpariaeth statudol ond nid oes hawl apelio gan rieni o dan Ddeddf Addysg 1980 os nad ydynt yn llwyddiannus yn eu cais am le. Nid yw derbyn plentyn i'r dosbarth meithrin yn sicrhau y caiff ei dderbyn i'r ysgol.

Os nad ydym yn cynnig lle i blentyn yn yr ysgol hon, mae oherwydd y byddai'r cynnydd yn nifer y disgyblion yn amharu ar addysg y disgyblion sydd eisoes yn yr ysgol. Mae gan rieni'r hawl i apelio os nad ydynt yn fodlon ar benderfyniad y corff llywodraethu i beidio â derbyn plentyn. Os ydych yn dewis defnyddio'r hawl honno, mae'n rhaid i chi gyflwyno'r apêl i glerc llywodraethwyr yr ysgol.

Caiff yr apêl ei hystyried gan Banel Apeliadau Derbyn annibynnol, a weinyddir gan Fwrdd Addysg yr Esgobaeth, yn unol â chôd ymarfer Llywodraeth Cynulliad Cymru ar apeliadau derbyn. Yna bydd y Panel Apeliadau'n cynnal cyfarfod i ystyried yr holl apeliadau gan rieni y gwrthodwyd lle yn yr ysgol i'w plant. Mae'r penderfyniad yn rhwymol i bob parti perthnasol.

**Adolygu**

Yn unol â'r Cynllun Datblygu Ysgol, caiff y polisi hwn ei adolygu bob dwy flynedd neu'n gynt os bydd unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth neu amgylchiadau lleol.

**Ysgol Gynradd Gatholig Dewi Sant - Trefniadau Derbyn 2023-2024**

Caiff Ysgol Gynradd Gatholig Dewi Sant yn Esgobaeth Mynyw, ei chynnal gan Awdurdod Lleol Dinas a Sir Abertawe.

Sefydlwyd Ysgol Gynradd Gatholig Dewi Sant gan yr Eglwys Gatholig i ddarparu addysg i blant o deuluoedd Catholig. Pan fydd mwy o geisiadau na'r lleoedd sydd ar gael, bydd blaenoriaeth bob tro'n cael ei rhoi i blant Catholig yn unol â'r meini prawf gorymgeisio a restrir isod. Gweinyddir yr ysgol gan ei chorff llywodraethu fel rhan o'r Eglwys Gatholig yn unol â'i gweithred ymddiriedolaeth a'i hofferyn llywodraethu, ac mae bob amser yn ceisio tystiolaethu i Iesu Grist.

Fel Ysgol Gatholig ein bwriad yw darparu addysg Gatholig i'n holl ddisgyblion. Mewn Ysgol Gatholig, mae athrawiaeth ac arfer Catholig yn treiddio drwy bob agwedd ar weithgaredd yr ysgol. Mae'n hanfodol bod cymeriad Catholig yr ysgol yn cael ei gefnogi'n llwyr gan holl deuluoedd yr ysgol. Disgwylir felly i bob rhiant ddangos cefnogaeth lawn, agored a chadarnhaol i nodau ac ethos yr ysgol. Nid yw hyn yn effeithio ar hawl rhiant nad yw'n dilyn y ffydd i gyflwyno cais am le i'w blentyn yn yr ysgol.

Y corff llywodraethu yw'r awdurdod derbyn, ac mae'n gyfrifol am benderfynu ar dderbyniadau i'r ysgol hon. Yr awdurdod lleol sy'n ymgymryd â chydlynu trefniadau derbyn. Mae'r corff llywodraethu wedi pennu rhif derbyn o 30 o ddisgyblion i ddosbarth Derbyn yr ysgol ar gyfer y flwyddyn ysgol nesaf sy'n cychwyn ym mis Medi 2023.

Darpariaeth Feithrin:
Mae rhieni plant sy’n mynd i’r dosbarth meithrin yn disgwyl i’w plant fynd ymlaen i addysg amser llawn, ac yn y rhan fwyaf o achosion, dyma sy'n digwydd. Fodd bynnag, dylai rhieni fod yn ymwybodol cyn i'w plant ddechrau'r ysgol (Dosbarth Derbyn) amser llawn y bydd y polisi isod yn cael ei ddilyn bob blwyddyn. Y rheswm am hyn yw bod addysg feithrin yn anstatudol, ac ni ellir ei ddefnyddio fel ffordd o flaenoriaethu plant ar gyfer mynediad i ysgol yn llawn amser. Bydd cais ar wahân fod yn angenrheidiol i wneud cais am le yn y dosbarth Derbyn ar yr adeg briodol.

**Ysgol Gynradd Gatholig Dewi Sant**
**Meini prawf gorymgeisio**

*Os yw nifer y ceisiadau'n fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd y meini prawf gorymgeisio canlynol yn cael eu cymhwyso yn y drefn ganlynol:*

1) Pob plentyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol ar hyn o bryd neu sydd wedi derbyn gofal ganddo.
2) Plant â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig lle mae'r awdurdod lleol wedi enwi Ysgol Gynradd Gatholig Dewi Sant yn y datganiad.
3) a. Pob plentyn sydd wedi'i fedyddio'n Gatholig a phlant catecwmenawd sy'n byw yn nalgylch yr ysgol y bydd ganddynt frawd neu chwaer sy'n mynychu'r ysgol pan fyddant yn ymuno - gweler y nodiadau am arweiniad.
   b. Pob plentyn sydd wedi'i fedyddio'n Gatholig a phlant catecwmenawd sy'n byw yn nalgylch yr ysgol - gweler y nodiadau am arweiniad.

4) Pob plentyn sydd wedi'i fedyddio yn yr Eglwys Uniongred Gristnogol ac sy'n byw yn nalgylch yr ysgol - gweler y nodiadau am arweiniad ar gyfer plant Catholig eraill.
5) Ymgeiswyr y mae ganddynt frodyr a chwiorydd nad ydynt wedi'u bedyddio'n Gatholigion ac sydd ar y gofrestr yn y flwyddyn dderbyn.
6) Disgyblion Catholig o'r tu allan i'r dalgylch.
7) Plant o enwadau Cristnogol eraill neu blant o ffydd neu grefyddau eraill sydd am gael addysg o fewn cyd-destun Catholig (gweler y nodiadau).
8) Plant y mae eu rhieni'n awyddus iddynt gael addysg Gatholig.

**NODIADAU**
Diffinnir brawd neu chwaer fel plentyn naturiol neu blentyn sydd wedi'i fabwysiadu'n gyfreithlon gan y naill riant neu'r llall sy'n byw yn yr un cyfeiriad. Mewn unrhyw sefyllfa pan fydd un lle ar gael ac mae'r plant cymwys nesaf ar gyfer y lle hwnnw'n efeilliaid/tripledi, bydd yr AALl yn derbyn y ddau/tri phlentyn.

**'Byw yn' a 'Chyfeiriad Cartref'**
Cyfeiriad y cartref fydd y cyfeiriad a ddefnyddir ar gyfer gohebiaeth sy'n gysylltiedig â lle caiff "Budd-dal Plant" ei dalu. Mewn achosion lle mae amheuaeth ynglŷn â chyfeiriad y cartref neu pan fo plentyn yn byw rhwng dau gartref (teuluoedd hollt) neu amgylchiadau perthnasol eraill, mae'n rhaid darparu prawf o Gyfeiriad y Cartref i'r ysgol er mwyn cadarnhau'r cyfeiriad a ddefnyddir ar y ffurflen gais. Cyfeiriad y cartref fydd y cyfeiriad sy'n cydymffurfio â'r uchod ar ddyddiad cau ceisiadau a bennir gan yr awdurdod lleol. Dylai teuluoedd sy'n bwriadu symud tŷ ddarparu:

i) llythyr cyfreithiwr sy'n cadarnhau bod contractau wedi'u cyfnewid ynglŷn â phrynu eiddo; neu
ii) copi o'r cytundeb rhentu cyfredol, wedi'i lofnodi gan y tenantiaid a'r landlord, sy'n dangos cyfeiriad yr eiddo; neu
iii) yn achos personél cyfredol Lluoedd EM, llythyr swyddogol yn cadarnhau dyddiad eu lleoli gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, Y Swyddfa Dramor a Chymanwlad neu Bencadlys Cyfathrebu Llywodraeth y DU.

**Rhestr Aros**
Cynhelir rhestr aros ar gyfer yr ysgol yn achos gorymgeisio. Ar ôl dyrannu lleoedd yn ystod y rownd dderbyn arferol, bydd plant yn aros ar y rhestr aros tan 30 Medi yn y flwyddyn ysgol y maent wedi cyflwyno'u cais. Os daw lleoedd ychwanegol ar gael pan fo'r rhestr aros ar waith, cânt eu dyrannu i blant ar y rhestr aros yn ôl y meini prawf gorymgeisio uchod.

**Sut y profir ymlyniad crefyddol**
Os ydych yn gwneud cais dan feini prawf 3, 4, 6, a 7 cwblhewch y Ffurflen Gais Cyffredin.
Diffinnir aelod fel aelod o'r Eglwys yng Nghymru trwy gofrestru ar gofrestr etholiadol y plwyf.

**Apeliadau derbyn**
Mae addysg feithrin yn ddarpariaeth anstatudol ond nid oes hawl apelio gan rieni o dan Ddeddf Addysg 1980 os nad ydynt yn llwyddiannus yn eu cais am le. Nid yw derbyn plentyn i'r dosbarth meithrin yn sicrhau y caiff ei dderbyn i'r ysgol. Y pennaeth sy'n gyfrifol am benderfynu a ddylid dyrannu lle yn y bore neu'r prynhawn. Ar gyfer plant sydd wedi derbyn lle yn y dosbarth meithrin bydd rhaid cyflwyno cais ar gyfer lle yn y dosbarth Derbyn ar yr adeg briodol.
Ar gyfer rhieni sy'n gwneud cais am le i'w plentyn/plant yn y dosbarth Derbyn neu unrhyw ddosbarth arall nad ydynt yn derbyn cynnig am le yn yr ysgol hon, y rheswm am hyn yw y byddai'r cynnydd mewn niferoedd yn effeithio ar addysg ein disgyblion presennol. Mae gan rieni'r hawl i apelio os nad ydynt yn fodlon ar benderfyniad y corff llywodraethu i beidio â derbyn plentyn. Os ydych yn dewis defnyddio'r hawl honno, mae'n rhaid i chi gyflwyno'r apêl i glerc llywodraethwyr yr ysgol.
Caiff yr apêl ei hystyried gan Banel Apeliadau Derbyn annibynnol, a weinyddir gan Fwrdd Addysg yr Esgobaeth, yn unol â chôd ymarfer Llywodraeth Cymru ar apeliadau derbyn. Yna bydd y Panel Apeliadau'n cynnal cyfarfod i ystyried yr holl apeliadau gan rieni y gwrthodwyd lle yn yr ysgol i'w plant. Mae'r penderfyniad yn rhwymol i bob parti perthnasol. Os yw plant nad ydynt yn Gatholigion yn cael eu croesawu i'r ysgol, mae disgwyl iddynt gymryd rhan yn llawn ym mywyd ysbrydol a gweddïol yr ysgol.
Os yw nifer y ceisiadau mewn unrhyw gategori unigol yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, caiff lleoedd eu dyrannu yn ôl pellter, gan roi blaenoriaeth i'r rhai sy'n byw'n agosaf (y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael) at yr ysgol. Mesurir y pellter o'r palmant y tu allan i brif fynedfa'r eiddo (tŷ neu fflat), i fynedfa swyddogol agosaf yr ysgol. Caiff rhaglen mapio cyfrifiadurol awtomatig yr awdurdod lleol (ONE system) ei defnyddio i fesur ac mae'n mesur y pellter o'r cartref i'r ysgol ar hyd y llwybr byrraf.
Os yw cais am le yn cael ei wrthod, bydd hawl gan rieni'r plentyn hwnnw i gyflwyno apêl i Banel Apeliadau Annibynnol. Bydd y llythyr gwrthod a anfonir atoch yn cynnwys manylion am sut i apelio yn erbyn ein penderfyniad.

**Nodiadau arweiniol**
Caiff Bedydd Catholig ei wirio drwy weld tystysgrif bedydd y plentyn wedi'i llofnodi gan Offeiriad y Plwyf. Os nad yw hyn ar gael, gofynnir i rieni gyflwyno tystiolaeth e.e. llythyr gan Offeiriad y Plwyf.
Cristnogion Uniongred (Groegaidd, Rwsiaidd, Indiaidd): Mae ganddynt berthynas agosach â'r Eglwys Gatholig trwy eu Hysgrythur a'u Traddodiad nag unrhyw enwadau Cristnogol eraill, sy'n esbonio'u categori uwch a gwirir hyn drwy weld Tystysgrif Bedydd y plentyn wedi'i llofnodi gan yr Offeiriad.
Enwadau Cristnogol eraill neu blant o ffydd neu grefyddau eraill sy'n ceisio addysg o fewn cyd-destun Catholig. Caiff Aelodau o Enwadau Cristnogol eraill (y rheini y cydnabyddir eu defod bedydd gan yr Eglwys Gatholig) neu blant o ffydd neu grefyddau eraill eu gwirio trwy lythyr oddi wrth y clerigwyr, y gweinidog neu'r arweinydd ffydd priodol.

**Diffiniad o Frawd/Chwaer**
Plant y mae ganddynt frawd neu chwaer ar y gofrestr yn Ysgol Gynradd Gatholig Dewi Sant yn y mis Medi pan fyddai'r ymgeisydd yn dechrau'r ysgol. Os oes angen, rhoddir y flaenoriaeth uchaf i'r ymgeisydd â'r brawd neu chwaer ieuengaf. (Er enghraifft, mae brawd yn Bl6 gan Mary ac mae chwaer yn Bl1 gan Jane. Os mai un lle sydd ar gael ac os bydd yr holl feini prawf eraill yn gyfartal, cynigir lle i Jane oherwydd bod ei chwaer yn iau.) Dylid nodi perthynas unrhyw frodyr neu chwiorydd yn glir yn y cais. At ddibenion derbyn, brawd neu chwaer

yw plentyn sy'n frawd neu'n chwaer lle mae'r ddau blentyn yn perthyn drwy briodas. Mae'r diffiniad hwn hefyd yn cynnwys plant a fabwysiadwyd neu a faethwyd sy'n byw yn yr un cyfeiriad.

**Nifer Derbyn**
Dyma'r nifer uchaf o blant y gallwn eu derbyn mewn unrhyw grŵp blwyddyn. Caiff ei gyfrifo yn ôl arweiniad Llywodraeth Cymru "Mesur capasiti Ysgolion yng Nghymru." Y rhif mynediad yw 30.

**Gwarcheidwaeth a Rennir**
Yn achos plentyn sydd, drwy amgylchiadau teuluol, yn byw gyda rhieni neu warchodwyr gwahanol mewn dau gyfeiriad yn ystod yr wythnos ysgol, bernir mai cyfeiriad y gofalwr sy'n bennaf gyfrifol am y plentyn yn ystod yr wythnos ysgol fydd cyfeiriad y plentyn. Byddwn yn defnyddio'r cyfeiriad hwn ar gyfer penderfyniadau ynglŷn â derbyniadau. (Er enghraifft, mae David yn byw gyda'i fam ar ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener; ac mae'n byw gyda'i dad ar ddydd Mawrth a dydd Iau. Cyfeiriad y fam a ddefnyddir fel cyfeiriad David.)

**Plentyn Sy'n Derbyn Gofal**
Diffinnir plentyn sy'n derbyn gofal fel plentyn yng ngofal yr awdurdod lleol yn unol ag Adran 22 Deddf Plant 1989 ac unrhyw ddeddfwriaeth dilynol.

**Rhestrau Aros**
Os caiff cais plentyn am le yn y Dosbarth Derbyn ei wrthod oherwydd gorymgeisio, bydd ei gais yn cael ei gadw ar ffeil mewn rhestr aros tan 30 Medi yn y flwyddyn dderbyn (h.y. un mis ar ôl i'r ysgol ddechrau). Os daw lle ar gael, caiff ei gynnig i'r plentyn sydd ar frig y rhestr meini prawf goralw'n gyntaf, yna caiff ei gynnig i blant sy'n is ar y rhestr nes dyrannu'r lle. Am 3.20pm ar 30 Medi, caiff unrhyw geisiadau sydd ar y rhestr aros eu dileu. Ni fydd rhestr aros gan unrhyw grŵp blwyddyn arall. Caiff unrhyw geisiadau am le yn yr ysgol gan grwpiau blwyddyn eraill (a phlant y Dosbarth Derbyn ar ôl 30 Medi) eu hystyried ar wahân wrth iddynt gael eu cyflwyno a'u derbyn.

**Ceisiadau Hwyr**. Caiff yr holl geisiadau a gwblheir eu hystyried ar yr un pryd, felly nid oes mantais i rieni sy'n cyflwyno cais yn gynnar. Fodd bynnag, os na fyddwch yn cyflwyno cais erbyn y dyddiad cau, caiff ei ystyried ar ôl yr holl geisiadau eraill a anfonwyd ar amser. Erbyn i geisiadau hwyr gael eu hystyried efallai bydd holl leoedd yr ysgol wedi cael eu dyrannu, hyd yn oed os ydych yn byw yn nalgylch yr ysgol ac yn bodloni'r holl feini prawf mynediad.

## Ysgol Gynradd Gadeiriol San Joseff - Trefniadau Derbyn 2023-2024

Caiff Ysgol Gynradd Gadeiriol San Joseff yn Esgobaeth Mynyw, ei chynnal gan Awdurdod Lleol Dinas a Sir Abertawe.

Sefydlwyd Ysgol Gynradd Gadeiriol San Joseff gan yr Eglwys Gatholig i ddarparu addysg i blant o deuluoedd Catholig. Pan fydd mwy o geisiadau na'r lleoedd sydd ar gael, bydd blaenoriaeth bob tro'n cael ei rhoi i blant Catholig yn unol â'r meini prawf gorymgeisio a restrir isod. Gweinyddir yr ysgol gan ei chorff llywodraethu fel rhan o'r Eglwys Gatholig yn unol â'i gweithred ymddiriedolaeth a'i hofferyn llywodraethu, ac mae bob amser yn ceisio tystiolaethu i Iesu Grist.

Fel Ysgol Gatholig ein bwriad yw darparu addysg Gatholig i'n holl ddisgyblion. Mewn Ysgol Gatholig, mae athrawiaeth ac arfer Catholig yn treiddio drwy bob agwedd ar weithgaredd yr ysgol. Mae'n hanfodol bod cymeriad Catholig yr ysgol yn cael ei gefnogi'n llwyr gan holl deuluoedd yr ysgol. Disgwylir felly i bob rhiant ddangos cefnogaeth lawn, agored a chadarnhaol i nodau ac ethos yr ysgol. Nid yw hyn yn effeithio ar hawl rhiant nad yw'n dilyn y ffydd i gyflwyno cais am le i'w blentyn yn yr ysgol.

Y corff llywodraethu yw'r awdurdod derbyn, ac mae'n gyfrifol am benderfynu ar dderbyniadau i'r ysgol hon. Yr awdurdod lleol sy'n ymgymryd â chydlynu trefniadau derbyn. Mae'r corff llywodraethu wedi pennu rhif derbyn o 60 o ddisgyblion i ddosbarth Derbyn yr ysgol ar gyfer y flwyddyn ysgol nesaf sy'n cychwyn ym mis Medi 2023.

Bydd y corff llywodraethu'n derbyn gefeilliaid a phob brawd a chwaer o'r genedigaethau lluosog os mai un o'r plant yma yw'r 60fed plentyn i gael lle.

**Meini prawf gorymgeisio**
*Os yw nifer y ceisiadau'n fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd y meini prawf gorymgeisio canlynol yn cael eu cymhwyso yn y drefn ganlynol:*

1) Pob plentyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol ar hyn o bryd neu sydd wedi derbyn gofal ganddo.
2) Plant â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig lle mae'r awdurdod lleol wedi enwi Ysgol Gynradd Gadeiriol San Joseff yn y datganiad.
3) a. Pob plentyn sydd wedi'i fedyddio'n Gatholig a phlant catecwmenawd sy'n byw yn nalgylch yr ysgol y bydd ganddynt frawd neu chwaer sy'n mynychu'r ysgol pan fyddant yn ymuno - gweler y nodiadau am arweiniad.
   b. Pob plentyn sydd wedi'i fedyddio'n Gatholig a phlant catecwmenawd sy'n byw yn nalgylch yr ysgol - gweler y nodiadau am arweiniad.
4) Pob plentyn sydd wedi'i fedyddio yn yr Eglwys Uniongred Gristnogol ac sy'n byw yn nalgylch yr ysgol - gweler y nodiadau am arweiniad ar gyfer plant Catholig eraill.
5) Ymgeiswyr y mae ganddynt frodyr a chwiorydd nad ydynt wedi'u bedyddio'n Gatholigion ac sydd ar y gofrestr yn y flwyddyn dderbyn.
6) Disgyblion Catholig o'r tu allan i'r dalgylch.

7) Plant o enwadau Cristnogol eraill neu blant o ffydd neu grefyddau eraill sydd am gael addysg o fewn cyd-destun Catholig (gweler y nodiadau).
8) Plant y mae eu rhieni'n awyddus iddynt gael addysg Gatholig.

**NODIADAU**
Diffinnir brawd neu chwaer fel plentyn naturiol neu blentyn sydd wedi'i fabwysiadu'n gyfreithlon gan y naill riant neu'r llall sy'n byw yn yr un cyfeiriad. Mewn unrhyw sefyllfa pan fydd un lle ar gael ac mae'r plant cymwys nesaf ar gyfer y lle hwnnw'n efeilliaid/tripledi, bydd y Corff Llwyodraethol yn derbyn y ddau/tri phlentyn.

‘Byw yn’ a ‘Chyfeiriad Cartref’
Cyfeiriad y cartref fydd y cyfeiriad a ddefnyddir ar gyfer gohebiaeth sy'n gysylltiedig â lle caiff “Budd-dal Plant” ei dalu. Mewn achosion lle mae amheuaeth ynglŷn â chyfeiriad y cartref neu pan fo plentyn yn byw rhwng dau gartref (teuluoedd hollt) neu amgylchiadau perthnasol eraill, mae'n rhaid darparu prawf o Gyfeiriad y Cartref i'r ysgol er mwyn cadarnhau'r cyfeiriad a ddefnyddir ar y ffurflen gais. Cyfeiriad y cartref fydd y cyfeiriad sy'n cydymffurfio â'r uchod ar ddyddiad cau ceisiadau a bennir gan yr awdurdod lleol. Dylai teuluoedd sy'n bwriadu symud tŷ ddarparu:

i) llythyr cyfreithiwr sy'n cadarnhau bod contractau wedi'u cyfnewid ynglŷn â phrynu eiddo; neu
ii) copi o'r cytundeb rhentu cyfredol, wedi'i lofnodi gan y tenantiaid a'r landlord, sy'n dangos cyfeiriad yr eiddo; neu
iii) yn achos personél cyfredol Lluoedd EM, llythyr swyddogol yn cadarnhau dyddiad eu lleoli gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, Y Swyddfa Dramor a Chymanwlad neu Bencadlys Cyfathrebu Llywodraeth y DU.

**Rhestr Aros**
**Cynhelir rhestr aros ar gyfer yr ysgol yn achos gorymgeisio. Ar ôl dyrannu lleoedd yn ystod y rownd dderbyn arferol, bydd plant yn aros ar y** rhestr aros tan 30 Medi yn y flwyddyn ysgol y maent wedi cyflwyno'u cais. Os daw lleoedd ychwanegol ar gael pan fo'r rhestr aros ar waith, cânt eu dyrannu i blant ar y rhestr aros yn ôl y meini prawf gorymgeisio uchod.

Sut y profir ymlyniad crefyddol
Os ydych yn gwneud cais dan feini prawf 3, 4, 6, a 7 cwblhewch y Ffurflen Gais Cyffredin. Diffinnir aelod fel aelod o'r Eglwys yng Nghymru trwy gofrestru ar gofrestr etholiadol y plwyf.

Apeliadau derbyn
Mae addysg feithrin yn ddarpariaeth anstatudol ond nid oes hawl apelio gan rieni o dan Ddeddf Addysg 1980 os nad ydynt yn llwyddiannus yn eu cais am le. Nid yw derbyn plentyn i'r dosbarth meithrin yn sicrhau y caiff ei dderbyn i'r ysgol. Y pennaeth sy'n gyfrifol am benderfynu a ddylid dyrannu lle yn y bore neu'r prynhawn. Ar gyfer plant sydd wedi derbyn lle yn y dosbarth meithrin bydd rhaid cyflwyno cais ar gyfer lle yn y dosbarth Derbyn ar yr adeg briodol. Ar gyfer rhieni sy'n gwneud cais am le i'w plentyn/plant yn y dosbarth Derbyn neu unrhyw ddosbarth arall nad ydynt yn derbyn cynnig am le yn yr ysgol hon, y rheswm am hyn yw y byddai'r cynnydd mewn niferoedd yn effeithio ar addysg ein

disgyblion presennol. Mae gan rieni'r hawl i apelio os nad ydynt yn fodlon ar benderfyniad y corff llywodraethu i beidio â derbyn plentyn. Os ydych yn dewis defnyddio'r hawl honno, mae'n rhaid i chi gyflwyno'r apêl i glerc llywodraethwyr yr ysgol.

Caiff yr apêl ei hystyried gan Banel Apeliadau Derbyn annibynnol, a weinyddir gan Fwrdd Addysg yr Esgobaeth, yn unol â chôd ymarfer Llywodraeth Cymru ar apeliadau derbyn. Yna bydd y Panel Apeliadau'n cynnal cyfarfod i ystyried yr holl apeliadau gan rieni y gwrthodwyd lle yn yr ysgol i'w plant. Mae'r penderfyniad yn rhwymol i bob parti perthnasol.
Os yw plant nad ydynt yn Gatholigion yn cael eu croesawu i'r ysgol, mae disgwyl iddynt gymryd rhan yn llawn ym mywyd ysbrydol a gweddïol yr ysgol.

Os yw nifer y ceisiadau mewn unrhyw gategori unigol yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, caiff lleoedd eu dyrannu yn ôl pellter, gan roi blaenoriaeth i'r rhai sy'n byw'n agosaf (y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael) at yr ysgol. Mesurir y pellter o'r palmant y tu allan i brif fynedfa'r eiddo (tŷ neu fflat), i fynedfa swyddogol agosaf yr ysgol. Caiff rhaglen mapio cyfrifiadurol awtomatig yr awdurdod lleol (ONE system) ei defnyddio i fesur ac mae'n mesur y pellter o'r cartref i'r ysgol ar hyd y llwybr byrraf.

Os yw cais am le yn cael ei wrthod, bydd hawl gan rieni'r plentyn hwnnw i gyflwyno apêl i Banel Apeliadau Annibynnol. Bydd y llythyr gwrthod a anfonir atoch yn cynnwys manylion am sut i apelio yn erbyn ein penderfyniad.

**Nodiadau arweiniol**

Caiff Bedydd Catholig ei wirio drwy weld tystysgrif bedydd y plentyn wedi'i llofnodi gan Offeiriad y Plwyf. Os nad yw hyn ar gael, gofynnir i rieni gyflwyno tystiolaeth e.e. llythyr gan Offeiriad y Plwyf.

Cristnogion Uniongred (Groegaidd, Rwsiaidd, Indiaidd): Mae ganddynt berthynas agosach â'r Eglwys Gatholig trwy eu Hysgrythur a'u Traddodiad nag unrhyw enwadau Cristnogol eraill, sy'n esbonio'u categori uwch a gwirir hyn drwy weld Tystysgrif Bedydd y plentyn wedi'i llofnodi gan yr Offeiriad.

Enwadau Cristnogol eraill neu blant o ffydd neu grefyddau eraill sy'n ceisio addysg o fewn cyd-destun Catholig. Caiff Aelodau o Enwadau Cristnogol eraill (y rheini y cydnabyddir eu defod bedydd gan yr Eglwys Gatholig) neu blant o ffydd neu grefyddau eraill eu gwirio trwy lythyr oddi wrth y clerigwyr, y gweinidog neu'r arweinydd ffydd priodol.

Diffiniad o Frawd/Chwaer Plant y mae ganddynt frawd neu chwaer ar y gofrestr yn Ysgol Gynradd Gadeiriol San Joseff yn y mis Medi pan fyddai'r ymgeisydd yn dechrau'r ysgol. Os oes angen, rhoddir y flaenoriaeth uchaf i'r ymgeisydd â'r brawd neu chwaer ieuengaf. (Er enghraifft, mae brawd yn Bl6 gan Mary ac mae chwaer yn Bl1 gan Jane. Os mai un lle sydd ar gael ac os bydd yr holl feini prawf eraill yn gyfartal, cynigir lle i Jane oherwydd bod ei chwaer yn iau.) Dylid nodi perthynas unrhyw frodyr neu chwiorydd yn glir yn y cais. At ddibenion derbyn, brawd neu chwaer yw plentyn sy'n frawd neu'n chwaer lle mae'r ddau blentyn yn perthyn drwy briodas. Mae'r diffiniad hwn hefyd yn cynnwys plant a fabwysiadwyd neu a faethwyd sy'n byw yn yr un cyfeiriad.

Nifer Derbyn Dyma'r nifer uchaf o blant y gallwn eu derbyn mewn unrhyw grŵp blwyddyn. Caiff ei gyfrifo yn ôl arweiniad Llywodraeth Cymru "Mesur capasiti Ysgolion yng Nghymru." Y rhif mynediad yw 60.

Gwarcheidwaeth a Rennir Yn achos plentyn sydd, drwy amgylchiadau teuluol, yn byw gyda rhieni neu warchodwyr gwahanol mewn dau gyfeiriad yn ystod yr wythnos ysgol, bernir mai cyfeiriad y gofalwr sy'n bennaf gyfrifol am y plentyn yn ystod yr wythnos ysgol fydd cyfeiriad y plentyn. Byddwn yn defnyddio'r cyfeiriad hwn ar gyfer penderfyniadau ynglŷn â derbyniadau. (Er enghraifft, mae David yn byw gyda'i fam ar ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener; ac mae'n byw gyda'i dad ar ddydd Mawrth a dydd Iau. Cyfeiriad y fam a ddefnyddir fel cyfeiriad David.)

Plentyn Sy'n Derbyn Gofal Diffinnir plentyn sy'n derbyn gofal fel plentyn yng ngofal yr awdurdod lleol yn unol ag Adran 22 Deddf Plant 1989 ac unrhyw ddeddfwriaeth dilynol.

Rhestrau Aros Os caiff cais plentyn am le yn y Dosbarth Derbyn ei wrthod oherwydd gorymgeisio, bydd ei gais yn cael ei gadw ar ffeil mewn rhestr aros tan 30 Medi yn y flwyddyn dderbyn (h.y. un mis ar ôl i'r ysgol ddechrau). Os daw lle ar gael, caiff ei gynnig i'r plentyn sydd ar frig y rhestr meini prawf goralw'n gyntaf, yna caiff ei gynnig i blant sy'n is ar y rhestr nes dyrannu'r lle. Am 3.20pm ar 30 Medi, caiff unrhyw geisiadau sydd ar y rhestr aros eu dileu. Ni fydd rhestr aros gan unrhyw grŵp blwyddyn arall. Caiff unrhyw geisiadau am le yn yr ysgol gan grwpiau blwyddyn eraill (a phlant y Dosbarth Derbyn ar ôl 30 Medi) eu hystyried ar wahân wrth iddynt gael eu cyflwyno a'u derbyn.

Ceisiadau Hwyr Caiff yr holl geisiadau a gwblheir eu hystyried ar yr un pryd, felly nid oes mantais i rieni sy'n cyflwyno cais yn gynnar. Fodd bynnag, os na fyddwch yn cyflwyno cais erbyn y dyddiad cau, caiff ei ystyried ar ôl yr holl geisiadau eraill a anfonwyd ar amser. Erbyn i geisiadau hwyr gael eu hystyried efallai bydd holl leoedd yr ysgol wedi cael eu dyrannu, hyd yn oed os ydych yn byw yn nalgylch yr ysgol ac yn bodloni'r holl feini prawf mynediad.

## Ysgol Gynradd Gatholig San Joseff - Trefniadau Derbyn 2023-2024

Caiff Ysgol Gynradd Gatholig San Joseff yn Esgobaeth Mynyw, ei chynnal gan Awdurdod Lleol Dinas a Sir Abertawe.

Sefydlwyd Ysgol Gynradd Gatholig San Joseff gan yr Eglwys Gatholig i ddarparu addysg i blant o deuluoedd Catholig. Pan fydd mwy o geisiadau na'r lleoedd sydd ar gael, bydd blaenoriaeth bob tro'n cael ei rhoi i blant Catholig yn unol â'r meini prawf gorymgeisio a restrir isod. Gweinyddir yr ysgol gan ei chorff llywodraethu fel rhan o'r Eglwys Gatholig yn unol â'i gweithred ymddiriedolaeth a'i hofferyn llywodraethu, ac mae bob amser yn ceisio tystiolaethu i Iesu Grist.

Fel Ysgol Gatholig ein bwriad yw darparu addysg Gatholig i'n holl ddisgyblion. Mewn Ysgol Gatholig, mae athrawiaeth ac arfer Catholig yn treiddio drwy bob agwedd ar weithgaredd yr ysgol. Mae'n hanfodol bod cymeriad Catholig yr ysgol yn cael ei gefnogi'n llwyr gan holl deuluoedd yr ysgol. Disgwylir felly i bob rhiant ddangos cefnogaeth lawn, agored a chadarnhaol i nodau ac ethos yr ysgol. Nid yw hyn yn effeithio ar hawl rhiant nad yw'n dilyn y ffydd i gyflwyno cais am le i'w blentyn yn yr ysgol.

Y corff llywodraethu yw'r awdurdod derbyn, ac mae'n gyfrifol am benderfynu ar dderbyniadau i'r ysgol hon. Yr awdurdod lleol sy'n ymgymryd â chydlynu trefniadau derbyn. Mae'r corff llywodraethu wedi pennu rhif derbyn o 30 o ddisgyblion i ddosbarth Derbyn yr ysgol ar gyfer y flwyddyn ysgol nesaf sy'n cychwyn ym mis Medi 2023.

Bydd y corff llywodraethu'n derbyn gefeilliaid a phob brawd a chwaer o'r genedigaethau lluosog os mai un o'r plant yma yw'r 30fed plentyn i gael lle.

**Ysgol Gynradd Gatholig San Joseff**
**Meini prawf gorymgeisio**

***Os yw nifer y ceisiadau'n fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd y meini prawf gorymgeisio canlynol yn cael eu cymhwyso yn y drefn ganlynol:***

1) Pob plentyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol ar hyn o bryd neu sydd wedi derbyn gofal ganddo.
2) Plant â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig lle mae'r awdurdod lleol wedi enwi Ysgol Gynradd Gatholig San Joseff yn y datganiad.
3) a. Pob plentyn sydd wedi'i fedyddio'n Gatholig a phlant catecwmenawd sy'n byw yn nalgylch yr ysgol y bydd ganddynt frawd neu chwaer sy'n mynychu'r ysgol pan fyddant yn ymuno - gweler y nodiadau am arweiniad.
   b. Pob plentyn sydd wedi'i fedyddio'n Gatholig a phlant catecwmenawd sy'n byw yn nalgylch yr ysgol - gweler y nodiadau am arweiniad.
4) Pob plentyn sydd wedi'i fedyddio yn yr Eglwys Uniongred Gristnogol ac sy'n byw yn nalgylch yr ysgol - gweler y nodiadau am arweiniad ar gyfer plant Catholig eraill.
5) Ymgeiswyr y mae ganddynt frodyr a chwiorydd nad ydynt wedi'u bedyddio'n Gatholigion ac sydd ar y gofrestr yn y flwyddyn dderbyn.

6) Disgyblion Catholig o'r tu allan i'r dalgylch.
7) Plant o enwadau Cristnogol eraill neu blant o ffydd neu grefyddau eraill sydd am gael addysg o fewn cyd-destun Catholig (gweler y nodiadau).
8) Plant y mae eu rhieni'n awyddus iddynt gael addysg Gatholig.

**NODIADAU**
***Diffinnir brawd neu chwaer fel plentyn naturiol neu blentyn sydd wedi'i fabwysiadu'n gyfreithlon gan y naill riant neu'r llall sy'n byw yn yr un cyfeiriad. Mewn unrhyw sefyllfa pan fydd un lle ar gael ac mae'r plant cymwys nesaf ar gyfer y lle hwnnw'n efeilliaid/tripledi, bydd y Corff Llywodraethol yn derbyn y ddau/tri phlentyn.

**'Byw yn' a 'Chyfeiriad Cartref'**
Cyfeiriad y cartref fydd y cyfeiriad a ddefnyddir ar gyfer gohebiaeth sy'n gysylltiedig â lle caiff "Budd-dal Plant" ei dalu. Mewn achosion lle mae amheuaeth ynglŷn â chyfeiriad y cartref neu pan fo plentyn yn byw rhwng dau gartref (teuluoedd hollt) neu amgylchiadau perthnasol eraill, mae'n rhaid darparu prawf o Gyfeiriad y Cartref i'r ysgol er mwyn cadarnhau'r cyfeiriad a ddefnyddir ar y ffurflen gais. Cyfeiriad y cartref fydd y cyfeiriad sy'n cydymffurfio â'r uchod ar ddyddiad cau ceisiadau a bennir gan yr awdurdod lleol. Dylai teuluoedd sy'n bwriadu symud tŷ ddarparu:

i) llythyr cyfreithiwr sy'n cadarnhau bod contractau wedi'u cyfnewid ynglŷn â phrynu eiddo; neu
ii) copi o'r cytundeb rhentu cyfredol, wedi'i lofnodi gan y tenantiaid a'r landlord, sy'n dangos cyfeiriad yr eiddo; neu
iii) yn achos personél cyfredol Lluoedd EM, llythyr swyddogol yn cadarnhau dyddiad eu lleoli gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, Y Swyddfa Dramor a Chymanwlad neu Bencadlys Cyfathrebu Llywodraeth y DU.

**Rhestr Aros**
Cynhelir rhestr aros ar gyfer yr ysgol yn achos gorymgeisio. Ar ôl dyrannu lleoedd yn ystod y rownd dderbyn arferol, bydd plant yn aros ar y rhestr aros tan 30 Medi yn y flwyddyn ysgol y maent wedi cyflwyno'u cais. Os daw lleoedd ychwanegol ar gael pan fo'r rhestr aros ar waith, cânt eu dyrannu i blant ar y rhestr aros yn ôl y meini prawf gorymgeisio uchod.

**Sut y profir ymlyniad crefyddol**
Os ydych yn gwneud cais dan feini prawf 3, 4, 6, a 7 cwblhewch y Ffurflen Gais Cyffredin. Diffinnir aelod fel aelod o'r Eglwys yng Nghymru trwy gofrestru ar gofrestr etholiadol y plwyf.

**Apeliadau derbyn**
Mae addysg feithrin yn ddarpariaeth anstatudol ond nid oes hawl apelio gan rieni o dan Ddeddf Addysg 1980 os nad ydynt yn llwyddiannus yn eu cais am le. Nid yw derbyn plentyn i'r dosbarth meithrin yn sicrhau y caiff ei dderbyn i'r ysgol. Y pennaeth sy'n gyfrifol am benderfynu a ddylid dyrannu lle yn y bore neu'r prynhawn. Ar gyfer plant sydd wedi derbyn lle yn y dosbarth meithrin bydd rhaid cyflwyno cais ar gyfer lle yn y dosbarth Derbyn ar yr adeg briodol.

Ar gyfer rhieni sy'n gwneud cais am le i'w plentyn/plant yn y dosbarth Derbyn neu unrhyw ddosbarth arall nad ydynt yn derbyn cynnig am le yn yr ysgol hon, y rheswm am hyn yw y byddai'r cynnydd mewn niferoedd yn effeithio ar addysg ein disgyblion presennol. Mae gan rieni'r hawl i apelio os nad ydynt yn fodlon ar benderfyniad y corff llywodraethu i beidio â derbyn plentyn. Os ydych yn dewis defnyddio'r hawl honno, mae'n rhaid i chi gyflwyno'r apêl i glerc llywodraethwyr yr ysgol.

Caiff yr apêl ei hystyried gan Banel Apeliadau Derbyn annibynnol, a weinyddir gan Fwrdd Addysg yr Esgobaeth, yn unol â chôd ymarfer Llywodraeth Cymru ar apeliadau derbyn. Yna bydd y Panel Apeliadau'n cynnal cyfarfod i ystyried yr holl apeliadau gan rieni y gwrthodwyd lle yn yr ysgol i'w plant. Mae'r penderfyniad yn rhwymol i bob parti perthnasol.

Os yw plant nad ydynt yn Gatholigion yn cael eu croesawu i'r ysgol, mae disgwyl iddynt gymryd rhan yn llawn ym mywyd ysbrydol a gweddïol yr ysgol.

Os yw nifer y ceisiadau mewn unrhyw gategori unigol yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, caiff lleoedd eu dyrannu yn ôl pellter, gan roi blaenoriaeth i'r rhai sy'n byw'n agosaf (y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael) at yr ysgol.  Mesurir y pellter o'r palmant y tu allan i brif fynedfa'r eiddo (tŷ neu fflat), i fynedfa swyddogol agosaf yr ysgol. Caiff rhaglen mapio cyfrifiadurol awtomatig yr awdurdod lleol (ONE system) ei defnyddio i fesur ac mae'n mesur y pellter o'r cartref i'r ysgol ar hyd y llwybr byrraf.

Os yw cais am le yn cael ei wrthod, bydd hawl gan rieni'r plentyn hwnnw i gyflwyno apêl i Banel Apeliadau Annibynnol. Bydd y llythyr gwrthod a anfonir atoch yn cynnwys manylion am sut i apelio yn erbyn ein penderfyniad.

**Nodiadau arweiniol**

1. Caiff **Bedydd Catholig** ei wirio drwy weld tystysgrif bedydd y plentyn wedi'i llofnodi gan Offeiriad y Plwyf. Os nad yw hyn ar gael, gofynnir i rieni gyflwyno tystiolaeth e.e. llythyr gan Offeiriad y Plwyf.

2. **Cristnogion Uniongred** (Groegaidd, Rwsiaidd, Indiaidd): Mae ganddynt berthynas agosach â'r Eglwys Gatholig trwy eu Hysgrythur a'u Traddodiad nag unrhyw enwadau Cristnogol eraill, sy'n esbonio'u categori uwch a gwirir hyn drwy weld Tystysgrif Bedydd y plentyn wedi'i llofnodi gan yr Offeiriad.

3. **Enwadau Cristnogol eraill neu blant o ffydd neu grefyddau eraill sy'n ceisio addysg o fewn cyd-destun Catholig**. Caiff Aelodau o Enwadau Cristnogol eraill (y rheini y cydnabyddir eu defod bedydd gan yr Eglwys Gatholig) neu blant o ffydd neu grefyddau eraill eu gwirio trwy lythyr oddi wrth y clerigwyr, y gweinidog neu'r arweinydd ffydd priodol.

4. **Diffiniad o Frawd/Chwaer** – Plant y mae ganddynt frawd neu chwaer ar y gofrestr yn Ysgol Gynradd Gatholig San Joseff  yn y mis Medi pan fyddai'r ymgeisydd yn dechrau'r ysgol. Os oes angen, rhoddir y flaenoriaeth uchaf i'r ymgeisydd â'r brawd neu chwaer ieuengaf. (Er

enghraifft, mae brawd yn Bl6 gan Mary ac mae chwaer yn Bl1 gan Jane. Os mai un lle sydd ar gael ac os bydd yr holl feini prawf eraill yn gyfartal, cynigir lle i Jane oherwydd bod ei chwaer yn iau.) Dylid nodi perthynas unrhyw frodyr neu chwiorydd yn glir yn y cais. At ddibenion derbyn, brawd neu chwaer yw plentyn sy'n frawd neu'n chwaer lle mae'r ddau blentyn yn perthyn drwy briodas. Mae'r diffiniad hwn hefyd yn cynnwys plant a fabwysiadwyd neu a faethwyd sy'n byw yn yr un cyfeiriad.

5. **Nifer Derbyn** - Dyma'r nifer uchaf o blant y gallwn eu derbyn mewn unrhyw grŵp blwyddyn. Caiff ei gyfrifo yn ôl arweiniad Llywodraeth Cymru "Mesur capasiti Ysgolion yng Nghymru." Y rhif mynediad yw 30.

6. **Gwarcheidwaeth a Rennir**. Yn achos plentyn sydd, drwy amgylchiadau teuluol, yn byw gyda rhieni neu warchodwyr gwahanol mewn dau gyfeiriad yn ystod yr wythnos ysgol, bernir mai cyfeiriad y gofalwr sy'n bennaf gyfrifol am y plentyn yn ystod yr wythnos ysgol fydd cyfeiriad y plentyn. Byddwn yn defnyddio'r cyfeiriad hwn ar gyfer penderfyniadau ynglŷn â derbyniadau. (Er enghraifft, mae David yn byw gyda'i fam ar ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener; ac mae'n byw gyda'i dad ar ddydd Mawrth a dydd Iau. Cyfeiriad y fam a ddefnyddir fel cyfeiriad David.)

7. **Plentyn Sy'n Derbyn Gofal**. Diffinnir plentyn sy'n derbyn gofal fel plentyn yng ngofal yr awdurdod lleol yn unol ag Adran 22 Deddf Plant 1989 ac unrhyw ddeddfwriaeth dilynol.

8. **Rhestrau Aros**. Os caiff cais plentyn am le yn y Dosbarth Derbyn ei wrthod oherwydd gorymgeisio, bydd ei gais yn cael ei gadw ar ffeil mewn rhestr aros tan 30 Medi yn y flwyddyn dderbyn (h.y. un mis ar ôl i'r ysgol ddechrau). Os daw lle ar gael, caiff ei gynnig i'r plentyn sydd ar frig y rhestr meini prawf goralw'n gyntaf, yna caiff ei gynnig i blant sy'n is ar y rhestr nes dyrannu'r lle. Am 3.20pm ar 30 Medi, caiff unrhyw geisiadau sydd ar y rhestr aros eu dileu. Ni fydd rhestr aros gan unrhyw grŵp blwyddyn arall. Caiff unrhyw geisiadau am le yn yr ysgol gan grwpiau blwyddyn eraill (a phlant y Dosbarth Derbyn ar ôl 30 Medi) eu hystyried ar wahân wrth iddynt gael eu cyflwyno a'u derbyn.

9. **Ceisiadau Hwyr**. Caiff yr holl geisiadau a gwblheir eu hystyried ar yr un pryd, felly nid oes mantais i rieni sy'n cyflwyno cais yn gynnar. Fodd bynnag, os na fyddwch yn cyflwyno cais erbyn y dyddiad cau, caiff ei ystyried ar ôl yr holl geisiadau eraill a anfonwyd ar amser. Erbyn i geisiadau hwyr gael eu hystyried efallai bydd holl leoedd yr ysgol wedi cael eu dyrannu, hyd yn oed os ydych yn byw yn nalgylch yr ysgol ac yn bodloni'r holl feini prawf mynediad.

**Ysgol Gynradd Gatholig Illtyd Sant - Polisi Derbyn a Threfniadau ar gyfer 2023-2024**

Caiff Ysgol Gynradd Gatholig San Illtyd yn Esgobaeth Mynyw, ei chynnal gan Awdurdod Lleol Dinas a Sir Abertawe.

Sefydlwyd Ysgol Gynradd Gatholig St Illtyd gan yr Eglwys Gatholig i ddarparu addysg i blant o deuluoedd Catholig. Mae'r ysgol yn gwasanaethu plwyfi Saint Illtyd a Sacred Heart, yn y lle cyntaf. Pan fydd mwy o geisiadau na'r lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth bob amser i blant Catholig yn unol â'r meini prawf gordanysgrifio a restrir isod. Mae'r ysgol yn cael ei chynnal gan ei chorff llywodraethu fel rhan o'r eglwys Gatholig yn unol â'i gweithred ymddiriedaeth ac offeryn llywodraethu ac mae'n ceisio tystiolaethu Iesu Grist bob amser.

Fel Ysgol Gatholig ein bwriad yw darparu addysg Gatholig i'n holl ddisgyblion. Mewn Ysgol Gatholig, mae athrawiaeth ac arfer Catholig yn treiddio drwy bob agwedd ar weithgaredd yr ysgol. Mae'n hanfodol bod cymeriad Catholig yr ysgol yn cael ei gefnogi'n llwyr gan holl deuluoedd yr ysgol. Disgwylir felly i bob rhiant ddangos cefnogaeth lawn, agored a chadarnhaol i nodau ac ethos yr ysgol. Nid yw hyn yn effeithio ar hawl rhiant nad yw'n dilyn y ffydd i gyflwyno cais am le i'w blentyn yn yr ysgol.

Y corff llywodraethu yw'r awdurdod derbyn ac mae'n gyfrifol am dderbyniadau i'r ysgol hon sy'n ymgymryd â chydlynu trefniadau derbyn. Mae'r corff llywodraethu wedi gosod ei rif derbyn ar 30 o ddisgyblion i'r dosbarth Derbyn, neu ddosbarthiadau babanod eraill, yn y flwyddyn ysgol sy'n dechrau ym mis Medi 2023.

Bydd y corff llywodraethu'n derbyn gefeilliaid a phob brawd a chwaer o'r genedigaethau lluosog os mai un o'r plant yma yw'r 30$^{fed}$ plentyn i gael lle.

**Meini prawf gorymgeisio**
*Os yw nifer y ceisiadau'n fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd y meini prawf gorymgeisio canlynol yn cael eu cymhwyso yn y drefn ganlynol:*

1) Pob plentyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol ar hyn o bryd neu sydd wedi derbyn gofal ganddo.
2) Plant â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig lle mae'r awdurdod lleol wedi enwi Ysgol Gynradd Gatholig San Illtyd yn y datganiad.
3) (a) Pob plentyn sydd wedi'i fedyddio'n Gatholig a phlant catecwmenawd sy'n byw yn nalgylch yr ysgol y bydd ganddynt frawd neu chwaer sy'n mynychu'r ysgol pan fyddant yn ymuno - gweler y nodiadau am arweiniad.
   (b) Pob plentyn sydd wedi'i fedyddio'n Gatholig a phlant catecwmenawd sy'n byw yn nalgylch yr ysgol - gweler y nodiadau am arweiniad.
4) Pob plentyn sydd wedi'i fedyddio yn yr Eglwys Uniongred Gristnogol ac sy'n byw yn nalgylch yr ysgol - gweler y nodiadau am arweiniad ar gyfer plant Catholig eraill.
5) Ymgeiswyr y mae ganddynt frodyr a chwiorydd nad ydynt wedi'u bedyddio'n Gatholigion ac sydd ar y gofrestr yn y flwyddyn dderbyn.
6) Disgyblion Catholig o'r tu allan i'r dalgylch.

7) Plant o enwadau Cristnogol eraill neu blant o ffydd neu grefyddau eraill sydd am gael addysg o fewn cyd-destun Catholig (gweler y nodiadau).
8) Plant y mae eu rhieni'n awyddus iddynt gael addysg Gatholig.

**NODIADAU**

Diffinnir brawd neu chwaer fel plentyn naturiol neu blentyn sydd wedi'i fabwysiadu'n gyfreithlon gan y naill riant neu'r llall sy'n byw yn yr un cyfeiriad. Mewn unrhyw sefyllfa pan fydd un lle ar gael ac mae'r plant cymwys nesaf ar gyfer y lle hwnnw'n efeilliaid/tripledi, bydd y Corff Llywodraethol yn derbyn y ddau/tri phlentyn.

<u>'Byw yn' a 'Chyfeiriad Cartref'</u>
Cyfeiriad y cartref fydd y cyfeiriad a ddefnyddir ar gyfer gohebiaeth sy'n gysylltiedig â lle caiff "Budd-dal Plant" ei dalu. Mewn achosion lle mae amheuaeth ynglŷn â chyfeiriad y cartref neu pan fo plentyn yn byw rhwng dau gartref (teuluoedd hollt) neu amgylchiadau perthnasol eraill, mae'n rhaid darparu prawf o Gyfeiriad y Cartref i'r ysgol er mwyn cadarnhau'r cyfeiriad a ddefnyddir ar y ffurflen gais. Cyfeiriad y cartref fydd y cyfeiriad sy'n cydymffurfio â'r uchod ar ddyddiad cau ceisiadau a bennir gan yr awdurdod lleol. Dylai teuluoedd sy'n bwriadu symud tŷ ddarparu:

i) llythyr cyfreithiwr sy'n cadarnhau bod contractau wedi'u cyfnewid ynglŷn â phrynu eiddo; neu
ii) copi o'r cytundeb rhentu cyfredol, wedi'i lofnodi gan y tenantiaid a'r landlord, sy'n dangos cyfeiriad yr eiddo; neu
iii) yn achos personél cyfredol Lluoedd EM, llythyr swyddogol yn cadarnhau dyddiad eu lleoli gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, Y Swyddfa Dramor a Chymanwlad neu Bencadlys Cyfathrebu Llywodraeth y DU.

<u>Rhestr Aros</u>
Cynhelir rhestr aros ar gyfer yr ysgol yn achos gorymgeisio. Ar ôl dyrannu lleoedd yn ystod y rownd dderbyn arferol, bydd plant yn aros ar y rhestr aros tan 30 Medi yn y flwyddyn ysgol y maent wedi cyflwyno'u cais. Os daw lleoedd ychwanegol ar gael pan fo'r rhestr aros ar waith, cânt eu dyrannu i blant ar y rhestr aros yn ôl y meini prawf gorymgeisio uchod.

<u>Sut y profir ymlyniad crefyddol</u>
Os ydych yn gwneud cais dan feini prawf 3, 4, 6, a 7 cwblhewch y Ffurflen Gais Cyffredin. Diffinnir aelod fel aelod o'r Eglwys yng Nghymru trwy gofrestru ar gofrestr etholiadol y plwyf.

<u>Apeliadau derbyn</u>
Mae addysg feithrin yn ddarpariaeth anstatudol ond nid oes hawl apelio gan rieni o dan Ddeddf Addysg 1980 os nad ydynt yn llwyddiannus yn eu cais am le. Nid yw derbyn plentyn i'r dosbarth meithrin yn sicrhau y caiff ei dderbyn i'r ysgol. Y pennaeth sy'n gyfrifol am benderfynu a ddylid dyrannu lle yn y bore neu'r prynhawn. Ar gyfer plant sydd wedi derbyn lle yn y dosbarth meithrin bydd rhaid cyflwyno cais ar gyfer lle yn y dosbarth Derbyn ar yr adeg briodol.

Ar gyfer rhieni sy'n gwneud cais am le i'w plentyn/plant yn y dosbarth Derbyn neu unrhyw ddosbarth arall nad ydynt yn derbyn cynnig am le yn yr ysgol hon, y rheswm am hyn yw y byddai'r cynnydd mewn niferoedd yn effeithio ar addysg ein disgyblion presennol. Mae gan rieni'r hawl i apelio os nad ydynt yn fodlon ar benderfyniad y corff llywodraethu i beidio â derbyn plentyn. Os ydych yn dewis defnyddio'r hawl honno, mae'n rhaid i chi gyflwyno'r apêl i glerc llywodraethwyr yr ysgol.

Caiff yr apêl ei hystyried gan Banel Apeliadau Derbyn annibynnol, a weinyddir gan Fwrdd Addysg yr Esgobaeth, yn unol â chôd ymarfer Llywodraeth Cymru ar apeliadau derbyn. Yna bydd y Panel Apeliadau'n cynnal cyfarfod i ystyried yr holl apeliadau gan rieni y gwrthodwyd lle yn yr ysgol i'w plant. Mae'r penderfyniad yn rhwymol i bob parti perthnasol.

Os yw plant nad ydynt yn Gatholigion yn cael eu croesawu i'r ysgol, mae disgwyl iddynt gymryd rhan yn llawn ym mywyd ysbrydol a gweddïol yr ysgol.

Os yw nifer y ceisiadau mewn unrhyw gategori unigol yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, caiff lleoedd eu dyrannu yn ôl pellter, gan roi blaenoriaeth i'r rhai sy'n byw'n agosaf (y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael) at yr ysgol.  Mesurir y pellter o'r palmant y tu allan i brif fynedfa'r eiddo (tŷ neu fflat), i fynedfa swyddogol agosaf yr ysgol. Caiff rhaglen mapio cyfrifiadurol awtomatig yr awdurdod lleol (ONE system) ei defnyddio i fesur ac mae'n mesur y pellter o'r cartref i'r ysgol ar hyd y llwybr byrraf.

Os yw cais am le yn cael ei wrthod, bydd hawl gan rieni'r plentyn hwnnw i gyflwyno apêl i Banel Apeliadau Annibynnol. Bydd y llythyr gwrthod a anfonir atoch yn cynnwys manylion am sut i apelio yn erbyn ein penderfyniad.

**Nodiadau arweiniol**

Caiff Bedydd Catholig ei wirio drwy weld tystysgrif bedydd y plentyn wedi'i llofnodi gan Offeiriad y Plwyf. Os nad yw hyn ar gael, gofynnir i rieni gyflwyno tystiolaeth e.e. llythyr gan Offeiriad y Plwyf.

Byddai'r rhai yr ystyrir bod ganddynt reswm da dros fethu â chael tystiolaeth ysgrifenedig yn cynnwys y rhai nad ydynt yn gallu cysylltu â lleoliad y bedydd oherwydd erledigaeth neu ofn neu fod yr eglwys a'r cofnodion gwreiddiol wedi'u dinistrio, neu fod y lleoliad lle gweinyddwyd y bedydd yn ddilys ond nid yn eglwys y plwyf lle cedwir cofnodion.

Cristnogion Uniongred (Groegaidd, Rwsiaidd, Indiaidd): Mae ganddynt berthynas agosach â'r Eglwys Gatholig trwy eu Hysgrythur a'u Traddodiad nag unrhyw enwadau Cristnogol eraill, sy'n esbonio'u categori uwch a gwirir hyn drwy weld Tystysgrif Bedydd y plentyn wedi'i llofnodi gan yr Offeiriad.

Enwadau Cristnogol eraill neu blant o ffydd neu grefyddau eraill sy'n ceisio addysg o fewn cyd-destun Catholig. Caiff Aelodau o Enwadau Cristnogol eraill (y rheini y cydnabyddir eu defod bedydd gan yr Eglwys Gatholig) neu blant o ffydd neu grefyddau eraill eu gwirio trwy lythyr oddi wrth y clerigwyr, y gweinidog neu'r arweinydd ffydd priodol.

Diffiniad o Frawd/Chwaer Plant y mae ganddynt frawd neu chwaer ar y gofrestr yn Ysgol Gynradd Gadeiriol San Illtyd yn y mis Medi pan fyddai'r ymgeisydd yn dechrau'r ysgol. Os oes angen, rhoddir y flaenoriaeth uchaf i'r ymgeisydd â'r brawd neu chwaer ieuengaf. (Er enghraifft, mae brawd yn Bl6 gan Mary ac mae chwaer yn Bl1 gan Jane. Os mai un lle sydd ar gael ac os bydd yr holl feini prawf eraill yn gyfartal, cynigir lle i Jane oherwydd bod ei chwaer yn iau.) Dylid nodi perthynas unrhyw frodyr neu chwiorydd yn glir yn y cais. At ddibenion derbyn, brawd neu chwaer yw plentyn sy'n frawd neu'n chwaer lle mae'r ddau blentyn yn perthyn drwy briodas. Mae'r diffiniad hwn hefyd yn cynnwys plant a fabwysiadwyd neu a faethwyd sy'n byw yn yr un cyfeiriad.

Nifer Derbyn Dyma'r nifer uchaf o blant y gallwn eu derbyn mewn unrhyw grŵp blwyddyn. Caiff ei gyfrifo yn ôl arweiniad Llywodraeth Cymru "Mesur capasiti Ysgolion yng Nghymru." Y rhif mynediad yw 30.

Gwarcheidwaeth a Rennir Yn achos plentyn sydd, drwy amgylchiadau teuluol, yn byw gyda rhieni neu warchodwyr gwahanol mewn dau gyfeiriad yn ystod yr wythnos ysgol, bernir mai cyfeiriad y gofalwr sy'n bennaf gyfrifol am y plentyn yn ystod yr wythnos ysgol fydd cyfeiriad y plentyn. Byddwn yn defnyddio'r cyfeiriad hwn ar gyfer penderfyniadau ynglŷn â derbyniadau. (Er enghraifft, mae David yn byw gyda'i fam ar ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener; ac mae'n byw gyda'i dad ar ddydd Mawrth a dydd Iau. Cyfeiriad y fam a ddefnyddir fel cyfeiriad David.)

Plentyn Sy'n Derbyn Gofal Diffinnir plentyn sy'n derbyn gofal fel plentyn yng ngofal yr awdurdod lleol yn unol ag Adran 22 Deddf Plant 1989 ac unrhyw ddeddfwriaeth dilynol.

Rhestrau Aros Os caiff cais plentyn am le yn y Dosbarth Derbyn ei wrthod oherwydd gorymgeisio, bydd ei gais yn cael ei gadw ar ffeil mewn rhestr aros tan 30 Medi yn y flwyddyn dderbyn (h.y. un mis ar ôl i'r ysgol ddechrau). Os daw lle ar gael, caiff ei gynnig i'r plentyn sydd ar frig y rhestr meini prawf goralw'n gyntaf, yna caiff ei gynnig i blant sy'n is ar y rhestr nes dyrannu'r lle. Am 3.20pm ar 30 Medi, caiff unrhyw geisiadau sydd ar y rhestr aros eu dileu. Ni fydd rhestr aros gan unrhyw grŵp blwyddyn arall. Caiff unrhyw geisiadau am le yn yr ysgol gan grwpiau blwyddyn eraill (a phlant y Dosbarth Derbyn ar ôl 30 Medi) eu hystyried ar wahân wrth iddynt gael eu cyflwyno a'u derbyn.

Ceisiadau Hwyr Caiff yr holl geisiadau a gwblheir eu hystyried ar yr un pryd, felly nid oes mantais i rieni sy'n cyflwyno cais yn gynnar. Fodd bynnag, os na fyddwch yn cyflwyno cais erbyn y dyddiad cau, caiff ei ystyried ar ôl yr holl geisiadau eraill a anfonwyd ar amser. Erbyn i geisiadau hwyr gael eu hystyried efallai bydd holl leoedd yr ysgol wedi cael eu dyrannu, hyd yn oed os ydych yn byw yn nalgylch yr ysgol ac yn bodloni'r holl feini prawf mynediad.

## YSGOL GATHOLIG YR ESGOB VAUGHAN : POLISI DERBYNIADAU 2023-2024

Dylid anfon ceisiadau trwy system ar-lein yr Awdurdod Lleol erbyn y dyddiad a nodir gan yr Awdurdod Lleol. Ewch i wefan Cyngor Abertawe ar www.abertawe.gov.uk a chewch eich cyfeirio at y dudalen lle gallwch wneud cais ar-lein.

Mae croeso i chi gysylltu â swyddogion derbyn yr ysgol os oes angen cymorth arnoch i wneud eich cais. Eu rhif cyswllt yw 01792 772006 est. 227.

**Dyma bolisi Derbyn Llywodraethwyr Ysgol Gatholig yr Esgob Vaughan ("yr ysgol):**
Ethos Gatholig sydd i'r ysgol. Sefydlwyd yr ysgol gan yr Eglwys Gatholig i ddarparu addysg i blant o deuluoedd Catholig. Gweinyddir yr ysgol gan ei chorff llywodraethu fel rhan o'r Eglwys Gatholig yn unol â'i gweithred ymddiriedolaeth a'i hofferyn llywodraethu, ac mae bob amser yn ceisio tystiolaethu i Iesu Grist. Gofynnwn i rieni neu ofalwyr sy'n ymgeisio am le i barchu'r ethos hwn a'i bwysigrwydd i gymuned yr ysgol. Nid yw hyn yn effeithio ar hawl rhieni nad ydynt yn dilyn crefydd yr ysgol hon o ran gwneud cais am le yn yr ysgol a chael eu hystyried am le.

**Yn wir, mae'r ysgol yn croesawu'n gynnes bob cais gan holl aelodau'r gymuned.**

Nifer Derbyn yr ysgol ar gyfer y flwyddyn ysgol 2023-2024 yw 215.

Os bydd nifer y ceisiadau'n fwy na'r rhif derbyn, bydd y llywodraethwyr yn rhoi blaenoriaeth i geisiadau'n unol â'r meini prawf a restrir isod, cyhyd â bod y llywodraethwyr yn ymwybodol o'r cais hwnnw cyn iddynt benderfynu ar dderbyniadau.
Ym mhob categori, bydd y llywodraethwyr yn rhoi blaenoriaeth i'r plant hynny sy'n byw agosaf at yr ysgol. Pennir hyn yn unol â system bresennol yr awdurdod lleol i fesur pellter (gweler Nodyn 5).

1. Plant sy'n derbyn gofal neu sydd wedi derbyn gofal gan awdurdod lleol (plant mewn gofal) neu y darperir llety iddynt drwy awdurdod lleol (e.e. plant â rhieni maeth) (Adran 22 Deddf Plant 1989).
2. Plant â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig sydd wedi enwi Ysgol Gatholig Esgob Vaughan.
3. Plant sydd wedi'u bedyddio'n Gatholig y bydd ganddynt frawd neu chwaer sy'n mynychu'r ysgol pan fyddant yn ymuno (gweler Nodiadau 1 a 2 isod).
4. Plant sydd wedi'u bedyddio'n Gatholigion sy'n mynychu ysgol gynradd Gatholig (gweler Nodyn 1 a 3 isod).
5. Plant eraill sydd wedi'u bedyddio'n Gatholigion (gweler Nodyn 1 isod).
6. Plant sydd wedi'u bedyddio yn yr Eglwys Uniongred Gristnogol (gweler Nodyn 4 isod).
7. Plant eraill y bydd ganddynt frawd neu chwaer sy'n mynychu'r ysgol pan fyddant yn ymuno (gweler Nodyn 2 isod).
8. Plant eraill sy'n mynychu ysgol gynradd Gatholig (gweler Nodyn 3 isod).
9. Plant o enwadau Cristnogol eraill neu blant o ffydd neu grefyddau eraill sydd am gael addysg o fewn cyd-destun Cristnogol (gweler y Nodyn 5).
10. Plant eraill sydd am gael addysg o fewn cyd-destun Cristnogol (gweler Nodyn 6).

**Nodyn 1**
Ym mhob categori, er mwyn i blentyn gael ei ystyried yn blentyn sydd wedi'i fedyddio'n Gatholig, bydd rhaid darparu tystiolaeth o Fedydd Catholig neu dderbyniad i'r eglwys i'r ysgol erbyn diwrnod olaf tymor y Nadolig, 2022. Am ddiffiniad cynhwysfawr o blentyn sydd wedi'i fedyddio'n Gatholig, a'r dystiolaeth a gaiff ei hystyried, gweler Atodiad 1.

Dylai rhieni sy'n gwneud cais am blentyn sydd wedi'i fedyddio'n Gatholig hefyd gwblhau ffurflen gwybodaeth ategol (FfGA) a'i dychwelyd i'r ysgol erbyn diwrnod olaf tymor y Nadolig, 2022. Gall peidio â chwblhau'r FfGA yn llawn effeithio ar y categori y rhoddir enw eich plentyn ynddo.

**Nodyn 2**
Ar gyfer yr holl blant, diffinnir "brawd neu chwaer" fel plentyn naturiol neu blentyn sydd wedi'i fabwysiadu'n gyfreithlon gan y naill riant neu'r llall sy'n byw yn yr un cyfeiriad (h.y. mae hyn yn cynnwys llysfrodyr, llyschwiorydd a phlant sydd wedi'u mabwysiadu neu eu maethu gan y teulu). Mewn unrhyw sefyllfa pan fydd un lle ar gael ac mae'r plant cymwys nesaf ar gyfer y lle hwnnw'n efeilliaid/tripledi, bydd y llywodraethwyr yn derbyn y ddau/tri phlentyn.

Ystyrir y bydd brawd neu chwaer yn "mynychu'r ysgol" os ydynt yn mynychu'r ysgol ym mlynyddoedd 7 i 13, ar 1 Ionawr 2023.

**Nodyn 3**
Mae plant sy'n mynychu ysgol gynradd Gatholig yn golygu:

- y rhai sy'n mynychu'n hysgolion cynradd partner yn Abertawe;
  - Ysgol Gynradd Gatholig Dewi Sant;
  - Ysgol Gynradd Gatholig Illtyd Sant;
  - Ysgol Gadeiriol San Joseff;
  - Ysgol Gynradd Gatholig San Joseff, Clydach; a
- phlant sy'n mynychu ysgolion cynradd Catholig mewn awdurdodau lleol eraill.

**Nodyn 4**
Mae gan Gristnogion Uniongred (Groegaidd, Rwsiaidd, Indiaidd) gysylltiad agosach â'r eglwys Gatholig drwy eu Hysgrythur a'u traddodiad nag enwadau Cristnogol eraill, felly eu categori uwch. Caiff hyn ei wirio drwy weld Tystysgrif Bedydd y plentyn a/neu lythyr gan y clerigwyr priodol. Er mwyn i blentyn gael ei ystyried yn y categori hwn, bydd angen i rieni ddarparu'r dystiolaeth i'r ysgol erbyn diwrnod olaf tymor y Nadolig 2022.

Dylai rhieni hefyd gwblhau ffurflen gwybodaeth ategol (FfGA) a'i dychwelyd i'r ysgol erbyn diwrnod olaf tymor y Nadolig 2022. Gall peidio â chwblhau'r FfGA yn llawn effeithio ar y categori y rhoddir enw eich plentyn ynddo.

**Nodyn 5**
Bydd "ffydd neu grefyddau eraill" yn cynnwys yr holl grefyddau, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i Fwdhaeth, Hindŵaeth, Iddewiaeth a Siciaeth. Er mwyn i blentyn gael ei ystyried yn y categori hwn, bydd angen i rieni ddarparu tystiolaeth arall o fedydd neu dystiolaeth ysgrifenedig gan offeiriad, gweinidog, neu arweinydd ffydd neu grefyddol. Bydd angen ei chyflwyno i'r ysgol erbyn diwrnod olaf tymor y Nadolig 2022. Dylai rhieni hefyd gwblhau ffurflen gwybodaeth ategol (FfGA) a'i dychwelyd i'r ysgol erbyn diwrnod olaf tymor y Nadolig 2022. Gall peidio â chwblhau'r FfGA yn llawn effeithio ar y categori y rhoddir enw eich plentyn ynddo.

**Nodyn 6**
Ym mhob categori, bydd y llywodraethwyr yn rhoi blaenoriaeth i'r plant hynny sy'n byw agosaf at yr ysgol. Caiff hyn ei bennu yn unol â system bresennol yr awdurdod lleol i fesur pellter. Ar hyn o bryd, caiff lleoedd eu dyrannu yn ôl pellter, gyda'r rhai sy'n byw agosaf (y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael) yn cael blaenoriaeth. Cymerir y mesuriadau o'r tu allan i fynedfa'r eiddo (tŷ neu fflat) i fynedfa swyddogol agosaf yr ysgol. Unig fynedfa swyddogol Ysgol yr Esgob Vaughan yw'r prif gatiau ar Heol Mynydd Garnlwyd. Defnyddir rhaglen gyfrifiadur GIS yr Awdurdod Lleol i fesur y pellter.

Ystyrir mai cyfeiriad cartref disgybl yw preswylfa barhaol y plentyn. Rhaid mai'r cyfeiriad hwn yw unig neu brif breswylfa'r plentyn yn ystod y rhan fwyaf o'r wythnos ysgol. Mae'n bosib y bydd angen tystiolaeth ddogfennol. Lle mae'r cyfrifoldeb magu plant wedi'i rannu'n gyfartal rhwng y fam a'r tad, rhaid i rieni nodi pa gyfeiriad y dylid ei ddefnyddio at ddiben dyrannu lle ysgol a gallai fod angen cyflwyno prawf.

**DALGYLCH**
Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion o bob rhan o Ddinas a Sir Abertawe, awdurdodau cyfagos a disgyblion sy'n symud i'r ardal o fannau ymhellach i ffwrdd.

**AMSERLEN**
Bydd yr ysgol yn dilyn Amserlen Dderbyniadau'r Awdurdod Lleol.

**RHESTR AROS**
Os na all y llywodraethwyr gynnig lle i blentyn, neu derbynnir cais am le i blentyn ar ôl dyddiad cau'r awdurdod lleol, cedwir enw'r plentyn hwnnw ar restr aros tan 30 Medi 2023. Os nad ydych am i enw'ch plentyn gael ei roi ar y rhestr aros, dywedwch wrth yr ysgol, yn ysgrifenedig, cyn gynted â phosib.
Os daw mwy o leoedd ar gael yn ystod blwyddyn academaidd 2023-2024, bydd Pwyllgor Derbyniadau'r llywodraethwyr yn cael cyfarfod ychwanegol a dyrennir lleoedd i blant ar y rhestr aros (ar adeg y cyfarfod hwnnw) ar sail y meini prawf gorymgeisio a restrwyd yn gynharach. Yn unol â Chôd Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru (t24; para 3.28) ni ellir rhoi blaenoriaeth i blant yn seiliedig ar y dyddiad yr ychwanegwyd y cais at y rhestr aros. Dyrennir lleoedd ar sail y meini prawf gorymgeisio cyhoeddedig a amlinellwyd yn gynharach.

**APELIADAU**
Gall rhieni sy'n dymuno apelio yn erbyn penderfyniad y llywodraethwyr i wrthod lle i'w plentyn yn yr ysgol wneud cais ysgrifenedig i'r canlynol: Y Clerc i'r Llywodraethwyr, Ysgol Gatholig yr Esgob Vaughan, Heol Mynydd Garnlwyd, Treforys, Abertawe SA6 7QG.
Clywir pob apêl gan Banel Apeliadau annibynnol.

**AIL GEISIADAU**
Os nad oes newidiadau sylweddol neu o bwys yn amgylchiadau cais rhieni dros eu plentyn neu'r ysgol, ni fydd y llywodraethwyr yn ystyried ail gais yn yr un flwyddyn academaidd.

**CEISIADAU AR WAHÂN I'R NIFER DERBYN ARFEROL I FLWYDDYN 7**
Dylid cyflwyno'r ceisiadau hyn yn uniongyrchol i Ysgol Gatholig yr Esgob Vaughan. Bydd Pwyllgor Derbyniadau'r llywodraethwyr yn ystyried y ceisiadau hyn yn eu cyfarfod nesaf. Os oes lleoedd ar gael, cânt eu dyrannu ar sail y meini prawf gorymgeisio cyhoeddedig a amlinellwyd yn gynharach.

**PROTOCOL MYNEDIAD TEG Y FLWYDDYN**
Mae'r Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu protocol mynediad teg yr awdurdod lleol er mwyn derbyn plant a waharddwyd neu anodd eu lleoli. Mae plant sy'n destun gorchymyn gan Awdurdod Lleol i dderbyn neu sy'n cael eu dyrannu i ysgol yn unol â Phrotocol Mynediad Teg yn cael eu blaenoriaethu dros y rhai ar restr aros.

**POLISI DERBYNIADAU ÔL-16**
Oherwydd yr angen i weithio ar y cyd â darparwyr eraill, ceir Polisi Derbyn ar wahân ar gyfer myfyrwyr ôl-16. Mae copïau ar gael ar gais gan yr ysgol.

**TALIADAU**
Ni chodir tâl am dderbyn plentyn i'r ysgol hon.

**Atodiad 1: DIFFINIAD O "FEDYDDIO'N GATHOLIG"**

Mae rhywun sydd "wedi'i fedyddio'n Gatholig" yn rhywun sydd:

- Wedi cael ei fedyddio i gymundeb llawn (Cf. *Catechism of the Catholic Church, 837*) gyda'r Eglwys Gatholig drwy Ddefodau Bedydd un o ddefodau amrywiol eglwysi mewn cymuned ag Esgobaeth Rhufain (h.y. y Ddefod Ladinaidd, y Ddefod Fysantaidd, Goptaidd, Syriaidd etc, cf. *Catecism yr Eglwys Gatholig, 1203*). Gellir cael tystiolaeth ysgrifenedig* o'r bedydd hwn trwy archwilio Cofrestri Bedydd yr eglwys y gweinyddwyd y bedydd ynddi (cf. *Côd y Gyfraith Eglwysig, 877 ac 878).*

  Neu

- Wedi'i fedyddio'n ddilys mewn cymuned eglwysig wahanedig ac wedi hynny ei dderbyn i gymundeb llawn â'r Eglwys Gatholig trwy *Ddefod Derbyn Cristnogion a Fedyddiwyd i Gymundeb Llawn â'r Eglwys Gatholig*. Gellir cael tystiolaeth ysgrifenedig o'u bedydd a'u derbyn i gymundeb llawn â'r Eglwys Gatholig trwy archwilio'r Gofrestr Dderbyniadau, neu mewn rhai achosion, is-adran o Gofrestri Bedydd yr eglwys y gweinyddwyd y *Ddefod Derbyn* ynddi (Cf. *Defod Dderbyn Gristnogol, 399).*

**TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG O FEDYDD**

*Bydd cyrff llywodraethu ysgolion Catholig yn gofyn am dystiolaeth ysgrifenedig ar ffurf Tystysgrif Bedydd neu Dystysgrif Derbyn cyn iddynt ystyried cynnwys ceisiadau am leoedd ysgol mewn categorïau "Catholigion Bedyddiedig". Bydd Tystysgrif Bedydd neu Dderbyn yn cynnwys: yr enw llawn, dyddiad geni, dyddiad bedydd neu dderbyn ac enw(au)'r rhiant (rhieni). Rhaid i'r dystysgrif hefyd ddangos ei bod wedi'i chopïo o'r cofnodion a gedwir gan leoliad y bedydd neu'r derbyn.*

*Hwyrach y bydd y rhai sy'n cael anhawster dod o hyd i dystiolaeth ysgrifenedig o'u bedydd, a hynny am reswm dilys, yn cael eu hystyried fel Catholig bedyddiedig, ond dim ond ar ôl iddynt gael ei gyfeirio at eu Hoffeiriad Plwyf a fydd, wedi ymgynghori â'r Ficer Cyffredinol, yn penderfynu sut i ddatrys mater y bedydd a sut i gynhyrchu tystiolaeth ysgrifenedig yn unol â chyfraith yr Eglwys.*

*Mae'n bosib y bydd y rhai sy'n ystyried bod ganddynt reswm dilys dros fethu â chael tystiolaeth ysgrifenedig yn cynnwys y rhai sy'n methu â chysylltu â lleoliad y bedydd oherwydd erledigaeth neu ofn neu fod yr eglwys a'r cofnodion gwreiddiol wedi'u dinistrio, neu fod y lleoliad lle gweinyddwyd y bedydd yn ddilys ond nid yn eglwys y plwyf lle cedwir cofnodion.*

*Mae'n bosib y bydd llywodraethwyr yn gofyn am dystiolaeth gefnogi ychwanegol os nad yw'r dogfennau ysgrifenedig yn egluro'r ffaith y cafodd yr unigolyn ei fedyddio neu ei dderbyn i'r Eglwys Gatholig (h.y. os nad yw enw a chyfeiriad yr eglwys ar y dystysgrif neu os nad yw enw'r eglwys yn dynodi ei bod yn eglwys Gatholig.)*